

Cofrestrfa  
Tir EM



Adroddiad  
Blynyddol  
a Chyfrifon  
2016/17

# Dechrau trawsnewid



Cofrestrfa  
Tir EM  
Adroddiad  
Blynyddol  
a Chyfrifon  
2016/17

Cyflwynir yr adroddiad i'r Senedd yn unol ag Adran 101 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Cyflwynir y cyfrifon i'r Senedd yn unol ag Adran 4(6)(a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Masnachu'r Llywodraeth 1990 Atodlen 1, paragraff (6A), (b).

Gorchynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 18 Gorffennaf 2017.







# OGL

© Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio os datgenir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i: [nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/3) neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Gwladol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu ebostiwch: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd rhaid ichi geisio caniatâd y deiliaid hawlfraint perthnasol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications).

Os oes gennych chi ymholiadau am y cyhoeddiad hwn ffofiwch y tîm Cymorth Cwsmeriaid ar 0300 006 0422 neu ebostiwch [customersupport@landregistry.gov.uk](mailto:customersupport@landregistry.gov.uk); ar gyfer ymholiadau'r wasg ffofiwch Swyddfa'r Wasg ar 0300 006 7543.

Print ISBN 9781474145619

Gwe ISBN 9781474145626

ID 24051701 07/17

Argraffwyd ar bapur gyda 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu fan lleiaf.

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

Clawr: Adeilad Llysgenhadaeth yr Unol Daleithiau yn Nine Elms, Llundain. Cofrestrwyd i Unol Daleithiau America gan Gofrestrfa Tir EM yn Ionawr 2010. Carl Court/Getty Images

Y dudalen hon: John James/DigitalVision/Getty Images



# Cynnwys

<b>Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud</b>	<b>4</b>
<b>Rhagair</b>	
Datganiad y Cadeirydd gan Michael Mire	8
<b>Trosolwg</b>	
Cyfweliad gyda Graham Farrant, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir	10
<b>Adroddiad perfformiad</b>	<b>16</b>
Ein trawsnewid digidol	18
Gweithio'n glyfar yng Nghofrestrfa Tir EM	22
Ein gwerthoedd ar waith	26
Y cwmni cyfreithiol o fewn Cofrestrfa Tir EM	28
Ein harbenigwyr – pobl Cofrestrfa Tir EM	30
Pam bod cynaliadwyedd yn bwysig	34
<b>Dadansoddiad perfformiad</b>	
Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid	36
Ein perfformiad	44
Perfformiad cynaliadwyedd	52
Perfformiad ar faterion eraill	58
Gwybodaeth arall	59
<b>Adroddiad atebolrwydd</b>	
Adroddiad llywodraethu corfforaethol	63
Adroddiad tâl a staff	78
Adroddiad atebolrwydd seneddol ac archwilio	90
Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi	92
<b>Datganiadau ariannol</b>	<b>94</b>
<b>Atodiadau</b>	<b>121</b>



# Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud

Rydym yn cofrestru perchnogaeth, buddion, a morgeisiau a benthyciadau gwarantiedig eraill yn erbyn tir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr.

## Ein huchelgais

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi ymrwymo i fod y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd ar gyfer cyflymder, symlrwydd a dull agored i ddata, ac yn anelu at gyflawni cofrestru cynhwysfawr erbyn 2030.

## Ein cenhadaeth

Eich hawliau tir ac eiddo: wedi eu gwarantu a'u gwarchod.

## Ein prif rôl

Darparu cofnod dibynadwy o wybodaeth am berchnogaeth a buddion sy'n effeithio ar dir ac eiddo.

Rhoi teitl i berchnogion tir ac eiddo sydd wedi'i warantu gan y wladwriaeth.

Rhoi'r galluogrwydd i'r sector ariannol warantu benthyciadau yn erbyn eiddo.

## Mae ein gwerthoedd yn sail i bob peth a wnawn.

Rydym yn rhoi sicrwydd

Mae gennym unplygrwydd

Rydym yn ysgogi arloesedd

Rydym yn broffesiynol

## Ein dyletswyddau statudol

Sefydlwyd Cofrestrfa Tir EM yn 1862. Rydym yn adran anweinidogol o'r llywodraeth, yn asiantaeth weithredol (er 1990) ac yn gronfa fasnachu (er 1993) nad yw'n defnyddio unrhyw arian a ddyfarnwyd gan y Senedd. Yn ôl statud mae'n ofynnol inni sicrhau bod ein hincwm o ffioedd yn cwmpasu ein holl wariant o dan amodau gweithredu arferol.

Pennaeth Cofrestrfa Tir EM yw'r Prif Gofrestrydd Tir a benodwyd o dan statud gan yr Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau gynt) sydd â chyfrifoldeb Seneddol dros Gofrestrfa Tir EM ac am y ddeddfwriaeth y gweithredwn oddi dani. Ar hyn o bryd arweinydd beunyddiol yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer materion Cofrestrfa Tir EM ar ei dîm gweinidogol yw'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol. Unodd yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yng Ngorffennaf 2016 i ffurfio'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol.

Mae ein swyddogaethau yn statudol yn llwyr. Nid oes unrhyw bwerau uchelfreiniol gennym. Mae Deddf Cofrestru Tir 2002 yn rhoi'r pŵer inni ddelio â'r "busnes o gofrestru o dan y Ddeddf hon" a hwn yw ein prif statud llywodraethol.

Roedd Deddf Seilwaith 2015 wedi galluogi Cofrestrfa Tir EM i ymgymryd â gwasanaethau newydd a fyddai'n gwella ymhellach y broses drawsgludo neu'n cynnig budd i'r sector eiddo ehangach. Y cam cyntaf rydym yn ei gymryd yw creu cofrestr pridiannau tir lleol wedi'i digideiddio a fydd yn gwella mynediad i ddata, yn safoni ffioedd, ac yn gwella amserau cwblhau ar gyfer gweithwyr proffesiynol eiddo a dinasyddion.

## Ein gwasanaethau

Gwasanaethau newid y gofrestr – mae pob darn o dir cofrestredig yn cael teitl cofrestr unigryw gyda rhif teitl a chynllun cyfatebol. Mae eiddo yn cael ei werthu, mae cartrefi ac adeiladau swyddfa yn cael eu hailforgeisio, mae pobl yn priodi neu mae eiddo yn cael ei drosglwyddo pan fydd perchnogion yn marw, mae adeiladau'n cael eu rhannu yn sawl fflat ac mae datblygiadau newydd yn cael eu cwblhau. Gall gwneud newidiadau i'r gofrestr a chreu teitlau newydd fod yn gymhleth ac yn dechnegol iawn, felly bydd gwybodaeth a phrofiad ein gweithwyr achos arbenigol yn canolbwyntio ar y maes hwn.

Gwasanaethau ymholiadau'r gofrestr – mae gennym un o'r cronfeydd data trafodion eiddo mwyaf a gall unrhyw un ei gweld am ffi fach ond mae ein chwiliadau gwarantiedig a swyddogol yn rhoi hyd yn oed mwy o ddiogelwch a sicrwydd i weithwyr proffesiynol eiddo a dinasyddion. Mae'r gwasanaethau hyn wedi'u hawtomeiddio bron yn llwyr felly gall cwsmeriaid gael canlyniadau ar unwaith, gan wneud trawsgludo yn gyflymach.

Gwasanaethau eraill – mae ein gwasanaeth Pridiannau Tir yn diogelu buddion mewn tir digofrestredig a ni sy'n cynnal y mynegai methdaliad ar gyfer Cymru a Lloegr. Cynigiwn wasanaethau masnachol hefyd i sefydliadau sydd am ddefnyddio ein data. Er enghraifft, gall rhoddwyr benthyg ddilysu morgeisiau trwy gadarnhau eu blaenoriaeth a'u statws ar y Gofrestr Tir.

Ceisiadau am wasanaeth  
**31.8 miliwn**  
Cyfanswm incwm  
**£311.4m**




**94.8%**  
wedi'u derbyn trwy  
sianeli electronig



**Gwasanaethau newid y gofrestr**

Diweddarau teitl  
sy'n bodoli


**£155.5m**



Nifer a dderbyniwyd  
**5.0m**

Creu les-ddaliad o deitl  
sy'n bodoli

**£30.6m**



Nifer a dderbyniwyd  
**0.2m**

Rhannu teitlau  
rhydd-ddaliol


**£32.1m**



Nifer a dderbyniwyd  
**0.2m**

Creu teitl  
newydd

**£8.3m**



Nifer a dderbyniwyd  
**0.1m**



**Gwasanaethau ymholiadau'r gofrestr**

Gweld y  
gofrestr



**£19.1m**

Nifer a dderbyniwyd  
**6.4m**

MapSearch  
(PDF)



Nifer a dderbyniwyd  
**1.1m**

Copiâu  
swyddogol  
o'r gofrestr



**£44.0m**

Nifer a dderbyniwyd  
**14.6m**

Chwiliad gwarantedig  
o'r map mynegai

**£1.1m**

Nifer a dderbyniwyd  
**0.8m**




Chwiliadau  
swyddogol  
o'r gofrestr

**£2.4m**


Nifer a dderbyniwyd  
**2.4m**



► Gwasanaethau  
eraill




Pridiannau Tir  
**£6.3m**



Gwasanaethau masnachol  
**£5.6m**


# Refeniw a niferoedd gwasanaeth blynyddol 2016/17

## Llwyth gwaith dyddiol ar gyfartaledd



### Pob gwasanaeth

- Gwasanaethau ymholiadau'r gofrestr **76,937**
- Gwasanaethau newid y gofrestr **21,558**
- Gwasanaethau ymholiadau **4,265**



### Gwasanaethau newid y gofrestr

- Diweddarau teitl sy'n bodoli **19,515**
- Creu teitl rhydd-ddaliol neu brydlesol newydd **428**
- Creu les-ddaliad o deitl sy'n bodoli **904**
- Rhannu teitl rhydd-ddaliol **711**



Cwsmeriaid sy'n graddio ein gwasanaethau yn dda, yn dda iawn neu'n rhagorol

**90.3%**




Incwm

**£311.4m**

Costau gweithredu

**£241.9m**



Teitlau cofrestredig

**24.8m**

Gwarged a gadwyd

**£45.7m**

Difidend

**£18.9m**

Tir cofrestredig yng Nghymru a Lloegr


**84.3%**

12,745,582 hectar



**14**

lleoliad



Gweithwyr

**4,862**

Cyferwerth ag amser llawn parhaol

**4,148**

Benyw

**60%**

Gwryw


**40%**

Rhan-amser

**35%**

Prentisiaid


**277**



**£72,500**

wedi'i gasglu gan gydweithwyr ar gyfer elusennau






### Cwsmeriaid

Ateb anghenion newidiol ein cwsmeriaid i wneud trawsgludo yn symlach, yn gyflymach ac yn rhatach.



### Trawsnewid

Creu buddion trwy lywodraethu, cynllunio a gweithredu cryf.



### Digidol

Digideiddio ein gwasanaethau a'r gofrestr, moderneiddio ein TG a manteisio i'r eithaf ar aildefnyddio ein data.

## Ein cenhadaeth

Eich hawliau tir ac eiddo: wedi eu gwarantu a'u gwarchod

## Ein huchelgais

Y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd ar gyfer cyflymder, symlrwydd a dull agored i ddata.


### Ystad

Newid maint ein hystad a chorffori gweithio'n glyfar i greu amgylcheddau gwaith modern ac effeithlon.



### Ariannol

Sicrhau gwerth am arian a chynllun ariannol cadarn.



### Pobl

Grymuso ein pobl, datblygu galluogrwydd, adeiladu capasiti a moderneiddio'r sefydliad.



An aerial night view of a city, likely London, showing a dense grid of buildings and streets illuminated with warm yellow and orange lights. The River Thames is visible, winding through the city. The sky is dark blue with some light clouds. In the top left corner, there is an orange triangle pointing right.

# Rhagair





## Datganiad y Cadeirydd gan Michael Mire

Ein nod pennaf yw i Gofrestrfa Tir EM gael ei hystyried yn un o'r rhai gorau yn y byd. Dyna pam rydym yn dechrau proses o drawsnewid a fydd yn gweld Cofrestrfa Tir EM yn cael ei digideiddio bron yn llwyr gyda diwylliant modern sy'n cydnabod cyfraniad pob un o'n cydweithwyr.

Trwy ddigideiddio bydd ein cwsmeriaid – dinasyddion, cwmnïau, y llywodraeth, cyfreithwyr a thrawsgludwyr a sefydliadau ariannol – yn gallu cael gwybodaeth a data sy'n enwog am eu cywirdeb a'u defnyddioldeb. Strategaeth Cofrestrfa Tir EM yw chwarae ei rhan yn y gwaith o ddatblygu, prynu a gwerthu tir ac eiddo, a gwarantu morgeisiau a benthyciadau i ddarparu cyllid, a hynny mewn modd hollol ddiffwdan.

Ni fydd hyn yn ein tynnu oddi wrth ein cenhadaeth ganolog. Bydd Cofrestrfa Tir EM bob amser yn sicrhau bod hawliau eiddo a hawliau ariannol dros eiddo wedi'u gwarantu a'u gwarchod. Byddwn yn parhau i ddarparu gwarant ddiderfyn a gefnogir gan y wladwriaeth yn rhad ac am ddim trwy ein cynllun indemniad. Bydd ein data pris eiddo yn parhau i fod yn sail i'r ffynhonnell fwyaf sicr yn y wlad o fewnwelediad prisio. Ond bydd y rhaglen drawsnewid yn atgyfnerthu ein cenhadaeth trwy allu ei gwireddu mewn modd mwy effeithiol, yn llawer cyflymach a symlach.

Mae ein Hadroddiad Blynyddol yn disgrifio sut y bydd y trawsnewid yn digwydd. Mae bod yn ddigidol yn hollbwysig ond diwylliant fydd yn sicrhau ei lwyddiant. Mae ein cydweithwyr ar y rheng-flaen yn arbenigwyr. Byddwn yn helpu i adeiladu ar eu harbenigedd trwy ddefnyddio'r wyddoniaeth ddiweddaraf un, fel deallusrwydd artifisial, er mwyn i'n cydweithwyr fod yr arbenigwyr cofrestru tir mwyaf digidol-fedrus yn y byd.

Bydd ein trawsnewid hefyd yn gwella rôl Cofrestrfa Tir EM fel un o asiantaethau daear-ofodol pwysicaf yn y DU. Bydd ein deallusrwydd tir ac eiddo ni, ac felly'r genedl, yn gwella'n fawr. Bydd y gofrestr yn fwyfwy digidol, 3D, gynhwysfawr ac yn llawer cyfoethocach o ran data na'r gofrestr bresennol. Bydd y plattform rydym yn ei adeiladu yn un hanfodol i bawb sydd â diddordeb mewn deallusrwydd tir ac eiddo.

Enw da Cofrestrfa Tir EM am gywirdeb, unplygrwydd a phroffesiynoldeb, a'n cydweithwyr arbenigol ymroddedig yw ein hasedau mwyaf gwerthfawr. Er ein bod yn dechrau trawsnewid fyddwn ni ddim yn anghofio ein hanes. Mae'n fraint enfawr imi gadeirio sefydliad sydd mor bwysig i'r wlad a'i chwsmeriaid.

Ein nod yw i  
Gofrestrfa Tir EM gael  
ei hystyried yn un o'r  
goreuon yn y byd.



# Trosolwg: Cyfweiliad gyda Graham Farrant, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir






## Ar beth fyddwch chi'n canolbwyntio yn 2017?

Yn ganolog i'n cynlluniau ar gyfer 2017 fydd ymgysylltu â'n pobl ar ein blaenoriaethau i sicrhau eu bod nhw'n deall beth rydym yn gofyn ganddynt cyn dechrau trawsnewid.

Mae'r Llywodraeth wedi rhoi'r uchelgais i Gofrestrfa Tir EM fod y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd ar gyfer cyflymder, symlrwydd a dull agored i ddata ac anelu at gyflawni cofrestru cynhwysfawr erbyn 2030.



Mae'r graffig yn dangos sut mae Banc y Byd yn graddio cofrestru tir a gwyddom y bydd bod yn arweinydd byd yn heriol.

Dyna pam mae gennym strategaeth i fod yn ddarparwr gwasanaeth gwirioneddol ddigidol gyda data sydd ar gael er budd dinasyddion, cwsmeriaid, entrepreneuriaid a'n partneriaid yn y llywodraeth. Law yn llaw â chofrestru cynhwysfawr, bydd ein strategaeth yn un o drawsnewid.

Ochr yn ochr â'r rôl allweddol sydd gennym eisoes yn y farchnad eiddo, bydd ein trawsnewid yn ein helpu i gefnogi'r DU i ddatblygu economi ddigidol fywiog ac arloesol. Bydd ein cynlluniau yn cynnwys digideiddio ein gwasanaethau presennol ond byddwn hefyd yn ystyried sut, trwy dechnoleg ddigidol newydd, y gallwn helpu i ryddhau hyd yn oed mwy o werth o'r Gofrestr Tir.

I wneud hyn byddwn yn gweithio'n greadigol gyda chwaraewyr ac arloeswyr allweddol ar draws y farchnad i'n helpu i greu cofrestr wirioneddol ddigidol trwy ein cynllun peilot "Y Stryd Ddigidol" y bwriadwn ei lansio yn yr haf 2017.

Bydd y Llywodraeth hefyd yn ystyried sut y gallwn ni a'r Arolwg Ordans gydweithio'n agosach i ddarparu deallusrwydd tir ac eiddo digidol mwy effeithiol a

chryfhau arweinyddiaeth y DU yn ddaear-ofodol.

Bydd Cofrestrfa Tir EM wedi'i moderneiddio yn gymorth i rannu data ar draws y llywodraeth at ddibenion cefnogi datblygiad, sefydlogrwydd ariannol, casglu trethi, gorfodi'r gyfraith a sicrhau diogelwch gwladol.

## Sut ydych chi'n paratoi ar gyfer trawsnewid?

I baratoi ein hunain ar gyfer trawsnewid byddwn yn parhau i gryfhau portffolios aelodau bwrdd gweithredol ac anweithredol i sicrhau bod y cymysgedd iawn gennym o brofiad yn y sectorau preifat a chyhoeddus; gan gyfuno profiad yng Nghofrestrfa Tir EM â mewnwleidiad a syniadau newydd o'r tu allan i'r sefydliad. Byddwn hefyd yn sicrhau bod adnoddau llawn gan ein timau a bod y gallu ganddynt i foderneiddio'r sefydliad a'n gwasanaethau.

Mae ein hanes hir bob amser wedi rhoi ymdeimlad cryf o bwrpas inni ond mae ein cyfeiriad ar gyfer y dyfodol yn fwy eglur bellach.

Ond er inni geisio gwthio'r ffiniau wrthi inni arloesi mewn gwasanaethau digidol a data ni fyddwn ni byth yn tynnu ein sylw oddi ar ein cwsmeriaid na'n blaenoriaethau statudol craidd. Mae 'Eich hawliau tir ac eiddo: wedi eu gwarantu a'u gwarchod' yn crynhoi ein haddewid o roi sicrwydd i'r farchnad a'n blaenoriaeth bennaf yw sicrhau cywirdeb y gofrestr wrth inni dderbyn a phrosesu miliynau o geisiadau bob blwyddyn.

Bydd ein gwerthoedd yn parhau i ffurfio'r sail ar gyfer pob peth a wnawn a bydd ein trawsnewid yn cadarnhau elfennau allweddol y sicrwydd a roddir i berchnogion tir ac eiddo a chywirdeb y gofrestr a fydd bob amser yn hollbwysig i'n llwyddiant yn y dyfodol.

## Sut byddech chi'n disgrifio 2016?

Fel blwyddyn a ddechreuodd gyda heriau i Gofrestrfa Tir EM ond a ddaeth i ben gyda gwir eglurder ynghylch ein dyfodol.

Mae ein huchelgais, cenhadaeth a gwerthoedd newydd yn adlewyrchu ein hymrwymiad craidd at gywirdeb y Gofrestr Tir.



Ar y dechrau gwelsom gynnydd parhaus ym maint y gwaith, ymgynghoriad cyhoeddus ar y posibilrwydd o breifateiddio ac yn ystod yr haf cafwyd ansicrwydd byd-eang pellach ynghylch Brexit.

Nid oedd y penderfyniad a nodwyd yn Natganiad yr Hydref i Gofrestrfa Tir EM ganolbwyntio ar fod yn fusnes cofrestru seiliedig ar ddata yn y sector cyhoeddus yn cymeradwyo'r status quo. Yn hytrach, rhoddodd hwb o'r newydd inni foderneiddio a datblygu ein gwasanaethau digidol a data a'n deallusrwydd lleoliad i gefnogi'r farchnad eiddo a'r economi.

Cafodd hyn ei gadarnhau ymhellach yn y Papur Gwyn Tai "Fixing our broken housing market" yn Chwefror 2017 gyda'r ymrwymiad inni fod y gofrestrfa tir orau yn y byd ar gyfer cyflymder, symlrwydd a dull agored i ddata, ac anelu at gyflawni cofrestru cynhwysfawr erbyn 2030.

Roedd y datganiadau hyn yn nodi carreg filltir yn ein hanes hir, gan gynnig cyfle heb ei ail inni ailfeddwl ac ail-lunio'r ffordd rydym yn gweithio a'r hyn a wnawn i anelu at fod y gofrestrfa tir orau yn y byd.

Y datganiadau hyn roddodd y momentwm hefyd i gynnal adolygiad strategol o'n busnes sydd wedi ein helpu i ddatblygu barn glir ynghylch sut y byddwn yn trawsnewid i fod y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd ar gyfer cyflymder, symlrwydd a dull agored i ddata.

## Ewch â ni trwy'r perfformiad am y flwyddyn

Fel pennawd cyflawnwyd neu rhagorwyd ar chwech o'n un ar ddeg dangosydd perfformiad yn unig ond nid yw hynny'n adrodd y stori gyfan.

Er gwaetha'r sôn am ddirywiad yn y farchnad, roeddem yn dal i weld cynnydd yn nifer y ceisiadau am wasanaeth ar draws y rhan fwyaf o'r mathau o geisiadau. Mae ein cydweithwyr gweithredol wedi bod yn brysur iawn gan sicrhau bod y farchnad eiddo yn parhau i weithredu trwy brosesu ceisiadau mor gyflym â phosibl a thrywy flaenoriaethu ceisiadau amser-critigol wrth iddynt godi.

Mae gwrthod cyfaddawdu ar ansawdd, cynnal cywirdeb y gofrestr, hyd yn oed yn wyneb y niferoedd mwyaf ers i'r farchnad gwympto yn 2008/09, wedi golygu oedi wrth ddelio â'r mathau mwy cymhleth o geisiadau sy'n gofyn am fwy o ymdrech gan ein pobl a mwy o fewnbwn gan ein cwsmeriaid.

I wynebu'r her hon recriwtiwyd bron 600 o gydweithwyr newydd, y nifer mwyaf o bobl newydd a gyflogwyd ers sawl blwyddyn, cyflwynwyd ffyrdd mwy hyblyg o weithio a gwnaethpwyd newidiadau i'n systemau gwaith achos i gynyddu effeithlonrwydd.

Ar gyfer ein cwsmeriaid gwnaethpwyd gwelliannau i'n gwasanaethau megis i'r gwasanaeth Application Enquiry a lanswyd fis Mawrth diwethaf sy'n cynnig modd i gyfreithwyr a thrawsgludwyr weld cynnydd eu hachosion penodol ar-lein.

Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen lleihaodd amserau ymdrin ag achosion ac rwy'n hollol ffyddiog y bydd hyn yn parhau yn y flwyddyn ariannol nesaf hyd nes ein bod yn cyrraedd ein targedau cyflymder gwasanaeth fel mater o arfer. Credaf fod yr ymdrechion hynny wedi cael eu cydnabod gan ein cwsmeriaid oherwydd rydym dal yn gallu bodloni ein Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer bodlonrwydd cwsmeriaid er gwaethaf cefndir mor heriol. Ein nod ar gyfer y flwyddyn nesaf yw bodloni pob un o'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

## Beth am y camau tuag at wneud y gofrestr yn fwy digidol?

O ran ein perfformiad digidol bodlonwyd ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod ein gwasanaethau ar-lein ar gael i'n cwsmeriaid pryd bynnag y mae angen iddynt eu defnyddio. Fodd bynnag, mae wedi golygu mwy na dim ond cynnal ein gwasanaethau fel y maent. Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi gwneud cynnydd pellach, gan gynnwys:

- gweithredu fersiwn peilot o'n gwasanaeth morgais digidol gyda chymerwyr benthgyl, a roddodd adborth da. Byddwn yn defnyddio gwasanaeth Verify y



# 98%

## Y gorau ar gyfer gwasanaeth cwsmeriaid

Am y pum mlynedd diwethaf rydym wedi rhagori ar ein targedau bodlonrwydd cwsmeriaid gyda chyfartaledd o 95% yn graddio ein gwasanaeth cyffredinol yn dda, yn dda iawn neu'n rhagorol.

Rydym yn sicrhau bod ein gwasanaethau yn cael eu darparu i'r safonau ansawdd uchaf gyda 98% o ddiweddariadau i'r gofrestr yn pasio gwiriadau ansawdd llym.

Llywodraeth i ddarparu sicrwydd hunaniaeth;

- treialu ein gwasanaeth Find Property Information, lle y gall aelodau'r cyhoedd weld crynodeb o'r teitl;
- cael cydnabyddiaeth ar gyfer ein plattform technoleg gyffredinol trwy gael ein cynnwys ar y rhestr fer ar gyfer Gwobr Arloesi Diwydiant TG y DU. Bydd y plattform yn gyfle i lansio ystod o wasanaethau a fydd yn helpu amrywiaeth o gwsmeriaid ac economi'r DU yn gyffredinol; a
- rhoi arddangosiad byw o'r fersiwn alffa cyntaf o'r gwasanaeth cofrestr newydd i'n budd-ddeiliaid yn ystod ein cynhadledd Pridiannau Tir Lleol ym mis Tachwedd.

### Sut mae'ch cydweithwyr wedi ymateb i'r heriau hyn?

O ran ein pobl, er gwaetha'r pwysau a'r ansicrwydd cynyddol, bu ond inni gyrraedd y targed dwy flynedd uchelgeisiol a osodwyd i'n hunain i gynyddu sgoriau ymgysylltu â chydweithwyr gan y ganran enfawr o 15%. Yn wir dangosodd ein harolwg pwls mewnol diwedd blwyddyn ein bod yn rhagori ar y targed hwn, gan gyflawni'r sgoriau ymgysylltu uchaf ar gyfer y sefydliad ers i gofnodi ddechrau yn 2009.

Mae'r ymdrech fawr a pharhaus hon gan weithlu teyrngar a phrofiadol wedi cael hwb ar ffurf ein recriwtiaid newydd a'r prentisiaid rydym yn eu cyflwyno i'r byd gwaith i greu'r genhedlaeth nesaf o gydweithwyr arbenigol.

### Beth sydd wedi eich synnu chi am eich cydweithwyr?

'Graddiodd' ein carfan gyntaf o 80 o brentisiaid yn yr hydref ar ôl dwy flynedd o hyfforddiant ac mae'r mwyafrif helaeth ohonynt wedi aros gyda ni fel swyddogion gweithredol cofrestru.

Gwnaethpwyd ymdrechion cyson i ehangu'r dewis o ymgeiswyr posibl ar gyfer ein swyddi, gan adlewyrchu'r pwysigrwydd a rown ar amrywiaeth

ein gweithlu. Cafodd hyn ei gydnabod trwy gael ein gosod yn safle 70 ar restr 100 Cyflogwr Gorau Stonewall ar gyfer staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol a'n gwobr ar gyfer Grŵp Rhwydwaith y Flwyddyn yng Ngwobrau Cydraddoldeb a Chynhwysiant Employers Network 2016.

Mae nifer o'n recriwtiaid newydd wedi ymuno â'u cydweithwyr i gymryd rhan weithredol yn y digwyddiadau cymdeithasol, chwaraeon ac elusennol sy'n gwneud Cofrestrfa Tir EM yn lle mor arbennig i weithio. Casglodd ein pobl bron £72,500 eleni ar gyfer achosion da trwy gynnal digwyddiadau noddedig a chodi arian mawr a bach.

Does dim byd gwell yn dangos eu hysbryd o haelioni na'r ymgyrch ar gyfer ein cydweithiwr Hannah Miller, a ddiodeffodd anaf newid bywyd i'w chefn ac a oedd angen adnewyddu ei chartref yn llwyr. Aeth cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad, nifer ohonynt oedd byth wedi cwrdd â Hannah, ati i godi arian i gasglu'r arian oedd ei angen arni.


Yr ymdrech ar y cyd hon, er gwaetha'r heriau a'r ansicrwydd mawr y tu allan i'n rheolaeth, sydd wedi bod yn sail i berfformiad cadarn Cofrestrfa Tir EM ond sydd hefyd gosod y sylfeini i ddechrau ein trawsnewid.

### Oes gennych chi neges i gloi?


I'n pobl, diolch yn fawr. Rydych wedi cyflawni llawer iawn yn erbyn cefndir heriol dros ben. Ond fe fyddaf yn dibynnu arnoch i wneud mwy eto byth – mae 2017 yn mynd i fod yn flwyddyn o newidiadau cyffrous inni ond bydd angen eich cefnogaeth chi i gyd arnaf er mwyn gallu gwireddu ein huchelgeisiau.

O ran ein budd-ddeiliaid, byddwn yn gofyn ichi ymuno, cefnogi a gweithio mewn partneriaeth â ni wrth inni ystyried sut y gallwn gydweithio trwy dechnoleg ddigidol i wneud trawsgludo yn gyflymach, yn rhatach ac yn symlach i bawb – cynnig digidol sydd mewn gwirionedd yn cyfleu hanfod yr hyn fu'n sail i greu ein system o gofrestru tir fwy na 150 o flynyddoedd yn ôl.













An aerial photograph of a rural farm. The foreground is dominated by a large, rectangular field of dark brown, plowed earth, showing distinct vertical furrows. To the left of this field, there is a cluster of buildings, including a large house with a dark roof and a smaller structure. A dirt road or driveway leads to the buildings. In the background, there are green fields and a line of trees. The lighting suggests a bright, sunny day, casting shadows on the plowed field.

Rydym wedi  
ymrwymo i fod y  
gofrestrfa tir oraŷ yn y  
byd ar gyfer cyflymder,  
symlirwydd a data  
agored.



# Adroddiad perfformiad

## Beth mae ein cwsmeriaid yn ei ofyn

<p>Beth sydd ar gael yn agos i gartref?</p> <p>Pa mor fawr yw'r ardd?</p> <p>Pa mor fawr yw maes parcio'r swyddfa?</p> 	<p>Faint alla i ei fenthyg?</p> <p>Beth yw gwerth yr eiddo?</p> 	<p>Ydy'r tir wedi'i gofrestru?</p> <p>Pwy sy'n berchen ar yr eiddo?</p> <p>Oes morgais sydd heb ei dalu?</p> 	<p>Ydy cynnig fy nghwsmer wedi'i ddiogelu?</p> <p>Ydy trawsgludwr y gwerthwr wedi chwilio'r gofrestr?</p> 	<p>Ydy fy menthyciad wedi cael ei gofrestru?</p> <p>Ydy gwerthu'r eiddo wedi cael ei gwblhau?</p> 	<p>Ydy fy manylion wedi cael eu diweddarau?</p> <p>Sut galla i sicrhau na fyddaf yn dioddef twyll eiddo?</p> 
<b>1. Chwilio am eiddo</b>	<b>2. Trefnu morgais</b>	<b>3. Cyn cyfnewid</b>	<b>4. Cyfnewid contract</b>	<b>5. Cwblhau</b>	<b>6. Byw/gweithio yn yr eiddo</b>

## Sut mae Cofrestrfa Tir EM yn helpu ym mhob cam

Chwiliad eiddo	Chwiliad pridiannau tir	Copi swyddogol	Chwiliad swyddogol o'r gofrestr	Cofrestru eiddo newydd	Property Alert
Risg o lifogydd	Mynegai prisiau tai	Chwiliad o'r map mynegai		Trosglwyddo teitl	Diweddarau'r gofrestr
Pris a dalwyd	Chwiliad methdaliad	Gweld dogfen			Rhyddhau morgais

Er 1862 rydym wedi rhoi hyder i'r farchnad eiddo yng Nghymru a Lloegr trwy ddiogelu perchnogaeth a buddion mewn tir ac eiddo sydd ar hyn o bryd yn werth mwy na £4 triliwn. Rydym yn gwarchod perchnogaeth trwy warant wladwriaethol ddiderfyn ac rydym hefyd yn cynnal y sector ariannol. Mae cofrestru morgaisiau a benthyciadau yn cynnig modd i sefydliadau ariannol ddarparu benthyciadau personol a masnachol sicr yn erbyn eiddo, gan gynnal twf a ffyniant economaidd.

Mae ein rhan ni yn mynd ymhell y tu hwnt i gofrestru'r trafodiad terfynol. Darparwn lawer o'r wybodaeth sy'n dylanwadu ar benderfyniadau prynwyr a gwerthwyr eiddo a sefydliadau ariannol.

Hefyd cynigiwn amrywiaeth o wasanaethau sy'n helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer cwblhau trafodiad. Mae'r rhain yn amrywio o'n chwiliad swyddogol sy'n diogelu trafodion tra bo'r trosglwyddiad yn cael ei gwblhau i'n gwasanaethau masnachol sy'n helpu rhoddwyr benthyg i gadarnhau eu portffolio morgais.

Bydd cyfreithwyr a thrawsgludwyr yn cysylltu â ni ar ran eu cleientiaid i chwilio ein cofnodion i gael gwybod cymaint â phosibl am yr eiddo. Mae ein data, sydd ar gael yn uniongyrchol gennym ni neu trwy arloeswyr trydydd parti, yn helpu entrepreneuriaid technoleg eiddo i greu

cynhyrchion newydd, i brynwyr a rhoddwyr benthyg wneud penderfyniadau mwy gwybodus ac mae'n hwyluso tryloywder i atal twyll a llygredd.

Cynigiwn amrywiaeth o wasanaethau sy'n helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer cwblhau trafodiad.





# Ein trawsnewid digidol




## John Abbott Cyfarwyddwr Digidol, Data a Thechnoleg

Mae trawsnewid digidol wrth wraidd y newidiadau yr hoffem eu gwneud. Trwy roi'r defnyddiwr yng nghanol ein dull gweithredu byddwn yn parhau i ddarparu ystod gynyddol eang o wasanaethau digidol a fydd yn gwneud y broses drawsgludo yn symlach, yn gyflymach ac yn rhatach.

Ein ffocws ar gyfer y flwyddyn nesaf (a thu hwnt) fydd digideiddio'r rhan fwyaf o wasanaethau Cofrestrfa Tir EM. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf o ran paratoi ar gyfer y dyfodol a chyflwyno gwasanaethau newydd a gwell a fydd yn gwneud bywydau trawsgludwyr a dinasyddion yn haws.

Byddwn yn digideiddio ein gwasanaethau presennol ond byddwn hefyd yn profi dyfodol trawsgludo digidol trwy ein cynllun peilot "Y Stryd Digidol" a fydd yn cynnig modd inni archwilio'n ddiogel y defnydd o dechnolegau newydd fel Blockchain a Deallusrwydd Artificial



### Paratoi ar gyfer dyfodol digidol

Cafodd ein platfform technoleg gyffredin ei roi ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Diwydiant TG y DU yn 2016. Mae'r platfform yn golygu y gall ein timau technoleg wella ein seilwaith TG yn gyflym, yn hawdd ac yn ddibynadwy fel rhan o strategaeth i ddisodli ein systemau TG presennol dros y pum mlynedd nesaf. Bydd yn ffurfio'r sail ar gyfer pob un

o'n gwasanaethau digidol ac yn gwneud y defnydd gorau o dechnolegau cwmwl a ffynhonnell agored.

O ran ein cwsmeriaid, ein partneriaid yn y llywodraeth a'r cyhoedd, bydd yn golygu mynediad haws i'n gwasanaethau a'n data, gan gynnwys 24.8 miliwn o deitlau eiddo yn y Gofrestr Tir. I unrhyw un sy'n ymwneud â phrynu a gwerthu eiddo, bydd yn golygu system drawsgludo gyflymach a llai trafferthus diolch i'r gwasanaethau cofrestru tir digidol newydd y bydd y platfform yn eu darparu.

### Datblygu gwasanaethau newydd

Ym Mehefin 2016 dechreuwyd gweithredu fersiwn peilot o'n gwasanaeth morgais digidol. Nid yw'n creu gweithred gyfreithiol eto, felly mae'n rhaid i roddwyr benthg lofnodi gweithred bapur o hyd, ond mae'r gwasanaeth peilot wedi cynnig modd inni wirio y bydd yr hyn rydym wedi'i adeiladu yn gweithio yn y byd go iawn. Mae'r adborth a gawsom gan gymerwyr benthg sydd wedi profi'r gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol, a gwnaethpwyd gwelliannau yn seiliedig ar yr adborth hwn. Erbyn hyn rydym yn defnyddio gwasanaeth Verify GOV.UK i roi lefel briodol o sicrwydd hunaniaeth inni cyn bod y cymerwr benthg yn lofnodi ei weithred morgais yn ddigidol. Mae'r gwasanaeth yn dal i fod mewn beta preifat ond bwriadwn ei gynnig i fwy o ddefnyddwyr yn 2017.



Hwn fydd y cyntaf o fath newydd o wasanaeth digidol lle y gall cwsmeriaid a dinasyddion ddiweddarau'r gofrestr yn ddigidol. Gall y morgais gwirioneddol ddigidol cyntaf gael ei greu, ei lofnodi a'i gofrestru

MapSearch yw'r  
glasbrint sy'n  
dangos sut y  
byddwn yn datblygu  
ac yn cyflwyno  
gwasanaethau digidol  
newydd yn y dyfodol.





heb yr angen am unrhyw waith papur neu ebostio a heb i'n cydweithwyr orfod cymryd rhan yn y broses

Datblygwyd ein gwasanaeth Find Property Information yn ystod 2016/17 er mwyn i gwsmeriaid allu cael crynodeb o'r teitl sy'n darparu gwybodaeth o'r gofrestr lawn mewn ffurf symlach a chliriach. Rydym wedi mabwysiadu dull dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr sydd wedi helpu i gynnwys symrlwydd yn y gwasanaeth o'r cychwyn cyntaf. Cynhaliwyd mwy na 100 o sesiynau ymchwil i ddefnyddwyr gan geisio adborth a gwella'r gwasanaeth i'w wneud yn fwy ystyriol o'r defnyddiwr.

### Gwella gwasanaethau presennol

Mae ein gwasanaeth arobryn MapSearch yn rhoi mynediad hunanwasanaeth i'n cwsmeriaid i declyn mapio ar-lein rhad ac am ddim a'u galluogi i weld yn gyflym pa dir ac eiddo yng Nghymru a Lloegr sydd wedi'i gofrestru. Trwy MapSearch mae cwsmeriaid wedi arbed cynnal mwy na miliwn o chwiliadau o'r map mynegai ers i'r gwasanaeth gael ei lansio, gan arbed amser ac arian.



MapSearch ar-lein

Ers iddo gael ei lansio yn 2014, mae'r gwasanaeth wedi mynd o nerth i nerth, gan ennill Gwobr Digidol y Gwasanaeth Sifil yn 2015 ac rydym wedi parhau i'w wella.

Pasiodd MapSearch y garreg filltir o 10 miliwn o chwiliadau ym mis Hydref 2016. Rydym am i lwyddiant MapSearch fod y glasbrint sy'n dangos sut y byddwn yn datblygu ac yn cyflwyno gwasanaethau digidol newydd yn y dyfodol.

Mae ein gwasanaeth rhad ac am ddim Application Enquiry yn cynnig modd i gwsmeriaid wirio cynnydd unrhyw gais a chael gwybodaeth helaeth trwy'r porthol e-wasanaethau Busnes – ein sianel trafodion ar-lein ar gyfer ein cwsmeriaid proffesiynol.

Mae'r gwasanaeth newydd hwn wedi bod yn fyw am flwyddyn bellach ac mae nifer y galwadau a'r negeseuon ebyst a dderbyniwyd wedi lleihau o ganlyniad, sy'n golygu y gall ein gweithwyr achos ganolbwyntio ar gynnig gwasanaeth cyflymach yn gyffredinol.


Eleni ychwanegwyd nifer o nodweddion newydd roedd cwsmeriaid wedi gofyn amdanynt, megis anfon hysbysiadau ebost pan fydd canlyniadau cais cwsmer yn barod i'w llwytho i lawr. Rydym hefyd wedi ychwanegu gwybodaeth am forgeisiau sydd wedi cael eu had-dalu, a'r gallu i gysylltu â ni yn uniongyrchol o'r gwasanaeth. Yn ôl yr adborth a gawsom gan gwsmeriaid mae'r gwasanaeth yn syml ac yn hawdd i'w ddefnyddio.

Bydd sicrhau bod ein gwasanaethau yn bodloni anghenion cwsmeriaid a chael eu hadborth yn ganolog i'r gwasanaethau digidol newydd y byddwn yn eu cyflwyno yn y dyfodol.

### Data Cofrestrfa Tir EM yn ystadegyn cenedlaethol

Lansiwyd Mynegai Prisiau Tai (HPI) cyntaf y DU ar 14 Mehefin 2016. Wedi'i gyhoeddi gan Gofrestrfa Tir EM ar y cyd â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cofrestrfa'r Alban a Gwasanaethau Tir ac Eiddo Gogledd Iwerddon, mae'r mynegai wedi cymryd lle'r mynegai blaenorol a gyhoeddwyd ar wahân gan y sefydliadau hyn.

Cofrestrfa  
Tir EM



## Mynegai Prisiau Tai y DU

- Lloegr
- Cymru
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon

Mae Mynegai Prisiau Tai sengl y DU yn gweld diwedd i'r dryswch a achoswyd trwy gael mwy nag un mynegai gan y llywodraeth ac erbyn hyn mae'r fethodoleg newydd yn cynnwys mwy o wybodaeth mewn cyfrifiadau megis gwerthiannau arian ar gyfer aneddiadau newydd a math o brynwr (prynwr am y tro cyntaf neu berchennog presennol) er mwyn rhoi sylw i'r farchnad dai gyfan. Bob mis gall defnyddwyr ddefnyddio adroddiadau manwl, data i'w llwytho i lawr a theclyn chwilio rhyngweithiol.

Mae'r mynegai  
prisiau tai newydd,  
cyfun hwn yn rhoi  
darlun mwy cywir  
nag erioed o'r blaen.

David Brown  
Prif Weithredwr y gwerthwyr tai  
Marsh & Parsons



# Gweithio'n glyfar yng Nghofrestrfa Tir EM



## John Peaden Cyfarwyddwr Gweithrediadau

Fel y Cyfarwyddwr Gweithrediadau rwy'n cefnogi mwy na 3,500 o weithwyr achos arbenigol sy'n prosesu ceisiadau ac yn ateb ymholiadau ar faterion cofrestru tir bob dydd.

Ar ddiwrnod arferol bydd Cofrestrfa Tir EM yn prosesu tua 120,000 o wahanol drafodion yn cwmpasu amrywiaeth o wasanaethau ac ymholiadau. Mae gwasanaethu'r rhain yn hollbwysig i'n busnes ond yn bwysicach na hynny maent yn hanfodol i weithrediad da y marchnadoedd eiddo a gwasanaethau ariannol.

Felly, i ni, mae cael hyd i ffyrdd o fod yn fwy effeithlon yn gwella ein cynhyrchiant a hefyd yn gwneud y broses drawsgludo gyfan yng Nghymru a Lloegr yn gyflymach, yn rhatach ac yn symlach, sef nod gwreiddiol creu Cofrestrfa Tir EM flynyddoedd maith yn ôl.

Er y bydd ein trawsnewid digidol yn allweddol i hyn rydym hefyd am sicrhau ein bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar allbwn ein pobl arbenigol a gwella'r profiad i'n cwsmeriaid.

### Soniwch am rai o'r uchafbwyntiau a heriau'r flwyddyn hon...

Yr her fwyaf oedd delio â'r cynnydd parhaus ym maint y gwaith. Derbyniwyd dros filiwn yn fwy o geisiadau na'r flwyddyn flaenorol. Yn aml iawn y ceisiadau symlaf yw'r rhai sy'n fwy amser-critigol ac yn y gorffennol mae hyn wedi golygu gwyro gweithwyr achos arbenigol o geisiadau cymhleth i ymdrin â cheisiadau symlach.

Yr uchafbwyntiau imi oedd sut roeddem wedi ymateb i'r heriau hyn.

Roedd ein gweithwyr newydd yn cynnwys rôl newydd a grëwyd yn benodol i ddelio â'r ceisiadau mwy syml, gan roi cyfle i'n gweithwyr achos profiadol ganolbwyntio ar y gwaith mwy cymhleth megis cofrestru datblygiadau mawr newydd neu brosiectau seilwaith.

Mae sawl rownd o recriwtio wedi golygu bod 500 o bobl newydd o amrywiaeth eang o gefndiroedd yn gweithio yn y tîm gweithrediadau bellach. I'r rhai a ymunodd â ni ar gontractau dros dro, cafodd eu contractau eu hestyn cyn gynted ag y daeth yn amlwg eu bod yn cyfrannu at gyflymder ac effeithlonrwydd ein prosesau gwaith achos.

Disgrifwyd ein prentisiaid arloesol yn weithwyr "proffesiynol, arloesol, brwdfrydig a chadarnhaol" yn eu seremoni graddio i ddathlu cwblhau ein rhaglen brentisiaeth dwy flynedd gyntaf yn ein swyddfeydd yng Nghaerlŷr, Nottingham a Telford. Erbyn hyn mae gennym 261 o brentisiaid yn y tîm gweithrediadau ac mae mwy i ddod gyda rhaglen flynyddol dreigl o recriwtio prentisiaid ar draws pob un o'n lleoliadau. Mae nifer o'n carfannau cyntaf o brentisiaid wedi cael swyddi parhaol ar ddiwedd eu prentisiaeth a chaiff y genhedlaeth nesaf o arbenigwyr cofrestru tir eu dewis a'u datblygu o'r garfan honno.

Cymerwyd cam pwysig ymlaen o ran y ffordd rydym yn mapio ein gwaith achos trwy ddatblygu a chyflwyno meddalwedd 'daear-gyfeirio'.

Mae'r meddalwedd yn cynnig modd i gynlluniau gweithred wedi'u sganio neu ar bapur gael eu troshaenu'n ddeallusol ar ein system mapio digidol er mwyn i derfynau teitl gael eu dargopio yn electronig. Mae hyn wedi dileu'r angen i argraffu cynlluniau a phlotio derfynau trwy ddefnyddio dulliau mapio traddodiadol, gan leihau'n sylweddol yr amser a gymerir i gwblhau'r gwaith o fapio neu ailfapio teitl cofrestredig.

Erbyn hyn gall rhai darnau o waith a allai fod wedi cymryd oriau lawer o blotio llafurus â llaw cyn hynny gael eu gwneud mewn llai na 30 munud, dyna yw pŵer technoleg newydd. Bu ugain o weithwyr achos yn rhan o'r cam treialu; profwyd y meddalwedd yn drwyadl a nodwyd bod nodweddion a gweithrediad wedi gwella. Cytunodd pob un o'n gweithwyr achos bod y system newydd yn fwy effeithlon a'i bod yn llawer haws i'w defnyddio na'r broses flaenorol, ac rydym yn ei defnyddio i gynnig budd i'n cwsmeriaid.

Cyflwynodd ein pobl fwy na 1,300 o syniadau ar gyfer gwelliannau technoleg a system trwy gynllun awgrymiadau staff newydd, ac mae 10% ohonynt naill ai wedi cael eu rhoi ar waith, neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith.

Mae gwasanaethu trafodion yn hollbwysig i weithrediad da y farchnad eiddo.



## Sut ydych chi'n meddwl y bydd gweithrediadau'n newid yn y dyfodol?

I mi un o'r elfennau canolog wrth ystyried sut y bydd gweithrediadau'n newid yw trwy drawsnewid digidol, a dyna pam ei bod yn elfen allweddol o'n cyfeiriad yn y dyfodol.

Bydd rhyngwynebau a sianeli hollol newydd ar gyfer ein gwasanaethau cwsmeriaid ar-lein a'n systemau gwaith achos yn cymryd lle ceisiadau papur, gan ddal a dilysu data yn uniongyrchol. Bydd ein gweithwyr achos proffesiynol yn dod yn arbenigwyr ym maes cofrestru tir digidol wrth i'r offer a'r systemau a ddefnyddiant gael eu trawsnewid gan dechnoleg. Bydd y Gofrestr Tir yn ffynhonnell dryloew o ddata hygyrch gyda defnyddiau na chawsant eu dyfeisio eto o bosib gan gwmnïau technoleg eiddo.

Caiff ein gwasanaethau digidol eu cynllunio a'u datblygu trwy gynnwys defnyddwyr i sicrhau y bydd y defnydd o'r gwasanaethau newydd hyn yn seiliedig ar brofiad gwych cwsmeriaid. Darparwyd ein gwasanaethau digidol arobryn MapSearch a Property Alert gyda chwsmeriaid yn ganolog iddynt.



Meddalwedd 'daear-gyfeirio'

Ochr yn ochr â hynny rwy'n gweld timau gwelliant parhaus a ffyrdd modern o weithio yn cael eu corffori ar draws y tîm gweithrediadau yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi gweld rhai llwyddiannau trwy arferion gwelliant parhaus ond credaf y gallwn fod yn fwy effeithiol trwy fabwysiadu mwy o ddulliau gweithio'n glyfar.

## Beth fyddwch chi'n canolbwyntio arno yn 2017?

Ymrwymiad allweddol yn y Papur Gwyn Tai yw inni gyflawni "cofrestru cynhwysfawr" erbyn 2030. Mae tua 16% o ehangdir Cymru a Lloegr yn parhau heb ei gofrestru, ac rydym wedi blaenoriaethu rhaglen waith a fydd yn ceisio lleihau hyn gymaint â phosibl, ac uno prosesau trawsgludo. Mae creu teil cofrestredig newydd yn llawer mwy cymhleth a thrafferthus na newid un sy'n bodoli – felly bydd rhaid inni sicrhau bod timau gweithwyr achos profiadol a thechnegol-fedrus gennym sy'n barod i gofrestru teitlau newydd wrth i geisiadau gyrraedd. I ddechrau byddwn yn canolbwyntio ar gefnogi perchnogion tir yn y sector cyhoeddus. Mae'n bosib y bydd peth o'r tir hwnnw yn cynnwys safleoedd adeiladu hollbwysig ar gyfer cartref newydd.

Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi prosiectau seilwaith a datblygu mawr trwy greu timau gwasanaeth pwrpasol ac ymrwymedig i weithio ar draws grwpiau amrywiol o fudd-ddeiliaid i helpu i gofrestru rhai o'r prosiectau eiddo mwyaf a mwyaf cymhleth yn y DU.

Bydd cam nesaf y trawsnewid yn dechrau trwy ganolbwyntio ar wasanaethau newydd sy'n digideiddio'r niferoedd mwyaf o'n gwaith er mwyn inni allu gwrthsefyll newidiadau yn y farchnad yn well ond hefyd datblygu ein gwasanaethau ar-lein presennol i wella'r profiad i'n cwsmeriaid a chreu effeithlonrwydd parhaus.

Rydym yn profi'r cysyniad o gyfeirio gwaith cymhleth, masnachol a seilwaith i dimau penodedig. Mae timau eraill yn ymchwilio i'r ffordd orau o wella'r prosesau sy'n gysylltiedig â cheisiadau ar gyfer adeiladau newydd a gyflwynir gan ddatblygwyr. Rydym eisoes yn cydnabod manteision cydweithredu'n gynnar â datblygwyr, oherwydd gall peidio â datrys unrhyw broblemau gyda'r safle yn gyflym achosi oedi pellach yn nes ymlaen. Mae lefel uchel o wybodaeth dechnegol gan aelodau o'r timau profi sy'n cydweddu â natur gymhleth y gwaith.

Rydym hefyd yn ymestyn y treialon hyn trwy wneud dau o'n lleoliadau yn 'Swyddfeydd Model'. Byddwn yn defnyddio'r swyddfeydd hyn i brofi, gwerthuso a chyflwyno arferion gorau fel 'gweithdrefnau gweithredu safonol' er mwyn i Gofrestrfa Tir EM gyfan, ac yn y pen draw ein cwsmeriaid, elwa ar effeithlonrwydd, ymarfer a gwelliannau polisi. Bydd y Swyddfeydd Model yn 'ystwyth' iawn eu hagwedd; os yw syniadau newydd yn methu, byddant yn symud ymlaen yn gyflym ac yn rhoi cynnig ar rywbeth arall. Mae llawer o syniadau gwych gan ein pobl a thrwy eu grymuso i adnabod, profi a siapio sut rydym yn prosesu ein gwaith byddwn nid yn unig yn gwella ein cynhyrchiant, ond hefyd yn helpu i hyrwyddo diwylliant o darfu cadarnhaol ac arloesi.

Mae trawsnewid digidol yn elfen allweddol o'n cyfeiriad yn y dyfodol.





# Ein gwerthoedd ar waith

## Rydym yn rhoi sicrwydd

Rydym yn gwarantu'n gwasanaethau ac yn rhoi hyder i'r farchnad eiddo

"Mae ymosodiadau seiber yn rhan o'n bywydau bob dydd bellach ac mae'r achosion proffil uchel diweddar o sefydliadau'n cael eu hymosod arnynt trwy systemau cyfrifiaduron sydd wedi dyddio, gan barlysu gwasanaethau allweddol fel y GIG, yn dangos pam bod yn rhaid inni weithio'n barhaus i ddiogelu ein systemau ac aros un cam o flaen yr hacwyr a seiberdroseddwyr sy'n fwyfwy soffistigedig.

"Mae platfformau technoleg Cofrestrfa Tir EM yn destun 860 o newidiadau bob mis felly nid yw cadw ein systemau yn ddiogel ochr yn ochr â'r lefel honno o newid yn fater syml. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwella ein prosesau diogelwch allweddol ymhellach ac yn ystod penwythnos yr ymosodiad graddfa fawr roedd ein timau diogelwch ein hunain yn gallu cadarnhau'n gyflym bod ein systemau i gyd wedi cael eu gwrth-heintio i'w hatal rhag cael eu heffeithio gan y rhaglen meddalwedd wystlo fyd-eang o'r enw WannaCry.

"Yn ogystal roeddem hefyd yn gallu cadarnhau'n gyflym bod copïau wrth gefn wedi cael eu gwneud o'r holl ddata ac wedi'u profi i gadarnhau bod modd adfer y data ac felly, hyd yn oed yn yr achos gwaethaf, ni fyddai'r data yn cael ei gollu."

Andrew Radmore  
Pennaeth Sicrwydd Systemau Gwybodaeth



## Mae gennym unplygrwydd

Rydym yn gweld gwerth mewn gonestrwydd, ymddiriedaeth a gwneud y peth iawn yn y ffordd iawn

Rydym wedi ymrwmo i frwydro yn erbyn twyll. Mae ein gwasanaeth ar-lein arobryn Property Alert yn cynnig ffordd hawdd, rhad ac am ddim i berchnogion fonitro gweithgarwch ar eu heiddo. Y llynedd cynyddwyd nifer y tanysgrifwyr o tua 37,000 i bron 70,000 gyda chynnydd sydyn ym mis Ionawr yn dilyn achos twyll proffil uchel yn cynnwys mam a merch a geisiodd gael tŷ gwerth £3 miliwn yn Kensington trwy ddulliau anghyfreithlon. Cafodd eu hymdrechion i drosglwyddo'r eiddo eu hatal diolch i'n mesurau gwrth-dwyll.

Rydym wedi annog y defnydd o'n gwasanaeth Property Alert trwy ei hyrwyddo i'n cwsmeriaid busnes yn ogystal ag yn uniongyrchol i ddinasyddion. Rydym wedi gweithio gyda'r cyfryngau hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r problemau o dwyll eiddo a'n cyngor i leihau'r risg o gael eich twyllo. Mae hyn wedi arwain at sylw rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys erthygl ar dudalen flaen y *Financial Times* ac eitem ar y rhaglen *The One Show* ar y BBC.



## Rydym yn ysgogi arloesedd

Rydym yn flaengar, yn croesawu newid ac yn gwella ein prosesau'n barhaus

"Roedd yn amlwg bod gan y rhai fu'n treialu ein morgais digidol fywydau brysur iawn ac roedd yn well gan y rhan fwyaf o bobl gyflymder a chyfleuster gwneud pethau ar-lein, yn hytrach nag ar bapur.

"Disgrifodd pobl yr heriau amrywiol a gawsant yn eu proses morgais papur. Dywedodd un dyn wrthyf sut y cafodd ei ddogfennau morgais eu colli ddwywaith yn y post, a dywedodd rhywun arall wrthyf am y problemau a gafodd yn cael hyd i dyst ar gyfer ei lofnod. Mae'r ddau beth hyn yn bethau na fyddai wedi digwydd gyda'n gwasanaeth digidol newydd."

Shaun Ewings  
Rheolwr Cynnyrch, Morgais Digidol



## Rydym yn broffesiynol

Rydym yn gwerthfawrogi ac yn meithrin ein gwybodaeth a'n harbenigedd proffesiynol

Bydd ein hymdrech i sicrhau cofrestru tir cynhwysfawr erbyn 2030 yn golygu defnyddio ein holl brofiad yn y dasg gymhleth o gofrestru tir ac eiddo am y tro cyntaf. Does dim byd gwell yn arddangos dycnwch a dyfeisgarwch ein harbenigwyr cofrestriad cyntaf na'r prosiect dyfrffyrdd mewndirol, a gafodd ei gwblhau ar ôl 11 mlynedd o waith achos manwl.

Roedd ein tîm yn Swyddfa Penbedw wedi cofrestru bron 2,000 milltir o gamlesi, llwybrau tynnu, glanfeydd, coredau, lociau a thai loc, dociau, argloddiau a chronfeydd dŵr, melinau ac ierdydd cychod, twnneli tanddaearol a bwydwy'r ar gyfer Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain i gychwyn ac yna ei olynnydd yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd. Seiliwyd pob cais ar weithredoedd, dogfennau a datganiadau statudol yn cynrychioli crynodeb o hanes ar ffurf lluniau o 100 mlynedd a mwy o drafodion ar gyfer y darn arbennig hwnnw o'r gamlas. Mae hyn yn dangos y galluogrwydd daear-odod unigryw sydd gennym.







# Y cwmni cyfreithiol o fewn Cofrestrfa Tir EM



## Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol

Mae'r gyfraith cofrestru tir yn gymhleth a thechnegol iawn sydd bob amser yn codi materion cyfreithiol anodd a rhai newydd weithiau. Mewn sawl ffordd mae ein swyddogaeth gyfreithiol yn debyg i gwmni cyfreithiol arbenigol y tu mewn i Gofrestrfa Tir EM sy'n golygu y gall gweithwyr achos fanteisio ar stôr unigryw o arbenigedd a chynghor ar gofrestru tir a'r gyfraith tir.

Mae tîm cyfreithiol mewnol cymharol fawr gennym sy'n cyflogi mwy na 100 o gyfreithwyr ar draws ein swyddfeydd, pob un yn arbenigwr yn y gyfraith eiddo a chofrestru, sy'n ategu sgiliau ein gweithwyr achos profiadol ac yn rhoi cynghor cyfreithiol pryd bynnag y mae ei angen. Dechreuodd pum cyfreithiwr newydd gyda Chofrestrfa Tir EM y flwyddyn ddiwethaf ac ymunodd naw arall â ni yn Ebrill 2017.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae ein cyfreithwyr wedi delio â bron 100,000 o ymholiadau cyfreithiol gan ein gweithwyr achos, cynnydd o 13% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae "gwarant y wladwriaeth" a ddarperir gan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn sicrhau y bydd unrhyw un sy'n dioddef colled o ganlyniad i gamgymeriad yn y gofrestr yn cael ei ddigolledu gan Gofrestrfa Tir EM.

Caiff pob hawliad indemniad ei ystyried yn ofalus. Y llynedd gwrthododd ein cyfreithwyr mwy na 400 o hawliadau oherwydd y penderfynwyd eu

bod yn annilys neu'n ddi-sail. Mewn achosion eraill llwyddodd ein cyfreithwyr i gael gostyngiadau mawr yn y symiau a gafodd eu hawlio'n wreiddiol. Arbedwyd cyfanswm o fwy na £11.3m.

Mae nifer o'n hawliadau indemniad mwyaf yn deillio o geisiadau twyllodrus ac mae twyll yn parhau i fod yn un o'n risgiau pennaf.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn unig ataliwyd 50 o geisiadau twyllodrus rhag cael eu cofrestru gan ein mesurau gwrth-dwyll. Fodd bynnag, allwn ni byth bod yn hunanfodlon oherwydd mae'r risg o dwyll yn esblygu'n gyson ac felly hefyd mae ein Strategaeth Gwrth-dwyll barhaus. Wrth gwrs rydym yn parhau i ddatblygu galluoedd ein systemau a'n harbenigwyr sy'n gallu canfod a dileu twyll cyn iddi ddigwydd. Geiriad un o'n gwerthoedd craidd sy'n ei ddisgrifio orau: Rydym yn rhoi sicrwydd!

Ochr yn ochr â darparu busnes craidd Cofrestrfa Tir EM a sicrhau cywirdeb y gofrestr, mae ein cyfreithwyr hefyd wedi bod yn rhan o'r gwaith o esblygu a diwygio'r gyfraith cofrestru tir ar gyfer y dyfodol.

Ym mis Chwefror ymgynghorwyd ar y newidiadau arfaethedig i Reolau Cofrestru Tir 2003 er mwyn inni allu cyflwyno trafodion digidol sy'n cael eu llofnodi'n electronig, cam cyfreithiol hanfodol i sicrhau bod ein cynlluniau trawsnewid digidol yn troi'n realiti.

### FINANCIAL TIMES

HOME WORLD UK COMPANIES MARKETS OPINION WORK & CAREERS LIFE & ARTS

#### UK Property

### Help! My house has been hijacked

Fake tenants adopt a property owner's identity and sell the property

Alasdair Lewis, director of legal services at the Land Registry, says: "Property is a high-value asset and therefore an attractive target for fraudsters. Your property, even your family home, can be sold and mortgaged to raise money without you even knowing. Fixing the mess can be distressing, time-consuming and costly."

Mae twyll yn parhau  
i fod yn un o'n  
risgiau pennaf.



An aerial photograph showing a mix of residential and commercial buildings, a winding river, and lush green trees. The scene is captured from a high angle, looking down on the landscape. The text is overlaid on the top left portion of the image.


# Ein harbenigwyr – pobl Cofrestrfa Tir EM





## Caroline Anderson Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu

■ Sgôr mynegai ymgysylltu  
■ Arweinyddiaeth a rheoli newid



Fel y dywed ein Cadeirydd yn ei ddatganiad, ein pobl fu un o asedau mwyaf gwerthfawr Cofrestrfa Tir EM erioed. Mae gwaith cofrestru tir yn amrywiol ac yn gymhleth ac yn gofyn am brofiad, hyfforddiant, gwybodaeth dechnegol a barn. Mae ei gyflenwi wedi'i ategu gan arbenigedd proffesiynol lefel uchel ar draws holl rannau'r sefydliad i sicrhau ein bod yn bodloni ein dyletswyddau statudol ac yn helpu ein cwsmeriaid mewn modd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl.

Mae gan Gofrestrfa Tir EM weithlu hirsefydlog a theyrngrar ac mae angerdd a balchder gweithwyr yn eu gwaith yn allweddol i'n gallu i gyflenwi, rhywbeth rydym yn ei werthfawrogi ac yn dibynnu arno ac a adlewyrchir yn ein gwerthoedd. Mae gennym lawer i'w ymfalchïo ynddo, gyda hanes a threftadaeth a adlewyrchir yn ein pobl sydd nid yn unig yn gwerthfawrogi ein cwsmeriaid ond sydd wedi ymrwymo i roi gwasanaeth rhagorol, fel y tystir gan ein sgoriau bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae diogelu'r ymrwymiad hwnnw yn allweddol i lwyddiant ein sefydliad.

Fodd bynnag bydd gwireddu ein rhaglen drawsnewid yn gofyn am arweinyddiaeth ysbrydoledig a hefyd gweithlu sy'n cael ei reoli'n dda ac sydd wedi ymgysylltu. Bydd hefyd yn gofyn am fuddsoddiad i adeiladu capasiti a galluogrwydd a moderneiddio'r sefydliad i sicrhau bod y strwythurau a'r galluoedd priodol gennym i gyflenwi, wedi'i ategu gan bolisiau ac arferion gwaith modern a diwylliant sy'n hyrwyddo rhagoriaeth, yn ysgogi perfformiad uchel ac yn gwobrwyo cyflawniad. Mae'r broses hon wedi dechrau gydag adolygiad o bortffolios cyfarwyddiaethau, recriwtio ar bob lefel ac ar draws pob swyddogaeth a buddsoddi mewn sgiliau a hyfforddi. Erbyn hyn rydym mewn sefyllfa dda i symud ymlaen â'r rhaglen waith gyffrous hon.

### Grymuso ein pobl

Yn dilyn y newidiadau mawr a welwyd dros y 10 mlynedd diwethaf, mae ymgysylltu â chydweithwyr wedi bod yn her i Gofrestrfa Tir EM. Cafwyd buddsoddiad sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf mewn cyfathrebu, ymgysylltu a rhoi llais i'r gweithiwr. Erbyn hyn mae ymgysylltu â chydweithwyr yn gwella'n raddol gyson ac ar gyfradd gyflymach nag unrhyw adran arall o'r llywodraeth.

Mae rhaglen o ymweliadau misol gan y Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwyr yn ogystal ag ymweliadau anweithredol yn cael eu hategu gan gyfathrebu digidol rhyngweithiol rheolaidd ac agored gyda blogiau wythnosol a bwletinâu sy'n rhoi cyfle i gydweithwyr gynnig sylwadau a dadlau materion yn uniongyrchol â'r Prif Weithredwr a'i gyd aelodau ar y bwrdd, gan greu fforwm ar gyfer deialog digidol gyda lefelau darllenwyr ymgysylltu sy'n llawer uwch na meincnodau'r diwydiant. Mae ein mewnrwyd newydd, fel y dangosir isod, a gafodd ei lansio ar ddiwedd y flwyddyn yn rhoi platfform inni weithredu ymhellach ar yr agwedd hon.




Mae hyrwyddwyr ymgysylltu ym mhob swyddfa yn hybu'r cyfleoedd hyn ac yn cadw uwch aelodau staff mewn cysylltiad â barn cydweithwyr. Mae'r grŵp wedi datblygu'r cynllun gweithredu ymgysylltu corfforaethol a'i gyflwyno i gael sêl bendith y Bwrdd Gweithredol, gan sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar y pethau sy'n wirioneddol o bwys. Mae hyn wedi cyfrannu at y cynnydd yn ein sgôr ymgysylltu a gododd i 59% yn ein harolwg mewnllyd ym mis Chwefror, yr uchaf yn hanes y sefydliad.

Cynyddodd gymeradwyaeth yn y categori arweinyddiaeth a rheoli newid i 38% o sefyllfa gychwynnol o 19% yn 2014 a fyddai wedi rhagori ar ein targed am y flwyddyn ac yn ganran uchaf erioed arall i'r sefydliad. Fodd bynnag, mae lle i wella eto ar ein sgoriau fel y dengys canlyniadau'r arolwg ar dudalen 32.

Felly bydd ein Strategaeth Pobl yn cael ei hailwampio i sicrhau ei bod yn cyfateb â'n huchelgais newydd ac yn amlinellu ein cynlluniau i foderneiddio ein sefydliad gyda rhaglen waith a fydd yn adeiladu capasiti, yn datblygu galluogrwydd, yn moderneiddio ac yn ail-lunio ein sefydliad ac yn grymuso ein pobl.



Employee engagement is shaped by experience at work, as measured by nine themes in the survey shown below



Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil – Sgoriau ymgysylltu

Rhodddn bwyslais cryf ar ddatblygu sgiliau ein pobl. Yn ystod 2016/17 darparwyd 5.9 o ddiwrnodau hyfforddi mewnol ar gyfartaledd i bob gweithiwr, gan gynnwys hyfforddiant technegol/seiliedig ar waith achos a hyfforddiant Systemau Gwybodaeth yn ogystal â sgiliau meddal a datblygiad personol gan gynnwys dros 2,600 o ddiwrnodau hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth. Roedd buddsoddi mewn hyfforddiant rheolwyr llinell newydd eu penodi yn cyfrif am 100 o ddiwrnodau hyfforddi yn nhri mis olaf y flwyddyn. Yn ogystal gwariwyd £564k ar hyfforddiant allanol yn uwchsgilio ar draws amrywiaeth o feysydd gwaith a disgyblaethau.

Ein huchelgais yw creu'r gweithlu mwyaf medrus yn ddigidol yn unrhyw gofrestrfa tir yn y byd a bod yn sefydliad disglair ar gyfer sgiliau digidol yn y DU.

## Adeiladu capasiti a galluogrwydd

Rydym eisoes wedi dechrau adeiladu capasiti trwy recriwtio a sefydlu strwythur uwch arweinyddiaeth newydd. Recriwtiwyd 587 o gydweithwyr newydd yn 2016/17, cynnydd net o 276 o bobl gydag ymgeiswyr yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd.

Mae ein hymgyrch recriwtio wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- rhoi sylw i anghenion rheng-flaen i fodloni a chynnal safonau darparu gwasanaeth a chynaliadwyedd y gweithlu yn y dyfodol;
- gwella meysydd gallu penodol, yn arbennig ym maes masnachol, trawsnewid digidol a sgiliau datblygu ystwyth; a
- darparu rhaglenni gwaith allweddol gan gynnwys gwasanaethau digidol newydd a'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol.

## Ail-lunio a moderneiddio'r sefydliad

Rydym wedi parhau i ehangu ein rhaglen prentisiaethau yn ein Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau a darparu prentisiaethau newydd mewn Systemau Gwybodaeth, Adnoddau Dynol a Chyllid. Er 2014 rydym wedi recriwtio 388 o brentisiaid o amrywiaeth eang o gefndiroedd.





"Yn 2016 dathlodd Cofrestrfa Tir EM garreg filltir bwysig wrth i'n cyfreithiwr cyntaf dan hyfforddiant, Carol Gurajena, gofrestru fel cyfreithiwr yng Nghymdeithas y Gyfraith.

"Dechreuodd y broses hon yn 2013 pan gafodd Cofrestrfa Tir EM ei hachredu gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr fel darparwr cydnabyddedig ar gyfer cyfreithwyr dan hyfforddiant. Carol, oedd yn gweithio yn y Grŵp Cofrestru a Gwasanaethau Cyfreithiol, un o'n timau cyfreithiol yn y brif swyddfa, oedd ein cyfreithiwr cyntaf dan hyfforddiant. Dilynodd hyn ein her lwyddiannus, ar sail cydraddoldeb, i gael cydnabyddiaeth ar gyfer ei chymwysterau y nodwyd eu bod yn rhy hen i'w cydnabod. Mae'r her hon yn agor y drws i eraill mewn sefyllfa debyg i Carol ar draws Cymru a Lloegr,

yn enwedig y rhai sydd wedi treulio amser o'r gwaith yn magu eu plant.

"Rhoddodd yr hyfforddiant gyfle i Carol weithio o fewn grwpiau eraill Cofrestrfa Tir EM, gan gynnwys y Grŵp Indemniad ac Ymglyfreitha a Gwasanaethau Cyfreithiol Corfforaethol a Sicrwydd yn ogystal â secondiad allanol i Adran Gyfreithiol y Llywodraeth. Yn ôl Carol mae'r lleoliadau wedi cynnig modd iddi fabwysiadu agwedd fwy cyfannol at ei gwaith gyda dealltwriaeth dda o'r heriau cyffredin sy'n wynebu adrannau'r llywodraeth.

"Mae'r lefel hon o hyfforddiant yn cynrychioli buddsoddiad mawr mewn un person ond rydym eisoes yn gweld y manteision. Mae Carol wedi ymuno â'n tîm o gyfreithwyr cymwysedig ac yn rhoi'r arbenigedd a gafodd yn yr hyfforddiant ar waith. Bwriadwn ymestyn y peilot llwyddiannus hwn trwy gynnig cyfle i ddau gyfreithiwr dan hyfforddiant arall yn 2017/18."

Mike Westcott Rudd, Cyngorydd Cyfreithiol y Bwrdd




Cafodd bron 70% o'r garfan gyntaf a gwblhaodd eu prentisiaeth y flwyddyn ddiwethaf gynnig rolau parhaol yng Nghofrestrfa Tir EM. Darparwyd lleoliadau i raddedigion o raglen garlam y Gwasanaeth Sifil hefyd mewn Cyllid a Gwasanaethau Masnachol a Diogelwch Seiber ac rydym newydd lansio prentisiaeth beilot arloesol ar gyfer swyddogion paragyfreithiol a gafodd ei datblygu ar y cyd â Sefydliad Siartredig y Swyddogion Gweithredol Cyfreithiol (CILEx) sy'n sefydlu llwybr gyrfa o'r swyddogaeth Gweithrediadau graidd i'n proffesiwn cyfreithiol.

### Lle gwell i weithio

Rydym yn awyddus i ddarparu a hyrwyddo diwylliant cynhwysol ac roeddem yn falch iawn o gael ein rhoi ymysg 100 Cyflogwr Gorau Stonewall am yr ail flwyddyn yn olynol. Cafodd ein Rhwydwaith LGBT & Allies ei gydnabod hefyd fel Grŵp Rhwydwaith Gweithwyr y Flwyddyn yng Ngwobrau Cydraddoldeb a Chynhwysiant Employers Network 2016.

Rydym wedi ymrwmo i gynnal a hyrwyddo iechyd a llesiant ein pobl. Trwy noddi LR Leisure a gydag amrywiaeth o bwyllgorau iechyd a llesiant, hamdden ac elusennol ym mhob swyddfa, mae cydweithwyr yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau sy'n hyrwyddo nid yn unig iechyd a llesiant ond hefyd ymgysylltiad cydweithwyr, rhyngweithio cymdeithasol a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yn ogystal â bod yn hwyl!

Eleni cytunodd y Bwrdd Gweithredol ar fframwaith presenoldeb, iechyd a llesiant a chynllun cyflenwi cysylltiedig. Mae'r fframwaith yn darparu agwedd integredig at iechyd a llesiant gyda ffocws ar ddiwylliant, atal, ymyrryd, a dychwelyd i'r gwaith ar ôl bod yn absennol, gan gydnabod meysydd â blaenoriaeth sef llesiant meddyliol, materion cyhyrsgerbydol a llesiant cyffredinol.





# Pam bod cynaliadwyedd yn bwysig

4kodiak/E+/Getty Images

Gyda mwy na 150 o flynyddoedd o hanes a phwrpas craidd sydd wedi'i gysylltu'n annatod â'r tir yng Nghymru a Lloegr mae'r amgylchedd a'n cymunedau yn bwysig inni.

Rydym wedi ymrwmo i berfformio fel busnes cyfrifol, gan gyfrannu at weithgareddau cymunedol ehangach a chyrraedd ein targedau amgylcheddol.

## Rhagori ar ein targedau amgylcheddol

Rydym yn rhagori ar bob un o dargedau drafft Ymrwymiadu Glasu'r Llywodraeth ar gyfer 2020 ar hyn o bryd, ac yn disgwyl eu cyrraedd:

- Defnydd o bapur – lleihad o 56%\*
- Carbon – lleihad o 49%\*
- Gwastraff a gynhyrchir – lleihad o 47%\*
- Defnydd o ddŵr – lleihad o 39%\*

\*yn erbyn gwaelodlin 2009/10

## save@work

Roedd deuddeg o'n pedair swyddfa ar ddeg wedi cymryd rhan yn y fenter Ewropeidd save@work gyda SevernWye Energy Agency. Roedd newid ymddygiadol wrth wraidd y rhaglen, a sefydlodd pob un o'n swyddfeydd, hyd yn oed y ddwy swyddfa oedd heb gymryd rhan yn y gystadleuaeth ei hun, dîm o bobl i ddatblygu cynllun gweithredu a mynd ati i'w weithredu.

Y canlyniad cyffredinol oedd lleihad yn y defnydd o nwy a thrydan o 5% a 2% yr un ar gyfer y 12 swyddfa yn y gystadleuaeth. Rhagorodd swyddfeydd Telford, Weymouth a Phenbedw, gan gyflawni lleihad yn y defnydd o nwy a thrydan o 18.3%, 15.3% a 7.1% yr un.

Gydag agwedd arloesol cyflwynwyd clwb Ilaeth yn Swyddfa Fylde. Mae prynu Ilaeth mewn cartonau o fferm lleol wedi arwain at ddileu poteli Ilaeth plastig bron yn llwyr o'r swyddfa.

**“Dwi wedi gweithio ar nifer o fentrau arbed ynni yn ystod fy saith mlynedd yn Severn Wye ond dwi byth wedi cael prosiect gyda grŵp mor ymroddedig, trefnus a brwdfrydig o bobl na'r un gyda Chofrestrfa Tir EM.”**

Severn Wye Agency ar yr ymgyrch [save@work](mailto:save@work)

Land Registry

Be like Stephanie: switch off your PC and monitor when you don't use it!

Join her and save energy at work!

and prefer the lead of the team, please.

SAVE @WORK

Stephanie Hill  
Web content editor,  
Trafalgar House

[www.saveatwork.org.uk](http://www.saveatwork.org.uk)

<http://workspaces/TrafalgarSustainability>



## Rhyddhau tir i'w ailddatblygu

Rydym wedi bod yn cael gwared â rhannau o'n hystad i wneud lle ar gyfer tai newydd a hyd yn oed ysgolion i gefnogi'r gymuned leol yn well.

- Gwerthwyd rhan ogleddol ein hen safle yn Chalfont Drive, Nottingham i'r datblygwr Bellway Homes ac mae nifer o dai newydd eisoes wedi cael eu hadeiladu. Disgwylir i ran ddeheuol y safle gael ei throsglwyddo i'r Homes & Communities Agency yn fuan, hefyd ar gyfer datblygu tai newydd.
- Disgwylir i hen safle ein meithrinfa gofal plant yng Nghaerlŷr gael ei drosglwyddo hefyd i'r Homes & Communities Agency.
- Mae ein heiddo Old Market House ym Mhenbedw wedi cael ei farchnata i'w werthu ac mae cynnig wedi cael ei dderbyn a disgwylir iddo gael ei werthu at ddefnydd arall.
- Ail-leolwyd ein Swyddfa Coventry gan gynnig cyfle i ysgol newydd ddefnyddio'r safle gwag gyda chyfleusterau blaenorol Cofrestrfa Tir EM eisoes yn cynnig budd i'r gymuned leol. Rhoddwyd dodrefn dros ben i'r ysgol ac i elusennau.



## Gwirfoddoli ac elusennau yn y gymuned

Dros y flwyddyn ddiwethaf treuliodd 293 o gydweithwyr cyfanswm o 775 o ddiwrnodau yn gwirfoddoli gan gynnwys cynllun i helpu pobl ddigartref, hyfforddiant chwaraeon a mentrau amgylcheddol.

Enillodd Toni Cray o Swyddfa Peterborough ein Gwobr Lucy Mason ar gyfer gwirfoddoli. Trwy helpu dioddefwyr troseddau mae Toni wedi troi ei phrofiad ei hun o drosedd ddirifol a gafodd effaith ddirifol ar ei theulu yn rhywbeth cadarnhaol sydd o fudd i eraill. Mae hi hefyd yn helpu gyda hyfforddi swyddogion cyswllt yr heddlu trwy rannu ei phrofiadau a dangos sut mae rhywun sydd wedi cael cymorth swyddog cyswllt yn ei deimlo. Mae Toni hefyd yn hwyluso cyfarfodydd rhwng dioddefwyr a'r rhai sy'n cyflawni



troseddau er mwyn i ddioddefwyr allu delio â'r effaith y mae'r drosedd wedi ei chael arnynt.

Mae codi arian ar gyfer elusennau yn chwarae rôl allweddol yn ein hymrwymiad fel busnes sydd yn gymdeithasol gyfrifol.

Mae pwyllgorau elusennol swyddfeydd lleol wedi cynnal amrywiaeth o ddiwyddiadau gan gynnwys eillio pennau noddedig, gwerthu cacennau, teithiau beicio a chwisiau sydd gyda'i gilydd wedi codi bron £72,500. Ynghyd ag achosion lleol, cefnogodd ein swyddfeydd hefyd elusennau cenedlaethol, gan godi mwy na £4,400 ar gyfer Diwrnod Canser y Byd a noddi cŵn i'r deillion.

Cynhaliodd Swyddfa Penbedw gasgliad arbennig i helpu rhai plant lleol i aros yn eu cartref teuluol yn dilyn marwolaeth eu dau riant o ganser o fewn pythefnos i'w gilydd.







# Dadansoddiad perfformiad: Adroddiady Cyfarwyddwr Cyllid



Mae ein swyddogaeth Cyllid wedi parhau i wella ansawdd y wybodaeth a'r dadansoddiad a ddarperir i helpu i wneud penderfyniadau effeithiol.

Yn ystod 2016/17 datblygwyd ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig hefyd wedi'i seilio ar offer modelu ariannol newydd i gefnogi cynllunio hirdymor.

Buddsoddwyd yn helaeth yn ein swyddogaeth partneriaid busnes cyllid, ac adolygwyd ein sgiliau rhagfynegi.

Cymeradwyodd asesiad annibynnol o'n galluogrwydd rheolaeth ariannol a gynhaliwyd gan CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accountancy) y cynnydd arwyddocaol a wnaed. Mae ein cynlluniau ar gyfer 2017/18 yn cynnwys newid ein systemau gwaddol Cyllid ac AD a gwella sgiliau ariannol a masnachol cydweithwyr allweddol ar draws y sefydliad.

## Crynodeb ariannol

	2016/17 £m	2015/16 £m	Amrywiad %
Incwm	311.4	295.4	5
Costau gweithredu	241.9	254.2	-5
Gwaged cyn difidend	64.6	34.6	87
Gwariant cyfalaf	10.6	5.6	91
Asedau net	422.2	373.6	13
Arian parod	489.9	443.9	10
Gwaged a gedwir	45.7	21.1	117
Difidend	18.9	13.6	39
Enillion ar gyfalaf a ddefnyddiwyd (%)	15.1	8.6	76





## Refeniw

Mae newidiadau yn y farchnad eiddo, gan gynnwys maint, math a gwerth y gwaith a dderbynnir, wedi cael effaith uniongyrchol gryf ar sefyllfa ariannol Cofrestrfa Tir EM. Mae'r llwyth gwaith sy'n dod i mewn yn cynhyrchu refeniw ac yn llywio'r gost o brosesu ceisiadau.

Y cyfanswm refeniw, sy'n cynnwys refeniw statudol ac anstatudol, oedd £311.4m. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 5% o'i gymharu â 2015/16 a chafodd ei gynhyrchu o gyfuniad o gynnydd yn nifer y ceisiadau gwasanaeth cofrestru gan arwain at fwy o refeniw ac addasiadau incwm gohiriedig.

Cyhoeddwyd nifer o setiau data a oedd ar gael yn rhad ac am ddim neu fel gwasanaeth y telir amdano i ateb y galw am wybodaeth cysylltiedig ag eiddo ac i gefnogi twf economaidd. Bwriadwn ehangu'r cynnig hwn ymhellach gydag agwedd agored at ddata i gefnogi ein huchelgais.

Gohiriwyd £8.2m o incwm yn 2015/16 o ganlyniad i'r ôl-groniad sy'n codi. Nid oedd unrhyw symudiad arwyddocaol yn y lefelau ôl-groniad yn ystod 2016/17 sydd wedi golygu ein bod wedi cydnabod y rhan fwyaf o'n refeniw a dderbyniwyd yn y flwyddyn.

## Trawsnewid

Mae'n rhaid i'r refeniw o wasanaethau statudol fod yn ddigonol i gynnal ein buddsoddiad mewn trawsnewid yn ogystal â chyflawni ein gweithrediadau o ddydd i ddydd a rheoli'r risg sy'n gysylltiedig â niferoedd anrhagweladwy o waith. Felly rydym yn parhau i adolygu ein harbenigedd rhagfynegi a lefelau hyder mewn amryw o ganlyniadau posibl wrth inni gynllunio'r senario ar gyfer y dyfodol.

Bydd y gwaith parhaus o ddigideiddio gwasanaethau yn gwella ymhellach allu'r sefydliad i wrthsefyll

newidiadau yn y farchnad a helpu i leihau'r risg o dwyll.

Mae buddsoddiad parhaus sylweddol wedi'i gynllunio a'i ariannu o fewn ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig gan gynnwys gorchymyn ffi newydd, symlach yn ystod 2018 i gefnogi'r trawsnewid digidol hwn a buddsoddi yn ein hisadeiledd TG sylfaenol.

Mae hyn yn cynnwys disodli ein systemau gwaddol Cyllid ac Adnoddau Dynol gyda system Cynllunio Adnoddau Menter integredig yn ystod 2017/8.

Rydym yn dal cronfeydd wrth gefn arian parod cryf i leddfu'r risg o ddirywiad annisgwyl yn yr economi. Neilltwn refeniw yn y flwyddyn hefyd a darpariaethau risg cost.

## Costau gweithredu

Lleihawyd ein costau gweithredu yn 2016/17 er gwaethaf llwyth gwaith uwch na'r flwyddyn flaenorol, gan ysgogi effeithlonrwydd yn enwedig trwy gaffael effeithiol, cyflwyno technoleg newydd i gefnogi dulliau gweithio mwy clyfar a'r defnydd gwell o'n hadeiladau.

Y costau gweithredu oedd £241.9m (2015/16: £254.2m), lleihad o 5%. O'r lleihad hwn, mae £10.9m yn cyfeirio at symudiad yn y ddarpariaeth indemniad: yn 2016/17, cynyddodd y ddarpariaeth indemniad gan £0.3m yn unig o'i gymharu â chynnydd yn 2015/16 o £11.2m.

Lleiaodd costau amharu a dibrisio hefyd o £11.7m yn 2015/16 i £3.8m yn 2016/17, symudiad o £7.9m. Cynyddodd costau cyflogau gan £11.3m o £168.1m yn 2015/16 i £179.4m yn 2016/17 gan adlewyrchu'r cynnydd yn ein llwyth gwaith.

Wrth inni edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod byddwn yn canolbwyntio o'r newydd ar ddefnyddio technegau gwella parhaus ar draws ein swyddfeydd. Byddwn yn cynhyrchu effeithlonrwydd yn fewnol a hefyd ar



gyfer ein cwsmeriaid trwy wneud prosesau yn fwy awtomataidd a, lle y bo'n briodol, yn fwy safonedig.

### Strwythur cyfalaf

Mae swm y Cyfalaf Difidend Cyhoeddus yn parhau heb ei newid ar £61.5m. Caiff taliad difidend o £18.9m ei roi i Drysorlys EM sy'n arwain at warged a gedwir o £45.7m.

Rydym yn parhau i gynllunio ar gyfer buddsoddiad sylweddol yn ein rhaglen Pridiannau Tir Lleol, wedi'i blaen-ariannu trwy ein cronfeydd wrth gefn cronuss, yr amcangyfrifir y bydd yn creu o leiaf £88m o fudd i'r economi leol erbyn 2026/27 a £183m erbyn 2035/36.

Bydd y rhaglen yn pontio'r gwasanaethau o'r 326 awdurdod lleol yn Lloegr i Gofrestrfa Tir EM. Bydd yn darparu gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd gyda 100% o'r chwiliadau o gofrestr ddigidol a alluogir yn ofodol. Bydd yn lleihau'r amserau cwblhau o wyth niwrnod ar gyfartaledd i fynediad syth ar-lein a bydd yn lleihau'r costau o ddarparu'r gwasanaeth.

### Taliadau'r Gronfa Indemniad

Mae'r warant teitl a gefnogir gan y wladwriaeth yn ffurfio'r sail ar gyfer y system drawsgludo. Mae'n cynnig modd i sefydliadau ariannol ddarparu benthyciadau personol a masnachol sicr yn erbyn eiddo, sy'n cefnogi twf economaidd.


Felly rydym yn rheoli'n ofalus y risg o wallau neu dwyll yn y gofrestr er mwyn rheoli'n effeithiol yr atebolrwydd sy'n gysylltiedig â hawliadau indemniad. Mae adolygiad cynhwysfawr o'r atebolrwydd indemniad presennol a phosibl yn cael ei gynnal bob blwyddyn ac mae darpariaeth ariannol briodol yn cael ei gwneud o fewn y gyllideb a'r cyfrifon.

Yn 2016/17 talwyd £6.9m ar gyfer 995 o hawliadau,

o'i gymharu ag £8m ar gyfer 1,003 o hawliadau yn 2015/16. Yr hawliad mwyaf a dalwyd eleni oedd ar gyfer arwystl ffug, wedi'i setlo am £702,290 (gweler nodyn 16.2 yn y cyfrifon ac Atodiad D).

Lleihaodd gwerth y ddarpariaeth hawliadau heb eu talu'r flwyddyn hon i £8.0m (2015/16 £10.5m). Effaith y lleihad hwn yn y ddarpariaeth oedd lleihad o £2.5m i'n costau gweithredu (2015/16: tâl o £2.1m). Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dadansoddiadau sensitifrwydd, i'w gweld yn nodyn 16.2 yn y cyfrifon.

Mae gwerth y ddarpariaeth Cronfa Indemniad sydd wedi Codi ond Heb ei Hadrodd (IBNR) wedi cynyddu i £77.1m (2015/16: £74.3m). Effaith y cynnydd hwn yn y ddarpariaeth oedd tâl o £2.8m i'n costau gweithredu (2015/16: £9.1m). Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys dadansoddiadau sensitifrwydd sy'n adlewyrchu natur amcangyfrifedig yr atebolrwydd IBNR a'r tuedd iddo gael ei effeithio gan godiad a gostyngiad, i'w gweld yn nodyn 16.2 yn y cyfrifon.



### Rheolaeth y Trysorlys

Mae rheoli asedau hylifol yn cael ei lywodraethu gan Orchymyn Cronfa Fasnachu Cofrestrfa Tir EM 1993, y Gorchymyn Asedau Ychwanegol 1996, y Gorchymyn Estyn a Diwygio 2003 a Dogfen Fframwaith 2012. Mae gweddillion arian anweithredol yn cael eu cadw mewn cyfrifon sy'n dwyn llog yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol gyda'r gweddill yn cael ei gadw gyda banc masnachol y DU.



## Asedau anghyfredol

Gwerth ein hystad yw £58.1m gan gynnwys asedau a ddelerir i'w gwerthu o £6.9m. Rydym wedi parhau i leihau maint ein hystad ac erbyn hyn mae tenantiaid yn meddiannu 24% ohoni.

Mae tri eiddo yn bodoli'r diffiniad o eiddo buddsoddi (ail lawr Swyddfa Weymouth, Old Market House ym Mhenbedw ac estyniad Earle House yn Hull, sy'n cael eu gosod ar delerau masnachol).

Ein cyfanswm gwariant ar eiddo (gan gynnwys rhent, ardrethi busnes a thaliadau gwasanaeth) a rheoli cyfleusterau (gan gynnwys cyfleustodau, post a reprograffeg) oedd £20.2m. Ein gwariant ar wasanaethau a ddarperir trwy gontractau allanol gyda'r darparwr rheoli cyfleusterau Carillion oedd £9m.

Rydym yn cydweithio ag Uned Eiddo'r Llywodraeth yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod ein strategaeth ystad yn cyfateb â strategaeth y llywodraeth, gan gynnwys yr hybiau strategol a'r hybiau bach a rhaglenni One Public Estate.

Gwerthwyd rhan ogleddol ein hen safle yn Chalfont Drive, Nottingham i'r datblygwr Bellway Homes ac mae nifer o dai newydd eisoes wedi cael eu hadeiladu. Disgwylir i ran ddeheuol y safle gael ei throsglwyddo i'r Homes & Communities Agency yn fuan ar gyfer datblygu tai newydd. Disgwylir i hen



Cynlluniau datblygu Nottingham

safle ein meithrinfa gofal plant yng Nghaerlŷr gael ei drosglwyddo hefyd i'r Homes & Communities Agency. Mae ein heiddo dros ben Old Market House ym Mhenbedw wedi cael ei farchnata i'w werthu ac mae cynnig wedi cael ei dderbyn ar ei gyfer a disgwylir iddo gael ei werthu at ddefnydd arall.

Y cyfanswm gwariant cyfalaf, yn bennaf ar TG, meddalwedd a chyfalafu costau datblygu Pridiannau Tir Lleol, oedd £10.6m (£2.6m diriaethol ac £8m anniriaethol).

## Perfformiad yn erbyn targedau

Mae perfformiad fel yr adroddir ar dudalen 44.

## Gweithgareddau yn y dyfodol

Mae ein strategaeth wedi'i nodi ar dudalen 7.

## Y prif dueddiadau sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol

Y prif duedd sy'n effeithio ar weithgareddau yn y dyfodol yw lefel a natur gweithgarwch y farchnad dai. Caiff hyn ei adolygu'n gyson gan ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion o ffynonellau mewnol ac allanol ond mae'n ansefydlog ei natur. Mae ein cynllunio ar gyfer 2017/18 wedi cael ei gwblhau ar y sail y bydd gweithgarwch yn debyg yn fras i'r patrwm a welwyd yn 2016/17 gyda 31 miliwn o geisiadau (allbwn) gan gynnwys 0.5m o gofrestrïadau swmpus.

## Cyfarwyddiaethau a buddion arwyddocaol

Mae cyfarwyddiaethau a buddion arwyddocaol i'w gweld yn yr adroddiad llywodraethu corfforaethol ar dudalen 63.

## Perthnasoedd allweddol

Rydym yn cynnal perthynas agos â'n cyflenwyr trwy ein prosesau caffael a rheoli contractau. Mae perfformiad y cyflenwyr hyn yn cael ei fonitro'n agos i sicrhau bod y gwasanaeth a gontractiwyd yn cael ei ddarparu'n effeithiol, bod cyfleoedd gwella yn cael eu ceisio a'n bod yn parhau i gael gwerth da am arian.

Yn ystod y flwyddyn symudodd rhai gwasanaethau hanfodol busnes i gyflenwyr newydd yn dilyn ail-gaffaeliadau cystadleuol; roedd y rhain yn cynnwys ein gwasanaeth sganio dogfennau a darpariaeth rhwydwaith ardal eang. Er bod rhai anawsterau wedi codi gyda phontio'r gwasanaeth sganio dogfennau, cafodd y rhain sylw gan dîm cyfunedig o'n grwpiau gweithrediadau a masnachol a fu'n gweithio gyda'r cyflenwyr i ddatrys y problemau cychwynnol.

Roedd y contractau o bwys eraill a ddyfarnwyd trwy'r flwyddyn yn cynnwys system Cynllunio Adnoddau Menter newydd ar gyfer Cyllid ac Adnoddau Dynol, partner cynllunio a chyflenwi ar gyfer y rhaglen Pridiannau Tir Lleol a chapsiti a galluogrwyd allanol i gefnogi adeiladu'r gofrestr Pridiannau Tir Lleol.

Roedd ein prif gyflenwyr ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys TNT, Carillion, Xerox, IBM, Cap Gemini, PA Consulting a Kainos.

Gwneir defnydd arwyddocaol o hyd o gontractau trawslywodraethol yn unol â pholisi caffael Swyddfa'r Cabinet. Os ystyrir eu bod yn anaddas, hysbysebwr cyfleoedd trwy OJEU (Official Journal of the European Union).

## Cyllid a Thollau EM

Yn dilyn archwiliad cydymffurfiaeth treth a gynhaliwyd gan Gyllid a Thollau EM (HMRC), gwnaethpwyd darpariaeth o £1.2m yn 2015/16. Yn ystod 2016/17 talwyd £0.5m i HMRC mewn setliad llawn o dreth heb ei thalu a chafodd £0.7m ei anfon yn ôl i wariant.

## Taliadau

Cydymffurfwn â Deddf Hwyrddal Dyled Masnachol (Llog) 1998 a'r Cod Ymarfer Talu'n Well. Yn ystod y flwyddyn talwyd 92.1% o anfonebau diamheuol a gafwyd gan gyflenwyr o fewn pum diwrnod gwaith (2015/16: 92.5%).


## Archwilwyr

Archwiliwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol. Y gost ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â'r archwiliad statudol ar gyfer 2016/17 oedd £65,000 (2015/16: £65,000).

## Tueddiadau gwariant yn y dyfodol

Mae'r siart isod yn dangos y gwargedion dangosol a diffygion yn ein senario cynllunio craidd yn ein Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar ôl dychwelyd difidend i Drysorlys EM o 3.5% o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ynghyd â chwyddiant. Mae'n dangos gwarged cyffredinol cymedrol dros y cyfnod cynllunio sy'n gyson â gwariant Cronfa Fasnachu a gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus. Nid yw'n cynnwys buddsoddiad mewn Pridiannau Tir Lleol sy'n cael ei flaengyllido o gronfeydd wrth gefn cronus.

Enillion a gadwyd ar gyfer y flwyddyn (ac eithrio Pridiannau Tir Lleol)



Cymerir bod refeniw yn tyfu ar gyfradd gymedrol yn unig dros y cyfnod cynllunio o bum mlynedd er bod ystod eang o senarios posibl wedi cael eu profi. Mae'r proffil cost pum mlynedd yn adlewyrchu'r cynlluniau a'r rhagdybiaethau cyffredol a ddeallir yn well yn nhair blynedd gyntaf y cynllun nag yn y ddwy flynedd olaf. Bydd hyn yn golygu bod rhaid i'r swyddogaeth Cyllid ymgymryd ag adolygiad blynyddol rheolaidd, gan addasu i'r wybodaeth newydd, dysgu o brofiad ac ymateb i bolisi newydd y Llywodraeth.


Adlewyrchir y buddsoddiad yn ein trawsnewid digidol mewn refeniw a gwariant cyfalaf. Disgwylir i gostau busnes craidd leihau wrth i fuddion y rhaglen ddigidol gael eu gwireddu, er bod y rhain wedi'u gwrthbwysu yn y tymor byr gan gostau un-tro ac amorteiddio'r buddsoddiad cyfalaf.

Catherine Vaughan  
Cyfarwyddwr Cyllid 11 Gorffennaf 2017

Mae lefel a natur gweithgarwch y farchnad dai yn cael ei adolygu'n gyson trwy ddefnyddio amrywiaeth o ddangosyddion.







Mae ein huchelgais,  
cenhadaeth a  
gwerthoedd newydd  
yn adlewyrchu ein  
hymrwymiad craidd i  
gywirdeb y Gofrestr Tir.





# Ein perfformiad

Yn 2016/17 gosodwyd 11 o dargedau perfformiad i'n hunain.

Roedd saith o'r rhain yn Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), ac yn ogystal â chael eu cymeradwyo gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EM cawsant eu cymeradwyo hefyd gan y Gweinidog Gwladol ar y pryd (Gweinidog Busnesau Bach, Diwydiant a Menter) ar gyfer yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

Dosbarthwyd y pedwar targed oedd yn weddill fel dangosyddion perfformiad (DP) mewnol sy'n ategu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac yn helpu i reoli'r sefydliad

## Cwsmeriaid

Dangosydd	DPA	DP	Cyflawniad 2015/16	Cyflawniad 2016/17
Canran y cwsmeriaid sy'n graddio ein gwasanaeth cyffredinol yn dda, yn dda iawn neu'n rhagorol i gyflawni 90%	■		94%	90.3%
Erbyn diwedd Mawrth 2017, lleihau'r ôl-groniad, gan gynnwys achosion a ohiriwyd, i'r hyn sy'n cyfateb i saith diwrnod o waith				gwerth 11.8 diwrnod
Erbyn Mawrth 2017 byddwn yn cwblhau 70% o geisiadau deliadau o fewn pum diwrnod		■		79%
Erbyn Mawrth 2017 byddwn yn cwblhau 60% o deitlau newydd o fewn 25 diwrnod				23%

## Ansawdd

Dangosydd	DPA	DP	Cyflawniad 2015/16	Cyflawniad 2016/17
Cofrestriadau gwirioneddol i basio o leiaf 98% o'r gwiriadau ansawdd diffniedig	■		98.06%	98.3%
Cyflawni 98% o safonau cyflymder gwasanaeth sy'n ymwneud ag adroddiadau ac argymhellion yr Adolygydd Cwynion Annibynnol, a bodloni safonau cywirdeb cwynion mewn 98% o achosion		■		Cywirdeb 98.4%
				Llythyr ymddiheuro heb ei gynnwys mewn pum adroddiad

## Effeithlonrwydd

Dangosydd	DPA	DP	Cyflawniad 2015/16	Cyflawniad 2016/17
Cost yr uned heb fod yn fwy na £20.42	■		£19.49	£19.34
Cyflawni o leiaf 12.3 (12.15 wedi'i ailddatgan) o unedau wedi'u prosesu fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn fesul diwrnod	■		12.09	11.62 (11.48 wedi'i ailddatgan)
Gostyngiad o 5% mewn costau rhedeg o'i gymharu â'r gyllideb ar gyfer 2014/15	■		Wedi'i gyflawni	



## Arloesi

Dangosydd	DPA	DP	Cyflawniad 2015/16	Cyflawniad 2016/17
Byddwn yn datblygu ac yn rhyddhau cynnyrch alffa Pridiannau Tir Lleol i'w ddefnyddio gan is-set o'r awdurdodau lleol pilot a ddewiswyd, erbyn 31 Mawrth 2017	■			✓
Argaeledd e-wasanaethau allanol yn 99.6% neu'n uwch ar gyfartaledd yn ystod oriau gwasanaeth cyhoeddus	■		99.96%	99.89%
Byddwn yn sefydlu dau wasanaeth beta cyhoeddus yn gweithredu ar wefan GOV.UK erbyn diwedd Mawrth 2016	■		Heb ei gyflawni	
Byddwn yn rhyddhau pedair set ddata arall erbyn 31 Mawrth 2016 gan gynnwys gwybodaeth pris a dalwyd ar eiddo ym mherchnogaeth fasnachol	■		Heb ei gyflawni	

## Cydweithwyr

Dangosydd	DPA	DP	Cyflawniad 2015/16	Cyflawniad 2016/17
Cyflawni sgôr ymgysylltu cyffredinol â chydweithwyr o ddim llai na 57%	■			56%*
Sicrhau gwelliant yn y sgôr ymgysylltu ar gyfer arweinyddiaeth a rheoli newid dros ddwy flynedd o 15% o'i gymharu â gwaelodlin 2014/15	■		Targed dwy flynedd	14%*
Cyfraddau denu a phenodi ar gyfer ymgeiswyr sy'n gwneud cais am rolau o fewn Cofrestrfa Tir EM i fod yn gynrychioliadol o broffil ethnig lleiafrifol y boblogaeth llafur leol lle mae'r recriwtio yn digwydd		■		Cyfradd denu 1.8%
				Cyfradd penodi -7.6%
Cynnal sgôr mynegai cyson wedi'i gyfrifo o fasedd o bedwar mesur sy'n bwriadu mesur cymhelliant a pherfformiad ein gweithlu	■		Wedi'i gyflawni	
Carreg Filtir Galluogrwydd 1 - Yn 2015/16 i gyflawni cynnydd cyffredinol yn y sgôr ymgysylltu o 2%, gyda gwelliant o 4% mewn arweinyddiaeth a rheoli newid yn Arolwg y Gwasanaeth Sifil a gwelliant o 4% mewn ymateb i uwch reolwyr yn gweithredu ar ganlyniadau'r arolwg			3% 6% 12%	
Carreg Filtir Galluogrwydd 2 - Ar 31 Mawrth 2016 75% neu fwy o'r prentisiaid a recriwtiwyd yn dal i fod ar y cynllun			93%	
Carreg Filtir Galluogrwydd 3 - Erbyn diwedd Mawrth 2016 byddwn wedi adfywio'r gweithlu trwy gyfradd dechreuwyd newydd o 4%			7.4%	

Sylwer: Mae'r ffigurau ar gyfer 2015/16 wedi'u cymryd o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16 sy'n rhoi rhagor o fanylion.

\* Ni chyrrhaeddwyd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ffurfiol ond rhagorwyd ar y targedau yn arolwg pwls mewnol fis Chwefror.


## Cwsmeriaid

### DPA - Canran y cwsmeriaid sy'n graddio ein gwasanaeth cyffredinol yn dda, yn dda iawn neu'n rhagorol i gyflawni 90%

Fel cronfa fasnachu sy'n cael ei hincwm o ffioedd mae cyfrifoldeb gennym i ddarparu gwasanaeth sy'n cynrychioli gwerth am arian ac sy'n ateb anghenion ein cwsmeriaid a'u disgwyliadau proffesiynol.

I fesur bodlonrwydd comisiynwyd IPSOS i gynnal pedwar arolwg chwarterol o 300 o gwsmeriaid cynrychioliadol ar ein rhan i fesur bodlonrwydd yn annibynnol, a defnyddir y cyfartaledd i gyfrifo'r canlyniad terfynol.

### Canlyniad ar gyfer 2016/17 - 90.3%



### Edrych i'r dyfodol

Roedd ein perfformiad ar ein prif DPA cwsmeriaid yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn datblygu ac yn dechrau gweithredu strategaeth cwsmeriaid newydd yn 2017/18 i ddarparu mwy o gysondeb yn y gwasanaeth a gwella profiad ein cwsmeriaid wrth gysylltu â ni i gadw i fyny â disgwyliadau cynyddol cwsmeriaid.

### DP - Erbyn diwedd Mawrth 2017, lleihau'r ôl-groniad, gan gynnwys achosion sy'n aros am ymateb gan gwsmeriaid, i werth saith diwrnod o waith

Mae cyflymder y gwasanaeth a ddarparwn i'n cwsmeriaid yn dibynnu ar faint o waith a dderbyniwn, lefel yr adnoddau gweithredol sydd ar gael ac effeithlonrwydd prosesu'r gwaith hwnnw. Mae'r cyfuniad o'r tri ffactor hyn yn arwain at ôl-groniad gwaith ar unrhyw adeg, ac ar ddechrau'r flwyddyn roedd yn cyfrif am oddeutu gwerth 13 diwrnod o waith o ran cyfanswm nifer y ceisiadau.

Er bod y mesur hwn yn fetrig mewnol defnyddiol mae'n llai dealladwy i'n cwsmeriaid fel mesur o'r gwasanaeth a dderbyniant. Felly roedd ein cynlluniau i leihau'r ôl-groniad gwaith yn seiliedig ar safonau gwasanaeth llym sef:

- erbyn Mawrth 2017 byddwn yn cwblhau 70% o geisiadau sy'n ymwneud â theitlau presennol o fewn pum diwrnod; ac
- erbyn Mawrth 2017 byddwn yn cwblhau 60% o deitlau newydd o fewn 25 diwrnod.

### Canlyniad ar gyfer 2016/17

Erbyn diwedd y flwyddyn roeddem wedi:

- lleihau'r ôl-groniad i werth 11.8 diwrnod o waith;
- cwblhau 79.4% o ddeliadau o fewn pum diwrnod; a
- chwblhau 23% o geisiadau teitl newydd o fewn 25 diwrnod.

Mae hwn yn ganlyniad cymysg inni. Mae trafodion syml (diweddariadau i deitl sy'n bodoli) yn cynrychioli ein gwaith mwyaf o bell ffordd ac roedd rhagori ar ein targed yn golygu bod y mwyafrif o'r ceisiadau wedi derbyn gwasanaeth da iawn. Fodd bynnag, oherwydd y cynnydd yn y gwaith a dderbyniwyd, nid oeddem yn gallu cyrraedd ein targedau cyflymder gwasanaeth ar gyfer ceisiadau mwy cymhleth i greu teitlau newydd, sy'n cymryd mwy o adnoddau ac yn cael sylw gan weithwyr achos mwy profiadol.

Roedd hwn yn darged ymestyn ar gyfer Cofrestrfa Tir EM a dyma'r tro cyntaf inni fynegi ein huchelgais ar gyfer cyflymder gwasanaeth yn y ffordd hon. Mae ein blwyddyn gyntaf yn anelu at gyrraedd y targed hwn wedi rhoi gwersi pwysig a fydd yn ein galluogi i agosáu at gyrraedd ein targedau gwasanaeth cyffredinol dros y flwyddyn nesaf, ac yna rhoi cyfle inni wella ar y targedau hyn hyd yn oed ymhellach yn y blynyddoedd i ddod.

### Edrych i'r dyfodol

Rydym yn codi'r safon trwy uchelgais i gwblhau'r holl geisiadau teitl sy'n bodoli o fewn pum diwrnod a'r holl geisiadau teitl newydd o fewn 25 diwrnod os oes modd gwneud hynny. Credwn fod hwn yn fesur mwy ystyrlon ar gyfer ein cwsmeriaid ac yn cyd-fynd â'r adborth a gafwyd trwy ein harolygon bodlonrwydd cwsmeriaid.



# Ansawdd


## DPA – Cofrestrïadau gwirioneddol i basio o leiaf 98% o'r gwiriadau ansawdd diffiniedig

Mae cywirdeb y gofrestr o'r pwys mwyaf. Fel y cofnod diffiniedig o berchnogaeth eiddo yng Nghymru a Lloegr mae sicrhau bod y gofrestr yn gywir ac o'r ansawdd iawn yn hollbwysig.

I fesur ansawdd ein gwaith cofrestru, mae ein Grŵp Cywirdeb a Sicrwydd y Gofrestr yn cymryd sampl cynrychioliadol o 5% o'r gwaith rydym wedi'i gwblhau ac yn ymgymryd â nifer o wiriadau ansawdd i sicrhau bod cofrestru wedi cael ei gwblhau'n gywir.

## Canlyniad ar gyfer 2016/17

Cyflawnwyd 98.3%, y gorau ar gyfer tair blynedd.



## Edrych i'r dyfodol

Wrth inni ddigideiddio ac awtomeiddio mwy o'n gwasanaethau byddwn yn adeiladu gwiriadau dilysu ychwanegol a fydd yn lleihau'r cyfle i wneud camgymeriadau a gwella cywirdeb y gofrestr ymhellach.

## DP – Cyflawni 98% o safonau cyflymder gwasanaeth sy'n ymwneud ag adroddiadau ac argymhellion yr Adolygydd Cwynion Annibynnol, a bodloni safonau cywirdeb cwynion mewn 98% o achosion

Rydym yn ceisio datrys holl gwynion cwsmeriaid mor gyflym ac effeithlon ag y gallwn a chael canllawiau clir a gweithdrefnau uwchgyfeirio y gall ein pobl eu dilyn. Fodd bynnag, mae cyfle gan gwsmeriaid i gyfeirio cwynion at ein Hadolygydd Cwynion Annibynnol ac mae nifer fach o'r atgyfeiriadau hyn yn digwydd bob blwyddyn.

I sicrhau bod unrhyw broblemau systemig yn cael eu nodi ac yn cael sylw cyflwynwyd y targed hwn am y tro cyntaf. Mae elfen cyflymder gwasanaeth y targed yn cael ei fesur trwy:

- roi ymddiheuriadau a gwneud unrhyw gamau unioni penodol i gwsmeriaid a argymhellir gan yr Adolygydd Cwynion Annibynnol o fewn pythefnos o dderbyn adroddiad terfynol yr Adolygydd;
- cytuno ar gynlluniau gweithredu ar gyfer rhoi ar waith argymhellion systemig yr Adolygydd Cwynion Annibynnol o fewn pedair wythnos o ddyddiad cyfarfod nesaf ICREST (Tîm Gwerthuso ac Astudio'r Adolygydd Cwynion Annibynnol) yn dilyn derbyn adroddiad terfynol yr Adolygydd; a
- chwblhau'r camau gweithredu cytunedig sy'n codi o argymhellion systemig o fewn 10 wythnos neu, os na ellir cyflawni'r cam gweithredu neu'r newid sydd ei angen o fewn yr amser hwnnw, cytuno a nodi'r dyddiad y gellir ei gyflenwi o fewn yr un cyfnod.

## Canlyniad ar gyfer 2016/17

Cyflawnwyd y safonau cywirdeb mewn 98.3% o achosion, gan ragori ar y targed. Cytunwyd ar yr holl gynlluniau gweithredu o fewn pedair wythnos a chwblhawyd y camau gweithredu dilynol o fewn deg wythnos. Fodd bynnag, ni chafodd y llythyr cychwynnol ei gyhoeddi o fewn pythefnos ar bum achlysur, gan gollu'r dyddiad cau gan ddiwrnod neu ddau.

## Edrych i'r dyfodol

Rydym eisoes wedi cryfhau camau cychwynnol y broses a byddwn yn parhau i fonitro'r targed hwn yn fewnol a gweithredu ar unrhyw argymhellion systematig a nodir ac a gytunir gyda'r Adolygydd Cwynion Annibynnol.



## Effeithlonrwydd

### DPA – Cost yr uned heb fod yn fwy na £20.42

Derbyniwn dros 30 miliwn o geisiadau'r flwyddyn sy'n amrywio'n fawr iawn o ran eu natur a'u cymhlethdod, o gais syml am gopi o ddogfen sydd gennym i gofrestrriad cymhleth lle rydym yn penderfynu perchnogaeth gyfreithiol yn seiliedig ar dystiolaeth ddogfennol gymhleth, yn aml yn dyddio'n ôl degawdau.


I helpu gyda'n cyllidebu a chynllunio'r gweithlu, rhown werth yr uned tybiannol i bob math o gais rydym yn ei brosesu yn seiliedig ar gymhlethdod gymharol a'r ymdrech y mae ei angen i gwblhau'r cais. Yna mae cost yr uned yn cael ei nodi i'w ddefnyddio i helpu mesur a hyrwyddo ein heffeithlonrwydd.

### Canlyniad ar gyfer 2016/17

Cyflawnwyd cost yr uned o £19.34, gan ragori ar ein targed gan 6%. Cafodd effeithlonrwydd cost yr uned ei ysgogi'n bennaf trwy arbedion TG a chaffael, gwelliannau i systemau gwaith achos a recriwtio i raddau lefel mynediad i fynd i'r afael â gwaith symlach (ar ôl derbyn hyfforddiant) gan gynnig modd i'n gweithwyr achos mwyaf profiadol ddelio â cheisiadau mwy cymhleth.

Mae'r siart dilynol yn dangos perfformiad ar gyfer y pum mlynedd ddiwethaf.

Cafodd costau'r flwyddyn hon sy'n ymwneud â phrosiectau buddsoddi eu cynnwys yn y cyfrifiad i ddarparu mesur mwy cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu nad yw cymhariaeth uniongyrchol â chanlyniad eleni yn bosibl â'r siart isod. I roi rhywfaint o gyd-destun, pe bai'r un fethodoleg â llynedd wedi cael ei defnyddio byddai'r targed ar gyfer eleni yn £22.51.



### Edrych i'r dyfodol

Rydym yn ymwybodol iawn nad yw mynegi targedau yn nhermau fesul uned yn hollol dryloyw i'n cwsmeriaid a'n budd-ddeiliaid. Bwriadwn ddisodli'r mesur hwn gyda mesur cost fesul math o gais a fydd yn gallu dangos mwy o effeithlonrwydd yn ein gwaith cofrestru dros amser mewn ffordd fwy tryloyw.

### DPA – Cyflawni o leiaf 12.3 o unedau wedi'u prosesu fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn fesul diwrnod

Fel y nodir uchod, rhown werth yr uned tybiannol ar gyfer pob math o gais a broseswn yn seiliedig ar y cymhlethdod a'r ymdrech sydd ei angen i gwblhau'r gwaith. Ochr yn ochr â'r sgôr cost yr uned mae hyn yn caniatáu inni fesur y cynhyrchiant fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn. Gwnawn hyn rwy rannu nifer yr unedau gwaith a gynhyrchir gan nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn a ddefnyddir i brosesu'r gwaith, gan roi ffigur sy'n cynrychioli cynhyrchiant y gweithlu.

Yn dilyn y newid yn y cyfrifiad o'r DPA cost yr uned y cyfeiriwyd ato uchod, yn gynnar yn y flwyddyn nodwyd bod y costau ychwanegol a gynhwyswyd yn cael yr effaith o ychwanegu gweithwyr cyfwerth ag amser llawn ychwanegol i'r targed – gan ei gwneud hi'n fwy anodd i'w gyflawni na'r disgwyl. Er mwyn rhoi cymhariaeth uniongyrchol, o'r pwynt hwnnw roeddem wedi tracio 12.15 uned fel targed yn ogystal â 12.3 uned.

### Canlyniad ar gyfer 2016/17

Cyflawnwyd 11.62 ac 11.46 o unedau fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn fesul diwrnod yn erbyn y targedau 12.3 a 12.15. Ni lwyddom i gyrraedd y targed hwn oherwydd recriwtio mewn niferoedd arwyddocaol ac yna cymryd yn rhy hir i staff newydd fod yn gwbl gynhyrchol gyda hyfforddiant ychwanegol gan gymryd gweithwyr achos profiadol i ffwrdd o waith cofrestru. Fodd bynnag, er y gallai hyn fod wedi golygu nad oeddem yn gallu bodloni ein DPA eleni, mae'n fuddsoddiad hanfodol yn ein dyfodol a chan fod pobl gennym bellach sydd wedi'u hyfforddi ac yn mynd i'r afael â lefelau priodol o waith achos, gallwn fod yn fwy cynhyrchol byth y flwyddyn nesaf.

### Edrych i'r dyfodol

Yn ogystal â digideiddio ac awtomeiddio gwasanaethau rydym yn cyflwyno rhaglen o welliant parhaus ar draws ein swyddfeydd a fydd yn hyrwyddo ein heffeithlonrwydd, yn creu ac yn rhannu ymarfer gorau ar draws tîmoedd a lleoliadau ac yn gwella perfformiad ar draws y sefydliad.



## Arloesi

### DPA – Argaeledd e-wasanaethau allanol yn 99.6% neu'n uwch ar gyfartaledd yn ystod oriau gwasanaeth cyhoeddus

Mae argaeledd e-wasanaethau o bwysigrwydd hanfodol i'n busnes. Cyflwynwyd y rhan fwyaf o'r ceisiadau gan ein cwsmeriaid trwy ein sianeli e-wasanaeth.

Cyfrifir y targed hwn trwy fesur yr argaeledd yn erbyn yr oriau gwasanaeth a hysbysebair ar gyfer pump o'n sianeli ar-lein, sef:


### DP – Byddwn yn datblygu ac yn rhyddhau cynnyrch alffa Pridiannau Tir Lleol i'w ddefnyddio gan is-set o'r awdurdodau lleol peilot a ddewiswyd, erbyn 31 Mawrth 2017

Rydym yn darparu ein rhaglen uchelgeisiol i drawsnewid y gwasanaeth Pridiannau Tir Lleol sy'n cael ei ddarparu gan 326 o awdurdodau lleol yn Lloegr ar hyn o bryd. Trwy wneud hynny, byddwn yn gwella'n sylweddol profiad cwsmeriaid o'r broses Pridiannau Tir Lleol, trwy ei gwneud yn well, yn gyflymach ac yn rhatach. Bydd hyn yn cynnwys:

- sefydlu gwasanaeth digidol cenedlaethol newydd gyda 100% o'r chwiliadau o gofrestr ddigidol wedi'i galluogi'n ofodol;

System	Disgrifiad	Oriau gwasanaeth dyddiol cyhoeddus	Oriau blynyddol	Uchafswm oriau ddim ar gael
E-wasanaethau busnes	Porthol i gwsmeriaid proffesiynol gael mynediad i'n hystod lawn o e-wasanaethau	16.5	6,023	24
Business Gateway	Rhyngwyneb di-dor i systemau rheoli achos cwsmeriaid	16.5	6,023	24
Inspire	Gwasanaeth sy'n darparu mynediad i bolygonau map mynegai Cofrestrfa Tir EM	—	8,760	35
Find a property	Gwasanaeth wedi'i anelu at ddinasyddion sy'n darparu mynediad i gopiâu o'r gofrestr	18	6,570	26
Gwefan gorfforaethol	Gwybodaeth Cofrestrfa Tir EM ar GOV.UK	24	8,760	35
		<b>Cyfanswm</b>	<b>36,136</b>	<b>144</b>

### Canlyniad ar gyfer 2016/17 – 99.9%



### Edrych i'r dyfodol

Bwriadwn fuddsoddi'n helaeth mewn gwasanaethau digidol newydd, moderneiddio ein seilwaith TG a gwella ein hamddiffynfeydd diogelwch seiber gan gynnal yr argaeledd rhagorol a welwyd y flwyddyn hon yr un pryd.

- lleihad mewn amserau cwblhau ymrwymedig o gyfartaledd ymrwymedig cyfredol o wyth diwrnod i fynediad ar-lein uniongyrchol; a
- phris gostyngol ar gyfer chwiliad swyddogol o Bridiannau Tir Lleol.

### Canlyniad ar gyfer 2016/17

Wrth wraidd y gwasanaeth newydd yw ein Gwasanaeth Cofrestr Pridiannau Tir Lleol. Pasiwyd ein hasesiad alffa Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth yn Ionawr 2017. Mae adeiladu ein Gwasanaethau Cofrestr Pridiannau Tir Lleol wedi'i lywio, ac yn parhau i gael ei lywio, gan lawer o waith ymchwil gan ddefnyddwyr ar draws yr awdurdodau lleol.

### Edrych i'r dyfodol


Mae ein hasesiad alffa Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth wedi llywio cam nesaf y rhaglen ac wedi llunio'r gwaith adeiladu Gwasanaeth Cofrestr Pridiannau Tir Lleol sy'n weddill. Yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth ar gyfer ein Hachos Busnes Rhaglen bwriadwn fudo yn raddol pob un o'r 326 o awdurdodau lleol yn Lloegr i'n cofrestr newydd dros y blynyddoedd nesaf. Bwriadwn i'r gwasanaeth gael ei ddefnyddio gan 50% o'r awdurdodau lleol erbyn diwedd 2020.

## DPA - Cyflawni sgôr ymgysylltu cyffredinol â staff o ddim llai na 57%

Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar ein pobl. Bydd strategaeth uchelgeisiol gennym i'w chyflawni a fydd yn gofyn am gydweithwyr ymroddedig sydd wedi'u hymgysylltu. Ar ôl cyfnod hir o ansicrwydd yn dilyn dau ymgynghoriad olynol ar ddyfodol Cofrestrfa Tir EM rydym wedi gweithio'n galed i gynnwys ein pobl yn y ddadl a darparu eglurder lle na all sicrhwydd fodoli.

### Canlyniad ar gyfer 2016/17

Mae'r canlyniad ar gyfer y DPA wedi'i gymryd o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil a gynhelir fis Hydref bob blwyddyn. Cafwyd canlyniad o 56% yn erbyn targed o 57%, gwelliant o 3% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Wrth gwrs, rydym yn siomedig nad oeddem wedi cyrraedd y targed erbyn arolwg Gwasanaeth Sifil fis Hydref ond er hynny, mae cynnydd o 7% dros dim ond dwy flynedd yn welliant sylweddol. Mae canlyniadau ein harolwg pwls mewnol fis Chwefror yn dangos bod ymgysylltiad cydweithwyr wedi gwella gan 59% sydd wedi ein rhoi mewn sefyllfa dda ar gyfer arolwg nesaf y Gwasanaeth Sifil.



### Edrych i'r dyfodol

Byddwn yn parhau i geisio sicrhau mwy o ymgysylltiad a chefnogaeth ein pobl ar gyfer ein cyfeiriad newydd gyda'r nod mwy hirdymor o fod yn chwartil uchaf y Gwasanaeth Sifil.

## DPA - Sicrhau gwelliant yn y sgôr ymgysylltu ar gyfer arweinyddiaeth a rheoli newid dros ddwy flynedd o 15% o'i gymharu â gwaelodlin 2014/15

Gyda thrawsnewid uchelgeisiol o'n blaenau, bydd ein gallu i arwain a rheoli newid yn allweddol i'n llwyddiant. Rydym yn buddsoddi mewn datblygu ein harweinwyr, ein dull rheoli newid, offer ategol a galluogrwydd.

### Canlyniad ar gyfer 2016/17

Mae'r canlyniad ar gyfer y DPA hwn hefyd wedi'i gymryd o Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil lle y cawsom sgôr o 33% - sef gwelliant o 14% mewn dwy flynedd, a dim ond 1% yn fyr o'r targed ymestyn o 15%. Unwaith eto, yn yr arolwg pwls mewnol diwethaf cafwyd canlyniad o 38% sydd yn 4% yn well na'r targed a'r canlyniad gorau erioed ar gyfer y sefydliad.

Yn yr un modd â'r sgôr ymgysylltu cyffredinol mae'r symudiad dros y ddwy flynedd diwethaf wedi bod yn arwyddocaol, ac mae canlyniad arolwg mewnol fis Chwefror yn ein rhoi mewn sefyllfa gref iawn ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gosodwyd y waelodlin ar gyfer y mesur hwn yn 2014/15 pan gafwyd sgôr o 19%, yn codi i 25% yn 2015/16.

### Edrych i'r dyfodol

Bwriadwn wella ein galluogrwydd a chpasiti arweinyddiaeth a rheoli newid ymhellach trwy gyfuniad o recriwtio newydd ar lefel weithredol a chpasiti dros dro ychwanegol gan bartneriaid fel a phryd y mae angen i gefnogi mentrau newydd.

## DP - Cyfraddau denu a phenodi ar gyfer ymgeiswyr sy'n gwneud cais am rolau o fewn Cofrestrfa Tir EM i fod yn gynrychioliadol o broffil ethnig lleiafrifol y boblogaeth llafur lleol lle mae'r recriwtio yn digwydd

Cyn 2014 nid oeddem wedi recriwtio nifer sylweddol o bobl er 2007 ac roedd yr hyd gwasanaeth cyffredin yn fwy nag 20 mlynedd. O ganlyniad nid oedd ein gweithlu yn gynrychioladol mwyach o'r boblogaeth leol lle y lleolir ein swyddfeydd. Datblygwyd y Dangosydd Perfformiad hwn i ddod â ffocws i helpu i roi sylw i'r sefyllfa hon.

### Canlyniad ar gyfer 2016/17

Mae targed amrywiaeth dwy flynedd gennym sy'n cwmpasu denu a phenodi staff lleiafrifoedd ethnig. Yn ein blwyddyn gyntaf llwyddwyd i gyflawni 1.8% yn uwch na'r targed denu hwn, ond ni welwyd digon o'r ceisiadau hyn yn troi'n penodiadau ac felly collwyd y targed penodi gan 7.6%.

### Edrych i'r dyfodol

Bydd y Dangosydd Perfformiad hwn yn parhau i fod yn ffocws. Gyda'r bwriad o recriwtio dros y flwyddyn nesaf ein nod yw adeiladu ar y llwyddiannau a gawsom o ran denu ymgeiswyr amrywiol i Gofrestrfa Tir EM a byddwn yn ceisio troi'r denu hwnnw yn benodiadau.





# Perfformiad cynaliadwyedd

Rheolwn y gwasanaeth cofrestru tir mewn ffordd amgylcheddol gyfrifol. Defnyddiwn ein System Rheoli Amgylcheddol i sicrhau ein bod yn gwella'n barhaus ac yn gweithio tuag at y targedau gofynnol a osodwyd fel rhan o Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth a gofynion TGCh Glasu'r Llywodraeth.

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unol â chanllawiau 2016/17 a gyflenwyd gan Drysorlys EM.

Rydym yn parhau i gael ein hachredu i'r safon amgylcheddol ISO14001 sy'n cadarnhau'n annibynnol ein perfformiad ar draws yr ystod lawn o weithgareddau cynaliadwyedd o fewn y sefydliad.

Mae perfformiad cyfredol yn erbyn data gwaelodlin cynaliadwyedd 2009/10 fel a ganlyn yn erbyn targedau Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth

Yn ogystal bydd y gofyniad canlynol o fewn Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth yn parhau i gael eu bodloni.

- Parhau i ddilyn arferion caffael cyhoeddus sy'n gynaliadwy, er mwyn i'r llywodraeth brynu cynhyrchion mwy cynaliadwy ac effeithlon gyda'r nod o gael y gwerth am arian gorau i gymdeithas.

Bydd adrannau'n adrodd ar y systemau sydd ganddynt yn eu lle a'r camau a gymerant i gefnogi'r ymrwymiad hwn, gan gynnwys:

- ymgorffori cydymffurfiaeth â Safonau Prynu'r Llywodraeth mewn contractau caffael adrannol a chanolog, o fewn cyd-destun blaenoriaethau cyffredinol y llywodraeth o werth am arian a symleiddio prosesau caffael; a
- deall a lleihau effeithiau'r gadwyn gyflenwi.

Maes	Wedi'i gyflawni	Targed drafft arfaethedig ar gyfer 2020	Ar darged?
Carbon	Gostyngiad o 49%	Gostyngiad o 40%	le
Gwastraff sy'n codi	Gostyngiad o 47%	Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 25%	le
	98% wedi'i ailgylchu	Ailgylchu neu gompostio o leiaf 70% o'r gwastraff	le
	2% i safle tirlenwi	Tirlenwi yn llai na 10% o'r gwastraff	le
Defnydd o ddŵr	Gostyngiad o 39%	Gostyngiad o 25% (ein targed ni)	le
Defnydd o bapur	Gostyngiad o 56%	Lleihau'r defnydd o bapur gan 50% o waelodlin 2009/10	le

## Data perfformiad yn erbyn targedau drafft Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth

Maes	Perfformiad		
		Gwirioneddol	Targed gostyngiad 2020
Ynni: allyriadau nwyon tŷ gwydr, pob maes o fewn y cwmpas	Allyriadau carbon (tunelli)	7,328	7,328
	Gwariant (£)	1,485	
Gwastraff	Treulant (tunelli)	1,105	1,484
	Gwariant (£)	129	
Dŵr	Defnydd (m <sup>3</sup> )	34,967	38,346
	Gwariant (£)	152	



## Llywodraethu cynaliadwyedd

Mae cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol yn cael ei reoli trwy'r Fframwaith Llywodraethu Cynaliadwyedd a chyfarfodydd cydymffurfio â'r darparwr rheoli cyfleusterau Carillion. Rheolir hyn trwy'r Rheolwr Cynaliadwyedd gan yr Uwch Bartneriaid Busnes Cyfleusterau a Carillion.

## Bodloni gofynion ychwanegol Ymrwymiadau Glasu'r Llywodraeth yn gyffredinol

Mae'r targedau yn parhau i ysgogi'r Llywodraeth ganolog i fod yn fwy cynaliadwy a sicrhau bod gofynion Deddf Newid Hinsawdd (2008), sef gostyngiad o 31% erbyn 2020 mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn cael eu cyflawni.

## Addasu i newid hinsawdd

Mae effeithiau newid hinsawdd yn cael eu hystyried yn ystod gwaith a phrosiectau adeiladu. Defnyddiwn y wybodaeth o arolygon cyflwr adeiladau a chynlluniau cynnal a chadw yn y dyfodol fel rhan o'n strategaeth o leihau ar gyfer cynaliadwyedd wrth gwblhau gwaith adnewyddu mawr, adleoli neu newid offer adeiladu ar raddfa fawr. Mae'r cynllun addasu i newid hinsawdd yn cael ei adolygu'n barhaus.

## Bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol

Mae gwelliannau yn parhau i gael eu cyflwyno lle bo hynny'n ymarferol yn ariannol trwy Carillion. Mae gwelliannau yn parhau i gael eu gwneud trwy nifer o fentrau cynnal a chadw tiroedd, gyda phwyslais ar greu cynefinoedd pan fydd gweithgarwch ailblannu yn digwydd.



## Carbon

Mae allyriadau gros wedi lleihau gan 49% dros y waelodlin.

Mae'r defnydd o drydan a nwy wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae hyn yn adlewyrchu'r ymdrechion a waned trwy'r rhaglen save@work. Mae'r gostyngiadau yn fwy arwyddocaol byth o ystyried y staff ychwanegol a recriwtiwyd ac estyn oriau trwy gydol y flwyddyn.

Cost yr Ymrwymiad Lleihau Carbon i'r sefydliad oedd £157,170.

Ein gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau carbon er 2009/10 yw 49%. Gweler Atodiad Ch am ddata tueddiadau hanesyddol.

Allyriadau nwyon tŷ gwyrdd	2016/17	2015/16	2014/15	2013/14	2012/13
<b>Dangosyddion anariannol (tunelli o CO2 cyfatebol)</b>					
Cyfanswm allyriadau gros ar gyfer cwmpas 1 a 2	6,818	7,835	8,048	8,404	10,447
Trydan: gwyrdd/adnewyddadwy	1,710	1,195	2,306	2,780	2,265
Cyfanswm allyriadau net ar gyfer cwmpas 1 a 2 (h.y. heb gynnwys elfennau adnewyddadwy)	5,108	6,640	5,742	5,624	8,182
Allyriadau gros cwmpas 3 teithio <sup>1</sup>	510	557	608	724	893
Cyfanswm gros yr allyriadau a adroddwyd	7,328	8,392	8,656	9,128	11,340
<b>Dangosyddion anariannol (mWh)</b>					
Trydan: wedi'i brynu (grid, gwres a phŵer cyfunedig, ac anadnewyddadwy)	12,808	12,956	12,902	12,200	15,943
Trydan: adnewyddadwy	—	—	—	—	—
Nwy	5,774	7,325	6,989	8,355	11,567
Ffynonellau ynni eraill	—	—	—	—	—
Cyfanswm ynni	18,582	20,281	19,891	20,555	27,510
<b>Dangosyddion ariannol (£'000)</b>					
Gwariant ar ynni	1,485	1,641	1,684	1,810	2,043
Gwariant ar gredydau achrededig (e.e. cronfa Credydau Carbon y Llywodraeth)	—	—	—	—	—
Gwariant ar deithio busnes swyddogol	1,231	1,222	1,142	1,240	1,127

1. Mae allyriadau gros cwmpas 3 yn cynnwys yr holl deithio busnes sydd ar gael.



Sylwer: mae data yn cynnwys adrannau eraill o'r llywodraeth sy'n meddiannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

Sylwer: mae'r Arolwg Ordnans a'r GIG, sy'n defnyddio gwasanaethau canolfan data Cofrestrfa Tir EM, yn adrodd ar eu treuliant carbon yn uniongyrchol i'r llywodraeth. Mae hyn yn cyfateb i 2,730,431KWh, ac yn arwain at waredu 1,227 tunnell o garbon.

Sylwer: trwy gydol yr adroddiad hwn mae ein data treuliant yn cynnwys tenantiaid y llywodraeth sy'n rhannu ein hystad ond nid yw'n cynnwys data sy'n ymwneud â thenantiaid anllywodraethol.

Y targed drafft ar gyfer nwyon tŷ gwyrdd a osodwyd ar gyfer asiantaethau a chyrff cyhoeddus yr Adran Busnes Menter ac Arloesi yw lleihau allyriadau gan 40% erbyn Mawrth 2020 dros y data gwaelodlin ar gyfer 2009/10.

## Gwastraff

Y targed gwastraff yw lleihau'r gwastraff a gynhyrchir gan o leiaf 25% o waelodlin 2009/10 a cheisio ei leihau ymhellach, ailgylchu neu gompostio o leiaf 70% o wastraff, a defnyddio safleoedd tirlenwi ar gyfer llai na 10% o'r gwastraff.

Mewn partneriaeth â'n darparwyr gwastraff trwy ein contract â Carillion rydym yn gweithio tuag at anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi. Ar hyn o bryd rydym yn bodloni pob un o'r targedau gyda pherfformiad fel a ganlyn: gwastraff a gynhyrchir wedi'i leihau gan 47%, gwastraff wedi'i ailgylchu, ei wyro neu ei gompostio yn 98.5%, a thirlenwi yn 1.5% o'r gwastraff.

Gwastraff	2016/17	2015/16	2014/15	2013/14	2012/13
-----------	---------	---------	---------	---------	---------

### Dangosyddion anariannol (tunelli)

Gwastraff peryglus		3	1.6	—	—	—
Gwastraff heb fod yn beryglus	Gwastraff tirlenwi	13	31.9	105	101	379
	Gwastraff wedi'i aildefnyddio/ailgylchu	1,028	972.0	802	858	1,042
	Ynni o wastraff	5	6.6	—	—	—
	Cyfanswm gwastraff sy'n codi	1,049	1,012.1	907	959	1,421

### Dangosyddion ariannol (£'000)

Gwastraff peryglus		—	—	—	—
Gwastraff heb fod yn beryglus	Gwastraff tirlenwi	4	180	144	197
	Gwastraff wedi'i aildefnyddio/ailgylchu	208	99	146	218
	Gwastraff a losgwyd	—	—	—	—
	Cyfanswm costau gwastraff	129	212	279	290



Mae'r gwasanaeth rheoli gwastraff yn cael ei gyflenwi trwy ddau lwybr. Mae gwastraff papur yn cael ei reoli trwy'r contract gwaredu gwastraff cyfrinachol y tu allan i'r contract rheoli cyfleusterau gyda Carillion. Mae'r holl wasanaeth rheoli gwastraff arall yn cael ei gyflenwi trwy'r contract rheoli cyfleusterau.

O'r gwastraff a gynhyrchir mae 801 o dunelli yn bapur a anfonir i'w ailgylchu. Mae'r papur hwn yn cyfateb i 69% o'n cyfanswm gwastraff.

Ein gostyngiad cyffredinol mewn cynhyrchu gwastraff er 2009/10 yw 47%. Gweler Atodiad Ch am ddata tueddiadau hanesyddol.

## Defnydd o ddŵr

Y targed dŵr yw parhau i leihau'r defnydd o ddŵr ymhellach o waelodlin 2009/10. Mae hyn yn caniatáu i adrannau osod eu targedau mewnol eu hunain ar gyfer lleihau'r defnydd o ddŵr ac adrodd ar eu cynnydd yn eu herbyn. Yn ogystal bydd adrannau yn parhau i adrodd ar y defnydd o ddŵr mewn swyddfeydd (m3 fesul aelod o staff cyfwerth ag amser llawn).

Cafwyd gostyngiad o 39% yn y defnydd o ddŵr yn erbyn targed o 25%. Y defnydd fesul gweithiwr cyfwerth ag amser llawn, gan gynnwys cydweithwyr ar safleoedd Cofrestrfa Tir EM o adrannau eraill o'r llywodraeth, yw 6.7m<sup>3</sup>.

Defnydd o ddŵr	2016/17	2015/16	2014/15	2013/14	2012/13
----------------	---------	---------	---------	---------	---------

### Dangosyddion anariannol (metrau ciwbig)

Defnydd					
Wedi'i gyflenwi	34,967	36,395	38,153	36,037	31,230
Wedi'i dynnu	-	-	-	-	-
Cyfanswm defnydd	34,967	36,395	38,153	36,037	31,230

### Dangosyddion ariannol (£'000)

Cyfanswm costau cyflenwi	152	173	188	228	236
--------------------------	-----	-----	-----	-----	-----

## Defnydd o bapur

Mae targed Ymrwymadau Glasu'r Llywodraeth ar gyfer lleihau ein defnydd o bapur gan 50% o flwyddyn waelodlin Cofrestrfa Tir EM o 2011/12 yn dangos gwelliant cyfredol o 56% dros y defnydd o bapur cyfwerth ag A4. Mae ein rhaglen gwasanaethau digidol a'n symudiad i argraffu ar gais yn cael effaith arwyddocaol.

## Caffael cynaliadwy yn erbyn Ymrwymadau Glasu'r Llywodraeth

Mae'r Tîm Caffael Corfforaethol yn parhau i weithio i gynnal a, gobeithiwn, wella ar Lefel 3 (Ymarfer) ar draws pob categori ym model aeddfedrwydd Fframwaith Hyblyg Caffael Cynaliadwy. Trwy weithio gyda'n budd-ddeiliaid busnes a'n prif gyflenwyr, mae Safonau Prynu Llywodraeth Swyddfa'r Cabinet wedi'u hymgorffori bellach yn ein prosesau caffael.

Bydd prif gyflenwyr yn adnabod ac yn gweithredu ar gyfleoedd i wneud gwelliannau cymdeithasol ac amgylcheddol. Rydym wedi parhau i weithio ar faterion cynaliadwyedd fel y dangosir gan y canlynol:

– Enterprise, ein darparwr hurio cerbydau, yn gweithio'n agos â ni i helpu i adnabod pa categori o gerbyd fydd yn rhoi'r gwerth gorau am arian gan leihau ein hól troed carbon yr un pryd; a'r

– Grŵp Caffael a Masnachol yn cynnal ymarfer i gael gwybodaeth am gynaliadwyedd cyflenwyr.

Mae gwaith yn cael ei wneud hefyd i weithredu'r defnydd o'r Cynlluniau Gweithredu Cynaliadwyedd Contractau.

Hyd yma mae'r rhain wedi cael eu cyflwyno i'r Gwasanaethau Sganio, Prosesu a Data Electronig a chontractau'r Arolwg Ordians a chânt eu hadolygu a'u diweddarau mewn cyfarfodydd cyflenwyr.





# Perfformiad ar faterion eraill

## Cofrestru tir

Cofrestrwyd y teitl rhydd-ddaliol i 210,786 hectar am y tro cyntaf, gan gymryd cyfanswm yr arwynebedd cofrestredig i 12,745,582 hectar neu 84.27% o Gymru a Lloegr. Mabwysiadwyd dulliau mwy cywrain o fesur yn ystod y flwyddyn, felly erbyn hyn gallwn hepgor unrhyw gofrestradau newydd nad ydynt yn ymwneud â'r arwynebedd rhydd-ddaliol.

## Deiliad Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus

Cyflawnwn ein rôl fel Deiliad Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus, un rydym yn cymryd o ddifrif, trwy ddilyn y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Rydym yn mandadu dysgu Cyfrifol am Wybodaeth blynyddol ar gyfer ein pobl a'i lledu trwy hyrwyddo ymarfer da ym meysydd diogelwch ebost, diogelu cyfrinair a defnyddio offer cydweithredu cwmwl. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn goruchwyllo'r broses rheoli risg gwybodaeth, a fesurir trwy achrediad allanol (ISO27001) a hunanasesiad sy'n cael ei herio'n annibynnol (gan ddefnyddio Model Aeddfedrwydd Sicrwydd Gwybodaeth - IAMM). Rydym hefyd yn cynnal asesadau Offer Asesu Gallu Seiberamddiffyn wedi'u hasesu'n fewnol ac allanol fel rhan o'r Seilwaith Cenedlaethol Hanfodol.

## Gwybodaeth agored a llawn

Derbyniwyd 422 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth ac atebwyd i 417 ohonynt o fewn 20 diwrnod gwaith.

## Gwybodaeth arall

### Y Pwyllgor Rheolau

Cyfansoddwyd y Pwyllgor Rheolau o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i roi cyngor a chymorth i'r Arglwydd Ganghellor yn wreiddiol ond erbyn hyn i'r Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, ar lunio rheolau cofrestru tir a gorchmynion ffi o dan y Ddeddf. Dros y flwyddyn ddiwethaf ail-ddosbarthwyd y Pwyllgor Rheolau o fod yn Gorff Cyhoeddus Anadrannol Cynghorol i Bwyllgor Arbenigol.

Roedd y Pwyllgor Rheolau yn gysylltiedig â'r gweithgareddau canlynol y flwyddyn ddiwethaf.

- Yn Rhagfyr 2016 enwebodd Cymdeithas y Gyfraith Warren Gordon fel ei gynrychiolydd ar y Pwyllgor Rheolau yn unol ag adran 127(2) (d) o Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Mae Mr Gordon yn cymryd lle Jonathan Smithers a ymddiswyddodd o'r Pwyllgor Rheolau ar ôl cwblhau ei gyfnod fel Llywydd Cymdeithas y Gyfraith.
- Ni ofynnwyd i'r Pwyllgor Rheolau roi cyngor a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y cyfnod hwn oherwydd ni chafodd unrhyw reolau cofrestru tir neu orchmynion ffi eu gwneud.
- Yn Chwefror 2017 gofynnwyd i'r Pwyllgor Rheolau ystyried yr ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio Rheolau Cofrestru Tir 2003. Gwnaed hyn i baratoi'r Pwyllgor Rheolau i ymgymryd â'i rôl rhoi cyngor a chymorth i'r Ysgrifennydd Gwladol trwy ystyriaeth fanwl o'r newidiadau drafft i'r rheolau pan ddaeth yr ymgynghoriad i ben yn Ebrill 2017.
- Ni chafodd unrhyw gostau eu hawlio gan aelodau o'r Pwyllgor Rheolau yn y flwyddyn ariannol bresennol.

## Caethwasiaeth fodern

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw gaethwasiaeth fodern neu fasnachu mewn pobl yn ei chadwyni cyflenwi mewn unrhyw ran o'r sefydliad.

Rydym wedi cymryd y camau canlynol i sicrhau nad yw caethwasiaeth na masnachu mewn pobl (y cyfeirir atynt gyda'i gilydd fel 'caethwasiaeth fodern') wedi digwydd yn ein sefydliad neu gadwyni cyflenwi.

— Recriwtio a chyflogi cydweithwyr a chaffael ac ymgysylltu â chyflenwyr a chynghorwyr ym mhob achos yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cadarn sy'n ceisio cadw'r risg o gaethwasiaeth fodern i'r lleiaf posibl yng Nghofrestrfa Tir EM.

— Cynnal polisïau a gweithdrefnau cadarn i'w gwneud hi'n ofynnol i weithwyr Cofrestrfa Tir EM godi pryderon ynghylch unrhyw fater mor gynnar â phosibl, a fyddai'n cynnwys unrhyw byrderon yn ymwneud â chaethwasiaeth fodern yn ein sefydliad neu gadwyni cyflenwi.



## Targed Effaith Busnes

Gosododd y Llywodraeth darged i'w hun i leihau beichiau rheoleiddiol ar fusnesau gan £10 biliwn (Targed Effaith Busnes) dros oes y Senedd ddiwethaf. Pan osodwyd y targed, rhagwelwyd y byddai'r Senedd yn dod i ben yn 2020.

Yn debyg i bob rhan o'r llywodraeth, mae Cofrestrfa Tir EM wedi cynnal asesiadau effaith o'i holl newidiadau polisi er Mai 2015 i ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Mae newidiadau polisi Cofrestrfa Tir EM wedi arwain at arbed amser i drawsgludwyr ac amcangyfrifwn fod Cofrestrfa Tir EM wedi cyfrannu at leihau'r targed hwn gan o leiaf £500,000 cyn belled.

## Polisi a budd-ddeiliaid

Rydym yn sicrhau bod ein buddiannau yn cael eu cynrychioli'n briodol yn y wlad hon ac yn fyd-eang a bod pwysigrwydd cofrestru tir a'i fuddion yn cael ei bwysleisio i eraill. Mae ein hyb Polisi a Budd-ddeiliaid yn eistedd fel rhan o Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir, gan roi presenoldeb inni ar draws y llywodraeth a sefydliadau cyfatebol dramor.

Prif ffocws yr hyb dros y flwyddyn oedd arwain yr Adolygiad Strategol trawslywodraethol o Gofrestrfa Tir EM lle bu'n gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sefydliad ac adrannau eraill o'r llywodraeth ar bolisiau sy'n ceisio cwblhau'r Gofrestr Tir a chynyddu tryloywder yn y farchnad dai.

Yn dilyn y digwyddiad cyntaf i fudd-ddeiliaid yn 2015, cynhaliwyd digwyddiad eleni yn Nhachwedd 2016 yn y Gymdeithas Frenhinol yn Llundain gyda mwy o fudd-ddeiliaid yn bresennol o ystod eang o sefydliadau. Roedd yn bleser gennym groesawu'r Gweinidog oedd yn gyfrifol am Gofrestrfa Tir EM ar y pryd, sef Margot James AS.

Mae cynrychiolwyr o Gofrestrfa Tir EM yn ymgymryd â rolau ar amryw o fforymau rhyngwladol, gan gynnwys Nicky Heathcote Pwyllgor ar gyfer Tai a Rheoli Tir Comisiwn Economaidd Ewrop y Cenhedloedd Undeg (UNECE), Howard Bushell ar Weithgor UNECE ar Weinyddu Tir ac Andrew Trigg ar Fwrdd Rheoli EuroGeographics. Parhaodd Alasdair Lewis yn llywydd y Gymdeithas Cofrestrfa

Tir EM Ewropeaidd. Ar ôl gwasanaethu am bedair blynedd, daw ei gyfnod i ben ar 11 Mai 2017.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn rhan o gynghrair o gyrff proffesiynol rhyngwladol ac arbenigwyr lleol sy'n datblygu Safonau Mesur Tir Rhyngwladol (ILMS). Wedi'i lansio ym Mehefin 2016 mae ILMS yn ceisio gwella effeithlonrwydd adroddiadau tir a datblygiad economaidd trwy gynnig safonau egwyddorol er lles y cyhoedd, gan ganolbwyntio ar wybodaeth allweddol am dir i gryfhau hawliau tir, diogelwch tenantiaeth, buddsoddi, reffeniw'r llywodraeth a datblygiad economaidd.

I gefnogi polisi tramor Prydain rydym yn cynorthwyo gyda datblygiad gweinyddu tir dramor. Eleni cymerwyd rhan yng nghenhadaeth UNECE yn Kazakhstan, cenhadaeth wedi'i chyllido gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol i Zambia a chenhadaeth i India o dan Gronfa Ffyniant y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad.


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf croesawyd ymweliadau astudio addysgol ar gyfer cynrychiolwyr o sawl awdurdodaeth gan gynnwys Botswana, Tsieina, Malawi, Serbia a Zambia. Hefyd croesawyd ein Gweinidog newydd, yr Arglwydd Prior o Brampton, a'r Gweinidog Gwladol ar gyfer Tai ar y pryd Gavin Barwell i'n swyddfa yn Croydon ym mis Mawrth.


Ymatebwyd i 13 o Gwestiynau Seneddol ysgrifenedig a llafar am Gofrestrfa Tir EM a rhoddwyd cymorth i adrannau eraill gydag ymatebion i'w cwestiynau.

**Graham Farrant**

Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir

11 Gorffennaf 2017









# Adroddiad atebolrwydd

## Adroddiad llywodraethu corfforaethol

### Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Manylion cyfarwyddwyr a  
byrddau

#### **Bwrdd Cofrestrfa Tir EM**

Cylch gorchwyl Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yw cefnogi, cynghori, herio a darparu arweiniad. Mae'r Bwrdd yn sicrhau llywodraethu da ac atebolrwydd cyhoeddus, yn cymeradwyo strategaeth Cofrestrfa Tir EM ac yn helpu'r Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn ei brif gyfrifoldeb fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer llywodraethu a pherfformiad Cofrestrfa Tir EM.

Cymeradwywyd cylch gorchwyl Bwrdd Cofrestrfa Tir EM am y tro cyntaf yn 2012 a chafodd ei adolygu yn ystod 2015/16.

Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cwrrd yn ffurfiol tua 10 gwaith y flwyddyn, gyda chyfarfodydd ychwanegol fel a phryd y bo angen. Cyfarfu 11 gwaith yn 2016/17.

Mae'r Cadeirydd, y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes hefyd yn cynnal cyfarfodydd bob tri mis â Buddsoddiadau Llywodraeth y DU (UKGI).

#### **Aelodaeth Bwrdd Cofrestrfa Tir EM**

Michael Mire (Cadeirydd)	Cadeirydd Anweithredol (o 8 Awst 2016)
Tim Franklin	Aelod Anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (Cadeirydd Dros Dro o 1 Ebrill 2016)
Catrina Holme	Aelod Anweithredol
Gerard Connell	Aelod Anweithredol
Leo Geddes	Aelod Anweithredol (tan 30 Medi 2016)
Graham Farrant	Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
Claire Wren	Aelod Anweithredol (o 16 Ionawr 2017)
John Peaden	Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Catherine Vaughan	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes

Sylwer: mae Mike Westcott Rudd yn mynychu fel Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd.



Bwrdd Cofrestrfa Tir EM (o'r chwith i'r dde): Mike Westcott Rudd, Catherine Vaughan, Michael Mire, Graham Farrant, Catrina Holme, John Peaden, Tim Franklin, Claire Wren a Gerard Connell

### Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir a'i aelodau yw cyfarwyddwyr gweithredol Cofrestrfa Tir EM. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gyflenwi Cynllun Rheoli Blyneddol Cofrestrfa Tir EM ac am reoli gweithrediad y sefydliad o ddydd i ddydd. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob mis a chyfarfu 10 gwaith yn ystod y flwyddyn

### Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r pwyllgor yn cefnogi Bwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy geisio sicrwydd ar y fframwaith rheoli risg, y fframwaith rheolaeth, llywodraethu a chydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a safonau allanol a gofynion statudol.

### Y Pwyllgor Tâl ac Enwebu

Mae'r pwyllgor yn cytuno ar y strategaeth dâl ac yn awdurdodi'r adolygiad tâl blyneddol ar gyfer staff Uwch Wasanaeth Sifil Cofrestrfa Tir EM ac yn cytuno ar strategaeth ar gyfer dilyniant i Fwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Bwrdd Gweithredol.

### Cofrestr buddiannau

Mae cofrestr buddiannau yn cael ei chadw ym Mhrif Swyddfa Cofrestrfa Tir EM. Gweler nodyn 20 ar y cyfrifon am ddatgeliadau parti cysylltiedig.

### Aelodaeth o'r Bwrdd Gweithredol

Graham Farrant (Cadeirydd)	Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
Craig Lester	Prif Weithredwr Cynorthwyol (tan 31 Hydref 2016)
John Peaden	Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Alasdair Lewis	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir
Catherine Vaughan	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes
Caroline Anderson	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu
John Abbott	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol
Mike Westcott Rudd	Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd

### Mynychwyr

Nicky Heathcote	Pennaeth Swyddfa'r Prif Gofrestrydd Tir
-----------------	---

### Aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio

Tim Franklin (Cadeirydd)	Aelod Anweithredol
Gerard Connell	Aelod Anweithredol
Derrick Palmer	Aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio

### Mynychwyr

Graham Farrant	Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir
Catherine Vaughan	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes
Grahame Hughes	Pennaeth Archwilio Mewnol
Cynrychiolydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol	Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
Cynrychiolydd (cynrychiolwyr) UKGI	UKGI

### Aelodaeth o'r Pwyllgor Tâl ac Enwebu

Catrina Holme	Aelod Anweithredol
Gerard Connell	Aelod Anweithredol
Caroline Anderson	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu
Graham Farrant	Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir



Y Bwrdd Gweithredol: Mike Westcott Rudd, Alasdair Lewis, Caroline Anderson, Graham Farrant, Catherine Vaughan, John Abbott a John Peadar

**Digwyddiadau cysylltiedig â data personol**

Ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.

**Gwrthdaro buddiannau**

Ni adroddwyd unrhyw wrthdaro buddiannau.



# Atebolrwydd arall

## Iechyd a diogelwch

Rydym wedi parhau i ddatblygu'r system rheoli iechyd a diogelwch gynhwysfawr sydd gennym yn ei lle i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol, monitro digonolrwydd polisiau iechyd a diogelwch a hyrwyddo gwelliant parhaus ac ymwybyddiaeth yn y maes hwn.

Bu ffocws ar asesiadau risg yn y gweithle eleni a chynhaliwyd adolygiad llawn ac ail-lansiwyd asesiadau. Mae pecyn hyfforddi gyrru ar-lein newydd wedi cael ei gyflwyno ar draws y sefydliad ac mae pob aelod o staff wedi mynychu sesiynau briffio a chael cyngor ar y camau gweithredu i'w cymryd yn achos ymosodiad arfog ar un o'n hadeiladau neu fannau cyhoeddus.

Cyfanswm y damweiniau a adroddwyd gan staff Cofrestrfa Tir EM yn y gwaith oedd 117 gyda thri damwain wedi'u hadrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus.

Rydym wedi cadw ein hardystiad i OHSAS18001, y Safon Brydeinig ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch. Mae hyn wedi cael ei gynnal yn dilyn archwiliadau chwe misol gan aseswyr allanol ac mae'n rhoi sicrwydd ein bod yn parhau i gydymffurfio ag ymarfer gorau cydnabyddedig.

## Safonau gwasanaeth

Mae manylion am y gwasanaeth y gall cwsmeriaid ei ddisgwyl gennym ni i'w gweld ar ein gwefan: [www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/about-our-services.cy](http://www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/about-our-services.cy).

## Gwasanaeth Cymraeg

Mae gwybodaeth am ein gwasanaeth Cymraeg i'w gweld ar ein gwefan: [www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/welsh-language-scheme.cy](http://www.gov.uk/government/organisations/land-registry/about/welsh-language-scheme.cy).

## Cwynion

Cofnodwyd 2,464 o gwynion yn 2016/17 o'i gymharu ag 2,088 yn 2015/16.

Mae'r cynnydd hwn yn nifer y cwynion a gofnodwyd i'w briodoli'n bennaf i fwy o gysondeb wrth gofnodi adborth gan gwsmeriaid. Cafwyd cynnydd hefyd yn yr adborth ynghylch:

- ein cyflymder gwasanaeth ar rai mathau o geisiadau, sefyllfa gyffredinol y llwyth gwaith a rhoi gwybodaeth gyson i gwsmeriaid am yr hyn rydym yn ei wneud i leihau amserau prosesu; a
- phontio i ddarparwr masnachol newydd ar gyfer ein gwasanaethau sganio, prosesu a chyflenwi electronig, yn enwedig ynghylch oedi ac ansawdd.

At ei gilydd cyfran y cwynion a gafodd eu cadarnhau oedd 40%. Adborth gan gwsmeriaid am yr oedi wrth brosesu rhai ceisiadau cofrestru oedd y maes mwyaf cyffredin o gwynion a gafodd eu cadarnhau, gan ffurfio 27% o'r cyfanswm a gadarnhawyd.

Datblygwyd a chyflwynwyd offer a phrosesau electronig newydd ar gyfer cofnodi, adrodd a dadansoddi, cwynion er mwyn gwella ymhellach gysondeb ac ansawdd cofnodi adborth a rhoi mwy o wybodaeth. Roedd y gwaith o gyflwyno pecyn hyfforddi staff wedi'i ddiweddarau ar ddelio â chwynion a chofnodi cwynion wedi parhau yn ystod chwarter cyntaf 2016/17 i gynyddu ymwybyddiaeth ein pobl o bwysigrwydd dulliau effeithiol o drin a chofnodi cwynion.

Mae defnyddio ein teclyn Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid wedi hwyluso cyfleoedd pellach i ddysgu o adborth gan gwsmeriaid a gweithredu arno a gwella ein gwasanaeth yn gyffredinol. Mae enghreifftiau o hyn wedi cynnwys gwelliannu i'n:

- cyfarwyddyd a gwybodaeth ar-lein ar GOV.UK i wella ymhellach hwyluster llywio ac eglurder gwybodaeth ar rath mathau o geisiadau a ffioedd;
- cyfarwyddyd a phrosesau i ddarparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid o ran datrys eu hymholiadau/cwynion ynghylch ein gwasanaethau sganio, prosesu a chyflenwi electronig. Hefyd sicrhau bod y darparwr masnachol dan sylw yn gweithredu ar eu hadborth;
- gwybodaeth ar-lein ar amserau cwblhau cyfartalog gyda'r nod o fod yn fwy tryloyw ynghylch ein hamserau prosesu ar draws pob math o gais. Hefyd lansio gwasanaeth newydd i gwsmeriaid sydd am holi ynghylch cynnydd a gwneud cais i flaenoriaethu ceisiadau brys ar-lein, heb fod angen iddynt ein ffonio; ac
- e-wasanaethau busnes i wella ymhellach defnyddioldeb a hygyrchedd a chynyddu nifer y canlyniadau ceisiadau, hysbysiadau a dogfennau a gyflenwir yn electronig. Hefyd gwella'r ffordd rydym yn hysbysu cwsmeriaid bod canlyniadau eu ceisiadau ar gael.

## Digwyddiadau diogelwch

Mae diogelwch corfforol yn cael ei orchwyllo gan y Panel Diogelwch Corfforol a Phersonél. Cofnodwyd 55 o ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys un digwyddiad o bwys (Dosbarth 1).

## Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 4(6) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Cofrestrfa Tir EM i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon y cyfeirir ato yn nodyn 1.1. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail cronïadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM, ei hincwm a'i gwariant, newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn a llifoedd arian parod am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn arbennig:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a dilyn polisiau cyfrifyddu addas yn gyson;
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon rhesymol;
- datgan a yw safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth wedi cael eu dilyn, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon; a
- pharatoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol, lle bo'n briodol i wneud hynny.

Mae Trysorlys EM wedi penodi Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir EM fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y gronfa fasnachu. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol a gwarchod asedau Cofrestrfa Tir EM, i'w gweld yn y Memorandwm Swyddogion Cyfrifyddu a gyhoeddir gan Drysorlys EM ac yn *Rheoli Arian Cyhoeddus*.

Hyd y gwn i nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwiliwr yn ymwybodol ohoni, ac mae'r cyfarwyddwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi'i gymryd fel cyfarwyddwyr i wneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod yr archwiliwr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu cadarnhaf fod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon fel cyfanwaith yn rhoi darlun teg, cytbwys a dealladwy o berfformiad gweithredol ac ariannol Cofrestrfa Tir EM, a chymeraf gyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

# Datganiad Llywodraethu

## Maes cyfrifoldeb

Fel y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer Cofrestrfa Tir EM rwyf yn gyfrifol, gyda chyingor gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EM, am gynnal strwythurau llywodraethu corfforaethol sy'n ategu cyflawni nodau, amcanion a thargedau Cofrestrfa Tir EM, ac ar yr un pryd ddiogelu cronfeydd cyhoeddus ac asedau Cofrestrfa Tir EM.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn adran anweinidogol o'r llywodraeth, yn gronfa fasnachu ac yn asiantaeth weithredol. Darperir goruchwyliaeth weinidogol gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae fy nyletswyddau fel Swyddog Cyfrifyddu wedi'u hamlinellu yn Rheoli Arian Cyhoeddus. Rwyf yn atebol am berfformiad a stiwardiaeth, bydag arweiniad gan Fwrdd Cofrestrfa Tir EM, i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol sydd â'r cyfrifoldeb dyddiol wedi'i ddirprwyo i'r Is-ysgrifennydd Seneddol.

Mae'r prif ddyletswyddau sy'n ymwneud â chynnal y gofrestr o deitl i dir rhydd-ddaliol a phrydlesol a phridiannu wedi'u diffinio yn Neddf Cofrestru Tir 2002 ac mae'r rhai sy'n ymwneud â Phridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol wedi'u diffinio yn Neddf Pridiannau Tir 1975 a Deddf Credydau Amaethyddol 1928 (gweler yr Adroddiad Perfformiad).

Mae'r Ddeddf Seilwaith 2015 hefyd wedi ehangu cwmpas pwerau Cofrestrfa Tir EM gan ein galluogi i adeiladu ar y gwasanaethau eiddo rydym eisoes yn eu darparu. Mae'r ddeddfwriaeth hefyd yn darparu y bydd Cofrestrfa Tir EM yn dod yn awdurdod cofrestru ar gyfer y gofrestr Pridiannau Tir Lleol statudol yn lle awdurdodau lleol unigol a bydd yn dal y cofnodion hyn ar un gofrestr ddigidol.

## Pwrpas y fframwaith llywodraethu

Pwrpas y fframwaith llywodraethu yw rhoi sicrwydd bod Cofrestrfa Tir EM yn cyflawni ei dyletswyddau mewn ffordd sy'n bodloni'r safonau priodol o reolaeth fewnol a rheoli risg yn effeithiol. Mae'n seiliedig ar brosesau sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r cyfleoedd a'r risgiau i gyflawni strategaeth Cofrestrfa Tir EM, yr amcanion strategol a'r targedau perfformiad. Mae'r datganiad llywodraethu yn ceisio helpu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion.

Mae hefyd wedi'i gynllunio i gyfateb â nodau strategol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a'n dyletswyddau statudol fel y nodir yn ein *Dogfen Fframwaith 2012*, sy'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Mae'r fframwaith hwn wedi bod yn ei le drwy gydol 2016/17 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r cyfrifon. Bydd y *Ddogfen Fframwaith* newydd yn cydymffurfio â'r *Partneriaethau rhwng adrannau a chyrrff hyd braich: Cod Ymarfer 2017*.

## Elfennau allweddol o'r fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys:

- Llythyr Trysorlys EM yn penodi'r Swyddog Cyfrifyddu;
- *Dogfen Fframwaith 2012* (yn cael ei adolygu ar hyn o bryd);
- cylch gorchwyl a chofnodion Bwrdd Cofrestrfa Tir EM;
- cylch gorchwyl a chofnodion y Pwyllgor Archwilio;
- cylch gorchwyl a chofnodion y Pwyllgor Tâl ac Enwebu;
- cofnodion pwyllgor a phwyntiau cyfathrebu eraill;
- cymeradwyaeth weinidogol o gyfeiriad y daith a fynegir yn y Strategaeth Fusnes;
- dirprwyo'r gyllideb;

- llythyrau dirprwyo anariannol i aelodau'r Bwrdd Gweithredol;
- dirprwyo o awdurdodau ariannol sy'n ceisio adlewyrchu'r fframwaith allanol a osodwyd ac a ddiwygiwyd gan Swyddfa'r Cabinet, yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a Buddsoddiadau Llywodraeth y DU (UKGI); a
- phwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol dan arweiniad aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

Amlinellodd Strategaeth Fusnes 2013-2018 amcanion pum mlynedd. Mae'r strategaeth honno wrthi'n cael ei disodli yn sgil ymrwymadau'r llywodraeth ynghylch Cofrestrfa Tir EM yn Natganiad yr Hydref y Canghellor a'r Papur Gwyn Tai *Fixing our broken housing market*.

Bwriedir i'r strategaeth newydd sydd wrthi'n cael ei datblygu herio Cofrestrfa Tir EM i gyfrannu'n effeithiol at wella'r broses drawsgludo ac argaeledd tai ochr yn ochr â mentrau polisi eraill y llywodraeth. Mae'r amcanion hyn wedi cael eu gosod yn ychwanegol at yr ysgogwyr arferol i wella pob agwedd ar berfformiad busnes ac amlinellu uchelgais i fod y gofrestrfa tir fwyaf blaenllaw yn y byd ar gyfer cyflymder, symlrwydd a dull agored i ddata. Mae Cofrestrfa Tir EM hefyd yn ceisio cyflawni cofrestru cynhwysfawr erbyn 2030.

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi gosod saith dangosydd perfformiad allweddol i'w hunan yn 2016/17 ac mae wedi cyflawni'r targedau yn y rhan fwyaf o feysydd, gan gynnwys ansawdd prosesu ceisiadau safonol, cost yr uned, argaeledd ei gwasanaethau allanol a'i chyfraddau bodlonrwydd cwsmeriaid. Roedd Cofrestrfa Tir EM ond y dim i gyflawni ei thargedau perfformiad allweddol ar gyfer nifer yr unedau a broseswyd fesul person fesul



diwrnod a osodwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17, sydd wedi cyfrannu at fwy o oedi o ran cyflawni targedau cyflymder gwasanaeth a'r ôl-groniadau waith i'w brosesu. Mae'r ôl-groniadau hyn wedi cynyddu oherwydd amryw o ffactorau, gan gynnwys cyfran uwch na'r disgwyl o geisiadau cymhleth sy'n cymryd mwy o amser. Mae Cofrestrfa Tir EM yn parhau i wneud cynnydd cyson i roi sylw i hyn a chymryd mesurau i leihau ôl-groniadau hyd yn oed ymhellach. Mae hefyd yn creu mwy o effeithlonrwydd ar draws y sefydliad.

Roedd Cofrestrfa Tir EM ond y dim i gyrraedd ei thargedau ar gyfer ymgysylltiad â staff a chanfyddiad staff o'r arweinyddiaeth o fewn y sefydliad fel y'i mesurir yn erbyn arolwg bodlonrwydd staff blynyddol y Gwasanaeth Sifil a gynhelir bob hydref. Cynhaliwyd yr arolwg hwnnw yng nghyd-destun preifateiddio disgwylidig y sefydliad. Gan fod y statws sector cyhoeddus wedi cael ei gyhoeddi bellach, mae mwy o optimistaidd fel y dangosir yn yr arolygon mewnol diweddaraf. Rydym wedi parhau i wneud cynnydd rhagorol ar yr agwedd hon ac wedi rhagori ar y targed erbyn diwedd y flwyddyn, ond nid yn arolwg swyddogol y Gwasanaeth Sifil. Rydym yn parhau i herio ein hunain i gyflawni'r targed hwn yn arolwg y Gwasanaeth Sifil y flwyddyn ariannol nesaf.

## Bwrdd Cofrestrfa Tir EM

Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cydnabod pwysigrwydd arweinyddiaeth i greu amgylchedd lle mae perfformiad a risg yn cael eu rheoli'n effeithiol.

Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn cynnwys Cadeirydd Anweithredol, pedwar aelod anweithredol arall, gan gynnwys cynrychiolydd o UKGI a thri aelod o'r Bwrdd Gweithredol, sef fi fel y Prif Gofrestrydd Tir a Phrif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau. Mae Cynghorydd Cyfreithiol Bwrdd Cofrestrfa Tir EM hefyd

yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae strwythur y Bwrdd yn sicrhau cydbwysedd rhwng aelodaeth weithredol ac anweithredol. Yn ystod y flwyddyn, gweithredodd yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol fel Cadeirydd dros dro i gyflenwi yn y bwlch rhwng ymadawiad y Cadeirydd presennol (Mark Boyle) a dyfodiad y Cadeirydd newydd (Michael Mire).

Prif rôl Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yw cefnogi, cynghori, herio'n adeiladol a darparu arweiniad i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd Gweithredol. Dylai sicrhau hefyd bod Cofrestrfa Tir EM yn gweithio o fewn fframwaith o drefniadau a rheolaethau llywodraethu darbodus ac effeithiol sy'n cynnig modd asesu a rheoli risg yn briodol. Fel rhan o'r swyddogaeth honno, dylai Bwrdd Cofrestrfa Tir EM gymeradwyo'r gweithgareddau allweddol y bydd rhaid i Gofrestrfa Tir EM ymgymryd â nhw i fodloni'r amcanion statudol (a osodwyd yn y Cynllun Blynyddol a gyhoeddwyd ar GOV.UK), helpu'r Prif Weithredwr i sicrhau bod yr adnoddau ariannol ac adnoddau dynol angenrheidiol yn eu lle iddo fodloni'r amcanion hyn, ac adolygu perfformiad yn rheolaidd o ran targedau cytunedig a chyflenwi'r Cynllun Blynyddol cymeradwy. Dylai Bwrdd Cofrestrfa Tir EM hefyd gymeradwyo gweledigaeth a gwerthoedd Cofrestrfa Tir EM a sicrhau bod ei rhwymedigaeth i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a'i holl fudd-ddeiliaid (gan gynnwys cwsmeriaid, gweithwyr ac adrannau eraill o'r llywodraeth) yn cael eu deall a'u bodloni.

Mae'r aelodau anweithredol yn annibynnol ar reolaeth. Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o benodiadau cwmni neu drefniadau ymgynghoriaeth a allai greu gwrthdaro buddiannau posibl â'u cyfrifoldebau fel aelodau o'r Bwrdd.

## Pwrpas Bwrdd Cofrestrfa Tir EM

Yn unol â chanllawiau Swyddfa'r

Cabinet tasg Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yw cynghori ar bum prif faes, a'u goruchwyllo.

- Eglurder strategol.
- Synnwyr masnachol.
- Pobl dalentog.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Gwybodaeth rheoli.

Yn ystod 2016/17 cymeradwydd y Bwrdd:

- newidiadau i'r ffordd y mae'n gweithredu er mwyn gwneud defnydd gwell o arbenigedd i gefnogi penderfyniadau strategol;
- strategaeth ariannol tymor canolig a'r rhaglenni newid ffurfiol gan gynnwys y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol;
- y Strategaeth TGCh a'r cynigion ar gyfer Strategaeth Cwsmeriaid newydd;
- cynnydd yn erbyn y Rhaglen Drawsnewid;
- yr agwedd at faterion strategol pwysig sy'n effeithio ar gyflenwi a chynnwys y Strategaeth Fusnes;
- y rheolaethau ar gyfer diogelwch seiber a diogelwch data Cofrestrfa Tir EM;
- archwilio'r posibilrwydd ar gyfer cydweithio agosach rhwng Cofrestrfa Tir EM a'r Arolwg Ordnans; a
- sut y mae dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cyflwyno a sut y mae cynnydd Cofrestrfa Tir EM yn cael ei fesur yn eu herbyn.

## Pwyllgorau Bwrdd Cofrestrfa Tir EM

### Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynorthwyo Bwrdd Cofrestrfa Tir EM a'r Swyddog Cyfrifyddu drwy geisio sicrwydd drwy gyfrwng gwybodaeth ac adroddiadau ynghylch:

- y fframwaith strategol a'r broses ar gyfer rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu a'r datganiad llywodraethu hwn;
- y polisiâu cyfrifyddu, cyfrifon ac adroddiad blynyddol y sefydliad, gan gynnwys lefelau'r gwallau a nodwyd, a llythyr sylwadau'r rheolwyr at yr archwilwyr allanol;
- gweithgareddau seiliedig ar risg arfaethedig a chanlyniadau'r Archwiliad Mewnol a'r Archwiliad Allanol;
- digonolrwydd ymateb y rheolwyr i'r materion a godwyd gan weithgarwch archwilio, gan gynnwys llythyr rheolwyr yr Archwilwyr Allanol;
- sicrwydd ynghylch gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer y sefydliad;
- polisiâu gwrth-dwyll, prosesau'r chwythu chwiban a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig; a
- chydymffurfiaeth barhaus â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Ymarfer Proffesiynol Archwilio Mewnol a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Bydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'w gilydd ac yn adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i Fwrdd Cofrestrfa Tir EM.

Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys yr aelodau anweithredol Tim Franklin, Gerard Connell a Derrick Palmer (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio). Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Astudiaethau Busnes, Catherine Vaughan, Cynghorydd Cyfreithiol y a minnau yn mynychu'r cyfarfodydd hyn. Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol hefyd yn bresennol.

### Y Pwyllgor Tâl ac Enwebu

Mae aelodaeth o'r Pwyllgor Tâl yn cynnwys fi a'r swyddogion anweithredol Catrina Holme (Cadeirydd) a Gerard Connell, a derbynir cyngor gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu Caroline Anderson. Ei bwrpas yw sicrhau bod trefniadau tâl ac enwebu, gan gynnwys y strategaeth tâl uwch, yn cefnogi nodau Cofrestrfa Tir EM ac yn galluogi recriwtio, cadw a pherfformiad y tîm gweithredol. Cyfarfu tair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

### Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredu yn fy helpu i arwain a rheoli Cofrestrfa Tir EM i sicrhau bod yr amcanion a'r targedau busnes yn cael eu cyflawni, gweithrediad llwyddiannus Strategaeth Fusnes gymeradwy, cynlluniau blynyddol a chydymffurfio â'r *Ddogfen Fframwaith*. Trwy gyfrwng llythyrau dirprwyo unigol, mae aelodau o'r Bwrdd Gweithredol yn delio â'r gwaith o redeg Cofrestrfa Tir EM o ddydd i ddydd, gan gynnwys:

- monitro Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r gyllideb gyffredinol;
- rheoli risgiau i'r sefydliad;
- gwneud penderfyniadau ariannol;
- rheoli'r gronfa fasnachu;
- delio â phroblemau cwsmeriaid; ac
- uwchgyfeirio materion pwysig i Fwrdd Cofrestrfa Tir EM i'w hadolygu.

Rwy'n parhau i ddefnyddio'r Grŵp Arweinyddiaeth gyda rhai o'r rheolwyr haen gyntaf o dan lefel y bwrdd gweithredol i helpu i ffurfio a gweithredu ar rai o'r syniadau a'r manylion ar gyfer polisi a strategaeth ynghylch cofrestru tir a'i weithgareddau cysylltiedig a chefnogi'r rhaglenni newid. Cefais gyfarfodydd hefyd â'r Rhwydwaith Arweinyddiaeth Strategol sy'n cynnwys bron 100 o reolwyr canol ac uwch reolwyr bedair gwaith eleni i'w galluogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau strategol

a gwell cyfathrebu o fentrau strategol trwy'r sefydliad cyfan.

### Bwrdd Trawsnewid

Mae'r Bwrdd Trawsnewid wedi cael ei gyflwyno, yn gweithio'n effeithiol ac yn cael ei fonitro'n gyson.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Bwrdd Trawsnewid wedi blaenoriaethu dyrannu adnoddau i newid critigol. Mae wedi defnyddio fframwaith llywodraethu a gwneud penderfyniadau sy'n aeddfedu er mwyn deall blaenoriaethau busnes gyda gwell reolaeth, mwy o fonitro ariannol integredig trwy gysylltiadau gwell â'r timau Cyllid a dulliau llywodraethu gwell dros weithgareddau newid. Mae defnyddio model blaenoriaethu clir yn helpu'r Bwrdd Trawsnewid i adolygu'r blaenoriaethau yn erbyn nodau strategol y sefydliad ochr yn ochr â'r Adroddiad Portffolio estynedig sydd erbyn hyn yn olrhain effeithiau busnes a goblygiadau pobl. Mae Strategaeth Sicrwydd wedi cael ei rhoi ar waith i orchwyllo agwedd y Bwrdd Trawsnewid at ei waith ac adolygir pob un o'r cofrestru risg portffolio yn fisol yn dilyn deialog â phob rheolwr prosiect a rhaglen a'i grynhoi mewn adroddiad misol.

Mae'r gwaith a gwblheir yn cynnig dulliau olrhain gwell ar gyfer gweithrediad prosiectau a'r manteision a gafwyd. Mae'r rhain yn cynnwys yr arbedion ariannol a gafwyd trwy adleoli Swyddfa Coventry, lle y gwerthwyd offer swyddfa dros ben neu eu rhoi i achosion elusennol. Mae cyflwyniadau Grŵp Arweinyddiaeth chwarterol gan uwch berchnogion cyfrifol prosiectau yn caniatáu i'r Bwrdd Trawsnewid ac uwch arweinwyr eraill weld ehangder a chynnydd yr holl raglenni a phrosiectau. Mae hefyd yn tynnu sylw at ryngddibyniaethau a chyfleoedd rhwng prosiectau. Mae prosiect diweddar a gwblhawyd yn llwyddiannus wedi gweld lansio mewnrwyd newydd sy'n llawer mwy rhyngweithiol, yn hawdd i'w chwilio ac yn canolbwyntio mwy ar y defnyddiwr na'i ragflaenydd.

## Panel Llywodraethu Masnachol

Mae'r Panel Llywodraethu Masnachol yn darparu haen ychwanegol o lywodraethu mewnlol ar gyfer gwariant ar nwyddau a gwasanaethau allanol dros £100,000. Mae'r panel yn cefnogi dirprwyathau awdurdod Cofrestrfa Tir EM, gan ddarparu sicrwydd i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes a'r Swyddog Cyfrifyddu am yr holl wariant sydd wedi'i gynnwys o fewn ei derfynau gwariant, goruchwyllo dyfarniadau contract o bwys ac estyniadau i gontractau a newidiadau eraill. Mae'n sicrhau y bydd yr holl wariant a'r llwybr caffael arfaethedig yn darparu'r gwerth gorau am arian ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth caffael cyhoeddus a rheolaethau Swyddfa'r Cabinet.

Erbyn hyn mae'r corff yn cyflawni rôl werthfawr o ran dod ag eglurder i'r broses gaffael trwy ddefnyddio cynllun caffael blynyddol. Mae'r gwaith o graffu cynigion gwariant wedi arwain at agwedd fwy disgybledig a strategol at wneud penderfyniadau masnachol. Mae gwariant gwamal wedi cael ei ddileu ac mae 'gwerth am arian' wedi cael ei ailflaenoriaethu i ffafrio cost dros ansawdd gormodol. Yn ystod 2016/17 cyflawnwyd hyn trwy herio trefniadau masnachol arfaethedig. Mewn rhai achosion mae contractau sy'n cynnig gwerth gorau wedi cael eu hestyn i sicrhau buddion ar gyfer cyfnodau hwy. Mewn achosion eraill anogwyd cystadleuaeth mewn meysydd oedd â ffynhonnell sengl yn draddodiadol.

## Diwygio strwythurau pwyllgor

Ategir pwyllgorau'r Bwrdd Gweithredol gan amrywiaeth o baneli sy'n cael eu cadeirio gan uwch reolwyr. Roedd adolygiad blynyddol o ddulliau llywodraethu mewnlol a gwblhawyd yn Nhachwedd 2016 wedi cadarnhau gweithrediad effeithiol y paneli Llywodraethu Masnachol a Data. Cyflwynwyd y Panel Data yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf

i ddelio â materion megis agweddau trwyddedu ar waith y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth. Mae'r Panel Data hefyd yn chwarae rôl hollbwysig wrth gefnogi'n rhagweithiol ryddhau ein data fesul cam i gyflawni amcanion Data Agored a data llywodraeth arall i safonau ansawdd diffiniedig a gorchwyllo newidiadau i'r ffordd y caiff data ei gyhoeddi neu ei gyflenwi.

Arweiniodd gweithredu ar argymhellion o'r adolygiad llywodraethu mewnlol hwnnw at gyflwyno dau banel newydd yn ogystal â chreu Awdurdod Dylunio Pridiannau Tir Lleol newydd a gwella'r broses gwneud penderfyniadau trwy sicrhau bod cofnodion o'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth a'r Pwyllgor Diogelu'r Gofrestr yn cael eu copïo'n rheolaidd i'r Bwrdd Gweithredol. Ar hyn o bryd rydym yn adolygu'r ffordd orau o ymestyn cylch gorchwyl yr Awdurdod Dylunio i gefnogi'r rhaglen drawsnewid ehangach.

Bydd y Panel Sicrwydd newydd yn darparu goruchwyliaeth annibynnol ar gyfer ansawdd y gwaith a wnawn i greu a diweddarau ein cofrestr a hefyd yn gwella goruchwyliaeth ar gyfer ein prosesau monitro risg cyfarwyddiaeth ac ehangder materion llywodraethu a gwmpasir gan y datganiad hwn. Bydd Panel Seiber newydd yn dwyn ynghyd arbenigwyr ar draws rhannau amrywiol o'r sefydliad i ddarparu goruchwyliaeth gyfannol ar gyfer ein gwaith i ddeall y risg seiber strategol a rheoli'n rhagweithiol y bygythiadau seiber i argaeledd a chywirdeb ein cofrestr a'r data personol am staff a chwsmeriaid sydd gennym. Mae'r ddau banel hyn wedi'u corffori yn y Fframwaith Llywodraethu diwygiedig.

## Datganiad ar ddiweddarau'r strategaeth

Mae manylion am y cynnydd a wnaed yn erbyn y targedau strategol i'w gweld yn yr *Adroddiad perfformiad*, gan gynnwys y pum carreg filltir sy'n cyfrannu at strategaeth y flwyddyn hon. Yn ogystal â'r cerrig

milltir hyn datblygwyd Achos Busnes Amlinellol y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol fel y disgrifir isod.

Y llynedd diwygiais y weledigaeth a'r gwerthoedd ar gyfer Cofrestrfa Tir EM i ddarparu cyd-destun strategol gwell ar gyfer ein gweithrediadau ac i gefnogi staffio. Erbyn hyn mae'r staff i gyd wedi cael eu briffio'n briodol drwy amryw o ddulliau, gan gynnwys prif raglen gyfathrebu o'r enw *Cyflawni ein Strategaeth Fusnes*, a geisiai ymgysylltu â phob aelod o staff trwy saith modiwl rhyngweithiol seiliedig ar y we a sesiwn grŵp wyneb yn wyneb wedi'i chadeirio gan uwch reolwyr i'w helpu nhw i gyd i ddeall yr egwyddorion sy'n sail i'r strategaeth.



Manylion presenoldeb ar gyfer Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Tâl

	<b>Teitl</b>	<b>Cyfnod</b> (penodiad yn ymwneud â'r flwyddyn adrodd gyfan oni nodir fel arall)	<b>Bwrdd</b> Bwrdd Cofrestrfa Tir EM	<b>Pwyllgor</b> Archwilio	Tâl
<b>Anweithredol</b>					
Gerard Connell	Aelod Anweithredol		10/11	3/4	3/3
Tim Franklin	Aelod Anweithredol (ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol)	Cadeirydd Dros Dro 1.4.16 i 7.8.16	11/11	4/4	3/3
Leo Geddes <sup>1</sup>	Aelod Anweithredol UK Government Investments	Penodiad wedi dod i ben 30.9.16	5/5	–	–
Catrina Holme	Aelod Anweithredol		9/11	–	3/3
Michael Mire	Cadeirydd Anweithredol	O 8.8.16	6/7	–	–
Derrick Palmer	Aelod Anweithredol (Pwyllgor Archwilio)		–	4/4	–
Claire Wren <sup>1</sup>	Aelod Anweithredol UK Government Investments	O 16.1.17	1/2	–	–
<b>Gweithredol</b>					
Graham Farrant	Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir		11/11	4/4	3/3
Craig Lester <sup>2</sup>	Prif Weithredwr Cynorthwyol	Penodiad wedi dod i ben 31.10.16	3/4	–	–
John Peaden	Cyfarwyddwr Gweithrediadau		10/11	4/4	–
Catherine Vaughan	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes		10/11	4/4	–
Caroline Anderson	Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu		–	–	3/3
Mike Westcott Rudd <sup>3</sup>	Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd		10/11	4/4	–

1. Cafodd UK Government Investments ei gynrychioli ym mhob un o gyfarfodydd Bwrdd Cofrestrfa Tir EM.
2. Mynychodd Craig Lester fel sylwedydd.
3. Mae Mike Westcott Rudd yn mynychu fel Cynghorydd Cyfreithiol i'r Bwrdd.

### Datganiad ar benderfyniad gweinigodol

Yn yr Adolygiad Gwariant a Datganiad yr Hydref 2015, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bwriad i “ymgyngori ar yr opsiynau i symud gweithrediadau

Cofrestrfa Tir EM i'r sector preifat o 2017”, ac ailadroddwyd yr ymrwymiad hwnnw yn y Gyllideb ym Mawrth 2016. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 24 Mawrth 2016 a daeth i ben ar 26 Mai 2016. Disgwylir i ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi ond gwnaethpwyd y datganiad canlynol yn Natganiad yr Hydref 2016.

“Yn dilyn ymgynghoriad mae'r

llywodraeth wedi penderfynu y dylai Cofrestrfa Tir EM ganolbwyntio ar fod yn fusnes cofrestru seiliedig ar ddata mwy digidol, ac er mwyn gwneud hyn bydd yn parhau yn y sector cyhoeddus. Bydd moderneiddio yn sicrhau gwerth mwyaf Cofrestrfa Tir EM i'r economi, a dylai gael ei gwblhau heb fod angen am fuddsoddiad mawr gan y trysorlys.”

Ers y cyhoeddiad hwnnw, mae Cofrestrfa Tir EM wedi cynnal adolygiad strategol o'i chynlluniau i sicrhau ein bod yn parhau i chwarae ein rhan wrth wireddu agenda'r Llywodraeth. Ar 7 Chwefror 2017, cyhoeddodd yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol y Papur Gwyn Tai sy'n amlinellu yn fanwl agenda dai'r Llywodraeth ac yn ymrwymo Cofrestrfa Tir EM i anelu at gael cofrestr gynhwysfawr erbyn 2030. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth yn ystyried cymryd camau i wella gwelededd gwybodaeth sy'n ymwneud â'r trefniadau a ddefnyddir i arfer rheolaeth dros dir. Fel rhan o hynny, bydd y Llywodraeth yn ystyried sut y gall y Gofrestr Tir adlewyrchu'n well yr holl fuddiannau mewn tir gyda'r nod pennaf o ddarparu "llwybr clir" ar draws darn o dir gan amlinellu perchnogaeth, rheolaeth a buddiannau.

**Pridiannau Tir Lleol – datganiad ar lywodraethu**  
Mae Deddf Seilwaith 2015 yn darparu'r sail sy'n galluogi Cofrestrfa Tir EM i fod yr awdurdod cofrestru a dal y gofrestr Pridiannau Tir Lleol statudol yn lle'r 326 awdurdod lleol yn Lloegr. Rwy'n fodlon bod y trefniadau llywodraethu a rheoli risg ar gyfer y rhaglen yn briodol ac yn gymesur. Seiliaf y casgliad hwn ar adroddiadau'r Awdurdod Prosiect (IPA) (yr Awdurdod Prosiectau Mawr gynt) a roddodd radd ambr Asesiad Hyder Cyflenwi i'r rhaglen yn Nhachwedd 2016 gydag 11 o argymhellion i helpu Cofrestrfa Tir EM i baratoi ar gyfer cyflenwi. Mae Cofrestrfa Tir EM yn rhoi sylw i'r argymhellion hynny ac yn adolygu cynnydd yn eu herbyn bob mis. Derbyniaf adroddiadau cynnydd a sicrwydd hefyd gan uwch berchennog cyfrifol y rhaglen. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno adroddiadau misol i Fwrdd Rhaglen Pridiannau Tir Lleol ac adolygiad llawn o'r holl risgiau, gan gynnwys y risg strategol gysylltiedig bob chwarter.

## Gwybodaeth am ansawdd data

Mae Panel Perfformiad o uwch reolwyr a sefydlwyd yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn gwella dulliau craffu perfformiad sefydliadol ac yn arwain datblygiadau i wneud defnydd gwell o'r data perfformiad sydd ar gael. Erbyn hyn mae perfformiad yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Gweithredol bob mis gyda'r deallusrwydd ychwanegol a geir trwy adolygiad blaenorol gan y Panel Perfformiad.

Mae perfformiad ariannol yn cael ei fonitro a'i adrodd trwy ddefnyddio adroddiadau misol yn seiliedig ar ein system ariannol. Yn ystod y flwyddyn cyflwynais adroddiadau "ffigurau ciplun" misol sy'n rhoi syniad cynnar o'r sefyllfa ar ddiwedd y mis cyn cyhoeddi'r adroddiadau ariannol misol llawn. Ceir gweithdrefn ar gyfer gosod cyllidebau blynyddol ac adolygu perfformiad ariannol a rhagolygon blwyddyn gyfan. Mae adolygiadau rhagolygon chwarterol yn weithredol gan roi goruchwyliaeth a sicrwydd priodol i'r Bwrdd Gweithredol a Bwrdd Cofrestrfa Tir EM ac mae diweddariadau misol yn cael eu darparu trwy adroddiad misol y Prif Weithredwr i Fwrdd Cofrestrfa Tir EM.

Mae Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu nifer o fodelau sy'n hanfodol i'w busnes craidd. Mae'r rhain yn cynnwys modelau i ragfynegi gwaith ac incwm ffoedd; model rhagfynegi gweithredol ar gyfer y llwyth gwaith, adnoddau a'r ôl-groniad; modelau i gefnogi adroddiadau rheolaeth ac ariannol safonol. Mae'r modelau hyn yn destun herio a rhagolygon ac yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol a Bwrdd Cofrestrfa Tir EM a'u hadolygu ganddynt. Yn ystod y flwyddyn ychwanegwyd model ariannol newydd a gafodd ei greu i fewnbynnu i achos busnes y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol.

Yn ystod y flwyddyn defnyddiwyd offer modelu a chynllunio gweithredol diwygiedig (ar gyfer rheolaeth y sefydliad gyda'r

bwriad o wella cynllunio ar gyfer dyrannu adnoddau i lwyth gwaith a gwerthuso'r gofyniad adnoddau yn well sy'n gysylltiedig â'r niferoedd gwaith a ragfynegir a chyllidebau pobl) ond nid oedd yr offer mor gadarn ag y mae gofyn iddo ei fod. Mae gwaith wedi dechrau ar wella'r model adnoddau gweithredol manwl hwn i roi sylw i'r gwendidau sydd wedi dod i'r amlwg trwy ei ddefnyddio.

## Chwythu'r chwiban – datganiad o drefniadau a chanlyniadau

Aelod nawdd y Bwrdd Gweithredol yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol. Ni adroddwyd unrhyw achosion chwythu'r chwiban newydd eleni. Yn ystod 2016/17 roedd y broses chwythu'r chwiban yn destun adroddiad Archwiliad Mewnol ac mae'r argymhellion o'r archwiliad hwnnw wedi cael eu gweithredu'n llawn. Roedd yr archwiliad wedi canfod er bod y polisi a'r gweithdrefnau chwythu chwiban yn cydymffurfio â pholis ac arferion gorau y llywodraeth, roedd angen gwneud mwy i sicrhau bod staff a rheolwyr llinell yn ymwybodol o'r polisi ac mae camau gweithredu wedi cael eu cymryd bellach i sicrhau hynny.

## Risg

### Fframwaith ar gyfer rheoli risg

Mae Cofrestrfa Tir EM yn dilyn egwyddorion rheoli risg Llyfr Oren Trysorlys EM. Mae'r egwyddorion hyn wedi ffurfio elfen allweddol wrth sefydlu fframwaith, strategaeth a safon rheoli risg newydd a ddatblygwyd yn ystod 2015/16. Mae'r newidiadau arwyddocaol hyn, sy'n ceisio sicrhau llif dwyffordd rheoledig a chyson o risgiau rhwng lefel strategol a chyfarwyddiaeth, wedi cael eu gweithredu mewn camau cynlluniedig dros y ddwy flynedd diwethaf, ac mae'r camau olaf yn cael eu gweithredu bellach, gyda chofrestr risg sengl wedi'i sefydlu eleni ar gyfer pob cyfarwyddiaeth ar wahân i Systemau Gwybodaeth y mae eu risgiau yn cael eu hychwanegu ar hyn o bryd. Wedi hyn rhoddir sylw i integreiddio ymhellach manylion ystyriaethau risgiau rhaglen a phrosiect i'r

cynllunio risg cyfarwyddiaethau a strategol mwy tryloyw.

Mae Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, y Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio i gyd yn ystyried risgiau strategol. Mae Cynghorydd Cyfreithiol Bwrdd Cofrestrfa Tir EM yn gweithredu fel hyrwyddwr risg y Bwrdd Gweithredol. Adolygir risgiau strategol bob chwarter a chyfeirir newidiadau allweddol at sylw'r Bwrdd Gweithredol; yn ogystal mae adolygiad risg mwy trwyadl yn cael ei gwblhau bob chwarter, wedi'i hwyluso gan y Rheolwr Risg. Mae dangosyddion blaenllaw yn cael eu monitro i roi rhybudd cynnar o newidiadau yn y risg strategol a gweithredir arnynt.

### **Risgiau strategol a rhaglen allweddol**

Gwnaethpwyd gwelliannau mawr i'r ffordd rydym yn rheoli ein risgiau strategol allweddol dros y flwyddyn ddiwethaf gan ddarparu trosolwg mwy cyfannol o'r risgiau strategol sydd wedi'u halinio'n well i'r risgiau cyfarwyddiaeth a phrosiect lefel is. Ceir 14 risg strategol ar hyn o bryd. Erbyn hyn ceir pwyslais mawr ar y risgiau yn ymwneud â seiberddiogelwch, cynllunio ariannol a systemau gwaddol.

Y flaenoriaeth fwyaf eleni oedd ein risg i bobl yn sgil yr heriau roeddem wedi'u hwynebu ac rydym yn dal i'w hwynebu gyda chynllunio ar gyfer olyniaeth a recriwtio. Mae effaith y risg hon wedi cael ei rheoli'n rhagweithiol trwy gyflwyno ein Strategaeth Pobl a Strategaeth Ystadau, ynghyd â datblygu ein cynllun recriwtio tactegol, gan ein rhoi mewn sefyllfa llawer cryfach i lenwi swyddi gwag allweddol. Mae sefydlogrwydd yn y Tîm Gweithredol wedi cael ei gynnal hefyd trwy 2016/17.

Yn ogystal â'r risgiau strategol, mae'r Bwrdd Trawsnewid yn cynnal ac yn adolygu cofrestr risg ar draws y gyfarwyddiaeth sy'n ymwneud â gwireddu mentrau newid Cofrestrfa Tir EM. Mae Bwrdd Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn cynnal ac yn adolygu'n rheolaidd gofrestr risg debyg ar

gyfer y Rhaglen Pridiannau Tir Lleol.

### **Fframwaith ar gyfer rheolaeth a rheoli risg**

Mae gwerthuso risgiau ail haen ar lefel y gyfarwyddiaeth wedi canfod risgiau allweddol ynghylch y gwaith sy'n aros i'w wneud a heriau pobl yn ymwneud â hyfforddiant a datblygiad ar gyfer ein recriwtiaid a'n prentisiaid newydd. Mae'r risgiau hynny yn cael eu monitro'n ofalus ac yn cael eu bwydo i mewn i'n Strategaeth Fusnes ddiwygiedig. Mae perthynas gefnogol a deinamig yn cael ei chynnal rhwng y Pennaeth Rheoli Risg a budd-ddeiliaid busnes.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu rwy'n goruchwylio'r risgiau strategol ac yn ceisio sicrwydd ar reolaeth risg y gyfarwyddiaeth er mwyn cael cyfle i uwchgyfeirio. Mae systemau rheoli risg yn ceisio bod yn gymesur ac yn effeithiol o ran risgiau perthnasol. Mae'r Strategaeth Rheoli Risg yn sicrhau bod risgiau yn cael eu lliniaru'n effeithiol ar bob lefel yn y sefydliad.

Caf fy sicrhau hefyd gan waith y Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth, y Pwyllgor Diogelu'r Gofrestr, y Pwyllgor Pobl a'r Panel Iechyd a Diogelwch, sydd i gyd yn chwarae rhan allweddol yn y matrices rheoli risg cyffredinol. Mae'r gwaith o reoli'r risgiau ariannol, risg gwybodaeth, risg i'r Gofrestr Tir, risg o dwyll a dyletswyddau iechyd a diogelwch a statudol yn cael eu rheoli gan y pwyllgorau hyn a'u huwchgyfeirio ataf fel y bo'n briodol, yn ôl disgrisiwn y cyfarwyddwr perthnasol ar gyfer pob pwyllgor, ond eu llywio gan eu llythyrau dirprwyo.

Caf fy hysbysebu ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau gweithredol i reoli risg, diogelu asedau a sicrhau'r defnydd effeithiol o adnoddau trwy fframwaith o reolaethau sy'n cynnwys adrodd ar lefel leol a sefydliadol. Mae gwybodaeth am berfformiad wedi'i strwythuro i sicrhau bod y materion y mae

angen i'r rheolaeth weithredu arnynt yn cael eu hadrodd yn briodol.

### **Risg gwybodaeth a seiber**

Mae risg gwybodaeth yn cael ei reoli drwy'r Pwyllgor Rheoli Gwybodaeth o dan arweiniad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth a Chynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd. Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn cael sicrwydd gan y manylion risg gwybodaeth sy'n cael eu darparu gan ein Perchnogion Asedau Gwybodaeth a disgrifiadau o asedau wedi'u dogfennu'n llawn. Mae ein Proses a Pholisi Rheoli Risg i Systemau Gwybodaeth wedi cael eu harchwilio, eu dilysu a'u harchebu trwy CMMI, ISO20000 ac ISO27001 ac Offer Asesu Gallu Seiberamddiffyn Swyddfa'r Cabinet. Caf fy sicrhau trwy achrediad mewn perthynas â Chod Cysylltiad y Rhwydwaith Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Model Aeddfedrwydd Sicrwydd Gwybodaeth lle mae ein sgoriau wedi gwella gan gynnwys ymysg cyflenwyr allanol lle mae 74% o gyflenwyr yn cyrraedd aeddfedrwydd lefel 3.

### **Diogelu gwybodaeth**

Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau'r lefelau priodol o'r modiwl Cyfrifol am Wybodaeth ar Civil Service Learning yn flynyddol. Yn 2016/17 ychwanegwyd at yr addysg Cyfrifol am Wybodaeth hon gyda deunyddiau mewnlol ychwanegol i wella ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chydweithredu yn y cwmwl a'r e-byst a anfonir at gyfrifon anniogel. Mae hefyd yn ofynnol i gontractwyr lofnodi cytundeb peidio â datgelu.

Cawsom ardstiad i ISO27001, y safon ryngwladol ar gyfer rheoli diogelwch gwybodaeth, am bron i 14 mlynedd. Mae'r safon yn gweithio ar gylch ailardystio tair flynyddol a chawsom ein hailardystio ym Mawrth 2017.

Mae'r safon yn gynhwysfawr ac yn cynnwys diogelwch TG, diogelwch corfforol, rheoli gwybodaeth, parhad busnes a rheoli risg.



**Colli data**

Ni chafodd unrhyw ddigwyddiadau cysylltiedig â data personol eu hadrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn.

**Ymateb i adolygiad cydymffurfiaeth treth Cyllid a Thollau EM (HMRC)**

Yn ystod y flwyddyn cwblhaodd HMRC ei archwiliad o gofnodion Cofrestrfa Tir EM i sicrhau bod y sefydliad yn bodloni ei rhwymedigaethau treth fel cyflogwr. Cafodd y berthynas â HMRC ei rheoli'n rhagweithiol, gan roi'r holl wybodaeth a data i'r archwiliwr mewn modd amserol a rhagweithiol. Cytunwyd ar rwymedigaeth treth ôl-weithredol un-tro o £555,277.36 (£544,048 ynghyd â thaliadau llog o £11,172).

Gellir lleihau cosbau HMRC yn seiliedig ar sut mae'r sefydliad yn ymateb i'r archwiliad a sut y mae'n unioni'r materion a nodwyd. Gallaf adrodd fod HMRC wedi cytuno y dylai'r lleihad mwyaf posibl gael ei gymhwyso er mai'r gosb fwyaf sy'n daladwy yw 15% o'r dreth o'r cyfraniadau treth ac Yswiriant Gwladol, gohiriwyd y taliad hwn wrth i newidiadau rhagweithiol gael eu rhoi ar waith ar y gyfres bresennol o bolisiau a gweithdrefnau. Mae'r fethodoleg a gynlluniwyd gan Gofrestrfa Tir EM wedi cael ei dyfynnu gan HMRC fel ymarfer gorau. Rydym wedi crynhoi'r agwedd hon a'i throsglwyddo i HMRC ac adrannau eraill i'w defnyddio. Rydym hefyd wedi cyflwyno proses monitro ac archwilio ar gyfer teithio a chynhaliaeth, gan gynnwys goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Pobl, i sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

**Ymateb i Adolygiad Alexander a'r cyfarwyddyd ar gyfer contractwyr oddi ar y gyflogres a phrosesau recriwtio diwygiedig**

Mae Cofrestrfa Tir EM yn parhau i fonitro'r systemau a gweithdrefnau sy'n ymwneud â chontractwyr oddi ar y gyflogres i gydymffurfio â'r gofynion newidiol a rhoi sicrwydd bod yr holl gontractwyr a ddefnyddir gan Gofrestrfa Tir EM yn cydymffurfio

â rheoliadau treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol priodol. Caf fy sicrhau bod pob un o'n haelodau staff uchaf ar y gyflogres bellach a'n bod yn cydymffurfio ag Adolygiad Alexander yn hyn o beth.

Mae fy Nghyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol yn gyfrifol am gontractwyr oddi ar y gyflogres. Cânt eu cefnogi gan oruchwyliaeth agos yr Adran Gyllid sy'n cysylltu â'r holl gontractwyr perthnasol i gael sicrwydd ar adegau priodol. Mae craffu ar yr oruchwyliaeth wedi cael ei dirprwyo imi fel y Swyddog Cyfrifyddu yng Nghofrestrfa Tir EM.

Caf fy sicrhau gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu bod gan Gofrestrfa Tir EM brosesau cadarn yn eu lle bellach i fonitro'r holl gontractwyr oddi ar y cyflogwr a cheisio'r sicrwydd treth a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol perthnasol ar sail dreigl ac ar gyfer addasu'r trefniadau cyflogres newydd a gaiff eu cyflwyno ar 1 Ebrill 2017.

Cafodd y broses hon sicrwydd sylweddol gan Archwiliad Mewnol yn Ebrill 2017. Daeth i'r casgliad fod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion yr Adran Busnes Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol a deddfwriaeth treth newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Camau a gymerwyd i wella cyflymder gwasanaeth**

Fel y digwyddodd yn y flwyddyn ariannol flaenorol, mae Cofrestrfa Tir EM wedi parhau i brofi lefelau sylweddol uwch o waith yn uwch na'r lefel a ragwelwyd fesul mis yn ystod 2016/17, er gwaetha'r rhagfynegiadau ôl Brexit o lai o weithgarwch yn y farchnad dai. Un canlyniad y lefelau uchel parhaus yn y gwaith fu lleihad arafach na'r disgwyl yn lefelau'r gwaith sydd heb ei gwblhau o fewn ein targedau cyflymder gwasanaeth. Roedd y cynlluniau ar gyfer 2016/17 wedi'u hanelu'n

benodol at fodloni safonau gwasanaeth mewnol newydd ac ôl-groniad i ddim mwy na gwerth saith diwrnod gwaith o niferoedd gwaith erbyn Mawrth 2017.

Mae diffygion o ran adnoddau staff ar y rheng-flaen wedi gwella rywfaint trwy recriwtio 300 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn yn hanner gyntaf y flwyddyn ac yna recriwtio staff pellach ar benodiadau cyfnod sefydlog yn Ionawr 2017. Dros y misoedd nesaf, caiff y rhan fwyaf o'r gweithwyr ar gontractau cyfnod penodol hynny eu cadw am gyfnod pellach y tu hwnt i gyfnod cychwynnol eu contractau, a bydd angen carfan bellach o brentisiaid yn chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd prentisiaid yn yr ail garfan yn yr Adran Gweithrediadau (prentisiaethau y disgwylir iddynt aeddfedu yn Hydref/Tachwedd 2017) eu cadw hefyd fel gweithwyr parhaol.

Er ein bod yn cyflogi mwy o staff bellach i'n helpu i ddarparu ein gwasanaethau, rydym wedi defnyddio dulliau i'n galluogi i amrywio ein gofynion staffio yn y dyfodol trwy ddefnyddio penodiadau dros dro a chyfnod sefydlog a chyflogi prentisiaid.

Mae agwedd integredig at gynllunio busnes a chyllidebu yn 2017/18 wedi cynnig modd inni ganolbwyntio mwy ar adeiladu ffigur sefydliad 2017/18 i ateb anghenion busnes ac mae cynllun tactegol am y flwyddyn i ddod yn cael ei greu. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gennym ni'r staff pan fydd eu hangen arnom heb gynyddu'r cyfrif pennau parhaol. Yn ychwanegol, mae gwaith wedi cael ei flaenoriaethu ar ddigideiddio ein trafodion symlaf er mwyn eu trin yn electronig, gan ryddhau mwy o staff gwaith achos i brosesu'r ceisiadau mwy cymhleth.

Er gwaetha'r mesurau hyn, ni fu modd inni gyrraedd y targedau ond rydym yn parhau i geisio lleihau'r ôl groniad a datblygu cynlluniau i reoli hyn yn y dyfodol.

## **Ymglyfreitha (achosion tribiwnlys)**

Ni chafwyd unrhyw achosion yn 2016/17.

## **Ffynonellau sicrwydd**

### **Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau (Pridiannau Tir Lleol)**

Mae'r Rhaglen Pridiannau Tir Lleol yn rhaglen bwysig sy'n ddarostyngedig i adolygiad gan Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau'r Llywodraeth. Mae drafft cyntaf yr achos busnes rhaglen yn cael ei ystyried.

Yn Nhachwedd 2016, cynhaliodd yr Awdurdod Seilwaith a Phrosiectau'r Adolygiad Gateway 0 gan arwain at Asesiad Hyder Cyflenwi ambr. Roedd hyn yn adeiladu ar yr Adolygiad 'Sicrwydd Gweithredu' a gynhaliwyd yn Ionawr 2016 oedd hefyd wedi rhoi Asesiad Hyder Cyflenwi Ambr, gan wella ar yr asesiad coch/ambr a roddwyd yn Awst 2015 wrth inni symud ymlaen i ddatblygu ein cynlluniau.

### **Seiberamddiffyn**

Fel rhan o oruchwyliaeth y llywodraeth ganolog o faterion seiberddiogelwch, crëwyd Swyddfa Seiberddiogelwch a Sicrwydd Gwybodaeth i gefnogi'r Cyngor Diogelwch Gwladol i benderfynu ar y blaenoriaethau o ran diogelu'r seiberofod. Yn Nhachwedd 2015 dechreuodd Cofrestrfa Tir EM weithio gyda nhw fel rhan o raglen seiberddiogelwch ar y cyd y llywodraeth. Arweiniodd hyn at yr adolygiad cyntaf erioed o'n sefyllfa seiberddiogelwch gan ddefnyddio Offer Teclyn Asesu Galluogrwydd Seiberamddiffyn ar gyfer y data seilwaith cenedlaethol hanfodol sydd gennym. Mae'r data hwnnw yn cynnwys y Gofrestr Tir, cofrestr Methdaliad a Phridiannau Tir a'r cofrestr Credydau Amaethyddol.

Wedi'i feincnodi eisoes i fod yn y chwartil uchaf, mae asesiad allanol dilynol gan ddefnyddio Teclyn Asesu Galluogrwydd Seiberamddiffyn wedi cadarnhau bod cynnydd sylweddol wedi cael

ei wneud o ganlyniad i'r Prosiect Seiberddiogelwch y disgwylir iddo gael ei gwblhau ym Mehefin 2017. Bydd y Panel Seiber newydd ei greu yn gyfrifol am oruchwyliaeth gyfannol o'n mentrau parhaus i wella yn erbyn gofynion cynyddol y broses asesu allanol hon, a'u cynnal wrth inni ddigideiddio ein gwasanaethau a'n cynhyrchion. Bydd y Panel Seiber hefyd yn goruchwyllo ein cynlluniau i wella ein dealltwriaeth o fygythiadau seiber o fewn pob lefel o'n gweithdrefnau, prosesau ac ar draws ein gwaith trwy ein staff parhaol a dros dro, contractwyr, cyflenwyr a phartneriaid er mwyn inni allu sicrhau yr ystyrir y tirlun bygythiad seiber ar draws pob lefel a math o benderfyniadau. Bydd hyn yn cynnwys buddsoddi mewn rhaglenni hyfforddiant ac addysg seiber pwrpasol yn ogystal â defnyddio canllawiau llywodraeth ganolog, adnoddau addysgol a rhwydweithiau a gweithgareddau asesu mewnol rhwng ein hasesiadau allanol ffurfiol. Rydym eisoes wedi datblygu gallu mewnol i gynnal yr asesiadau hynny.

### **Rheolaethau canolog**

Fy rôl i fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yw ymgymryd â rôl y Prif Gofrestrydd Tir y cyfeirir ato yn Neddf Cofrestru Tir 2002, Deddf Pridiannau Tir 1972 a Deddf Credydau Amaethyddol 1928 a Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975 fel y'u diwygiwyd gan Ddeddf Seilwaith 2015. Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am gadw'r cofrestr i sefydlwyd at ddibenion y Deddfau hynny ac mae ganddo'r holl bwerau, cyfrifoldebau a dyletswyddau a roddir ac a osodir ar y cofrestrydd gan y Deddfau hynny a chan y rheolau a deddfwriaeth eilaidd arall a wneir oddi danynt. Wrth ymgymryd â'r swyddogaethau gweithredol penodol hynny nid yw'r Prif Weithredwr yn ddarostyngedig i unrhyw reolaeth neu gyfeiriad gweinidogol, er ei fod yn ddarostyngedig i oruchwyliaeth gan y llys trwy'r awdurdodaeth adolygu barnwrol.

Er gwaethaf y fframwaith cydestunol hwnnw, mae Cofrestrfa Tir EM hefyd yn gweithredu o fewn y fframwaith dirprwyaethau fel y'i diffinnir gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer cyrff hyd braich a'r dirprwyaethau penodol a awdurdodir gan swyddogion yn yr Adran Busnes Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae gofyniad hefyd i weithio gyda Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth i sicrhau bod cynnyrch a ryddheir yn cydymffurfio â'r safonau o ran diogelwch, effeithiolrwydd a chysondeb. Cyn i gynhyrchion gael eu rhyddhau fel betas mae'n rhaid i Gofrestrfa Tir EM gyflwyno cynhyrchion a chydymffurfio â'r amodau a bennir gan Wasanaeth Digidol y Llywodraeth.

### **Adroddiadau rheolaeth ariannol**

Caf fy hysbysu am berfformiad Cofrestrfa Tir EM trwy'r adroddiadau ariannol misol gan fy Nghyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes sy'n cynnwys dadansoddiad o'r rhagolygon ar gyfer y llwyth gwaith a'r effaith debygol ar refferniw sydd ei angen i gyllido'r gweithgareddau gweithredol. Yn ystod y flwyddyn mae fy Nghyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes wedi arwain yr ymateb i adroddiad Model Rheolaeth Ariannol CIPFA gan arwain at welliannau i ansawdd adroddiadau rheoli, cymorth gwell a sicrhau bod y sgiliau o fewn y gyfarwyddiaeth yn fwy priodol i ofynion y sefydliad. Cwblhawyd adolygiad Cyfeiriad Teithio gan CIPFA yn Ionawr 2017 a ddangosodd ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol a'n bod yn cael ein hasesu bellach fel corff sydd yn chwartil uchaf oddeutu 50 o sefydliadau a asesir gan CIPFA.

### **Sicrwydd caffael**

Caf fy sicrhau gan y Prif Swyddog Caffael, ynghylch caffaeliadau penodol, bod gweithgareddau caffael yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM a bod uwch reolwyr wedi cydymffurfio â'r rhain a chanllawiau caffael penodol Cofrestrfa Tir EM.

Yn Rhagfyr 2015 llofnododd Cofrestrfa Tir EM gontract pum mlynedd gyda chyflenwr newydd i ddarparu ein gwasanaeth sganio. I gychwyn roedd problemau mawr gyda pherfformiad y cyflenwr ac nid oedd elfennau allweddol o'r hyn oedd i'w gyflenwi yn cael eu bodloni. Fodd bynnag, rydym wedi gweithio gyda nhw a'u cefnogi fel bod ei berfformiad yn gwella dros gyfnod o fisoedd. Mae'r contract yn cael ei gyflenwi bellach. Mae camau rheoli contract cadarn yn eu lle i fonitro perfformiad yn agos.

### **Adrodd am berfformiad**

Yn ogystal â'r adroddiadau ariannol misol gan fy Nghyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes, caf wybodaeth ar berfformiad gweithredol trwy hyb perfformiad wedi'i ffurfio o ddata perfformiad ehangach a dderbynnir ac a adolygir gan y Panel Perfformiad cyn ei gyflwyno'n fisol i'r Bwrdd Gweithredol. Caf bapurau diweddarau a chyflwyniadau hefyd gan dimau rheoli imi a'm Bwrdd Gweithredol.

Rwy'n ymweld â swyddfeydd gweithredol a grwpiau Prif Swyddfa yn rheolaidd, fel y mae'r holl aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol, a chawn adborth ar berfformiad sefydliadol a materion o bryder eraill i'n staff gan gydweithwyr ar bob lefel y sefydliad.

Mae'r ymweliadau gweithredol yn darparu adborth hollbwysig ar sefyllfa'r ôl-groniad a chanlyniadau cyflymder gwasanaeth. Rwyf wedi cwrdd ag amrywiaeth o randdeiliaid allanol hefyd trwy ymweliadau a gynlluniwyd, cyfarfodydd rheolaidd a grwpiau ymgysylltu ffurfiol â budd-ddeiliaid i ddeall eu pryderon a'r cyd-destun gweithredol.

Wrth adrodd am berfformiad yn erbyn targedau gwreiddiol Strategaeth Fusnes 2013 18, mae'n glir erbyn hyn y byddwn yn cyrraedd y rhan fwyaf o'n targedau pum mlynedd, neu

wedi gwneud hynny eisoes, ond ni fydd y targed effeithiolrwydd cyffredinol o 60% o welliant yn cael ei gyrraedd. Mae ein perfformiad yn debygol o gynrychioli 45% o welliant effeithlonrwydd sydd, ynndo'i hun, yn creu effeithlonrwydd helaeth.

### **Archwilio Mewnol a barn**

Barn flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yw: "Yn seiliedig ar y gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Mewnol yn ystod 2016/17, gallaf roi sicrwydd rhesymol bod fframwaith risg, rheolaeth a llywodraethu Cofrestrfa Tir EM wedi cynnig modd iddi gyflawni ei hamcanion busnes yn foddhaol, a bod y risgiau allweddol yn cael eu rheoli'n effeithiol yn gyffredinol".

### **Graham Farrant**

*Swyddog Cyfrifyddu*

Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir  
11 Gorffennaf 2017



# Adroddiad tâl a staff

## Polisi ar gyfer uwch weision sifil

Mae tâl uwch weision sifil yn cael ei osod gan y Prif Weinidog yn dilyn cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Wrth benderfynu ar ei argymhellion, mae'r Corff Adolygu yn ystyried y canlynol:

- yr angen i recriwtio, cadw a chymhell pobl sy'n meddu ar y gallu a'r cymwysterau addas i gyflawni eu cyfrifoldebau gwahanol;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol yn y marchnadoedd llafur a'u heffaith ar recriwtio a chadw staff;
- polisiâu Llywodraeth ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus gan gynnwys y gofyniad ar adrannau i gyrraedd y targedau allbwn ar gyfer darparu gwasanaethau adrannol;
- y cronfeydd sydd ar gael i adrannau fel y nodir yn nherfynau gwariant adrannol y Llywodraeth; a
- tharged chwyddiant y Llywodraeth.

Mae'r Corff Adolygu yn ystyried y dystiolaeth a gaiff am ystyriaethau economaidd ehangach a fforddiadwyedd ei argymhellion.

Mae cyflog y Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir yn cael ei osod gan yr Adran Busnes Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n gweithredu yn ôl awdurdod Bwrdd Cofrestrfa Tir EM, yn ystyried yr argymhellion tâl a ddarperir gan reolwyr llinell ac yn penderfynu sut y caiff tâl perfformiad ei ddosbarthu yn yr adolygiad tâl blynyddol ar gyfer uwch weision sifil Cofrestrfa Tir EM, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet.

Mae tâl sylfaenol a dyfarniadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân yn dibynnu ar berfformiad, sy'n cael ei asesu trwy system arfarnu flynyddol ar gyfer uwch

weision sifil, ac mae rhagor o fanylion i'w gweld yn <https://www.gov.uk/government/publications/senior-civil-service-performance-management>.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae manylion trin rhwymedigaethau pensiwn i'w gweld yn nodyn 1.7 a 4.4 ar y cyfrifon ac yn yr Adroddiad tâl a staff.

## Polisi ar gyfer gweision sifil eraill

Mae'r tâl i weithwyr Cofrestrfa Tir EM nad ydynt ar raddau Uwch Weision Sifil yn cael ei bennu bob blwyddyn yn dilyn trafodaethau ac ymgynghori rhwng Cofrestrfa Tir EM a'r undebau, ac mae'n amodol ar gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gan ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

## Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i benodiadau Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud ar deilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni bai y nodir fel arall, mae'r holl gyfarwyddwyr a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored ac yn amodol ar gyfnod rhybudd o dri mis. Byddai dod â'r swydd i ben yn gynnar ar gyfer y cyfarwyddwyr ar gontractau gwasanaeth penagored, heblaw ar sail camymddwyn, yn golygu y byddai'r unigolyn yn cael ei ddigolledu fel yr amlinellir yng Nghynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn [www.civilservicecommission.org.uk](http://www.civilservicecommission.org.uk)

## Cadeirydd Bwrdd Cofrestrfa Tir EM

Penodwyd Michael Mire yn Gadeirydd Bwrdd Cofrestrfa Tir EM ar 8 Awst 2016, am gyfnod o dair blynedd. Gweithredodd Tim Franklin fel Cadeirydd dros dro Bwrdd Cofrestrfa Tir EM o 1 Ebrill 2016 hyd nes i Michael Mire ymgymryd â'i swydd.

## Prif Weithredwr Cynorthwyol

Daeth penodiad Craig Lester fel Prif Weithredwr Cynorthwyol i ben ar 31 Hydref 2016.

## Aelodau anweithredol

Daeth penodiad Leo Geddes i ben ar 30 Medi 2016. Penodwyd Claire Wren ar 16 Ionawr 2017. Mae'n cynrychioli buddiannau UKGI ac nid yw'n cael unrhyw dâl gan Gofrestrfa Tir EM. Yn y cyfnod interim, rhwng penodiadau, anfonodd UKGI gynrychiolydd i gyfarfodydd Bwrdd Cofrestrfa Tir EM i sicrhau bod ei fuddiannau wedi'u cynrychioli.

## Datgeliad oddi ar y gyflogres

Ymrwymadau oddi ar y gyflogres fel ar 31 Mawrth 2017, ar gyfer mwy na £220 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis.

	2016/17	2015/16
<b>Ymrwymadau sy'n bodoli fel ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>13</b>	10
<b>Ac o'r rhain, y rhai sy'n bodoli:</b>		
– am lai na blwyddyn ar adeg adrodd	10	6
– rhwng un a dwy flynedd ar adeg adrodd	2	3
– rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd	1	1
– rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd	–	–
– am bedair blwyddyn neu ragor ar adeg adrodd	–	–
Ymrwymadau oddi ar y gyflogres, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017, am fwy na £220 y dydd ac sy'n para'n hwy na chwe mis		
<b>Ymrwymadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017</b>	<b>12</b>	14
– sy'n cynnwys cymalau cytundebol sy'n rhoi'r hawl i'r adran wneud cais am sicrwydd o ran treth incwm a rhwymedigaethau Yswiriant Gwladol	12	14
– y mae sicrwydd wedi cael ei geisio ar eu cyfer	12	13
<b>Ac o'r rhain, y rhai:</b>		
– y mae sicrwydd wedi cael ei dderbyn	12	13
– nid yw sicrwydd wedi cael ei dderbyn <sup>1</sup>	–	–
– sydd wedi cael eu terfynu oherwydd nad yw sicrwydd wedi cael ei dderbyn	–	–
Ymrwymadau oddi ar y gyflogres aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017		
Ymrwymadau oddi ar y gyflogres aelodau bwrdd a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol	–	–
Unigolion yr ystyrir eu bod yn “aelodau bwrdd, a/neu'n uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol” yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys ymrwymadau oddi ar y gyflogres ac ar y gyflogres	10	11

## Gwariant ar ymgynghori

	2016/17	2015/16
	£'000	£'000
Cost ymgynghori	834	512
Cyfanswm	834	512

# Cyflog a thâl perfformiad 2016/17 – cyfarwyddwyr gweithredol<sup>1</sup>

	<b>Cyflog</b>	<b>Tâl perfformiad</b>	<b>Buddion mewn nwyddau</b>	<b>Buddion pensiwn<sup>2</sup></b>	<b>Cyfanswm</b>
	£'000	£'000	I'r £100 agosaf	£	£'000
Graham Farrant Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir	190 – 195	–	–	–	190 – 195
Craig Lester <sup>3</sup> Prif Weithredwr Cynorthwyol Blynyddol cyfatebol	45 – 50 (90 – 95)	–	–	43,000 –	90 – 95 (90 – 95)
John Peaden Cyfarwyddwr Gweithrediadau	95 – 100	10 – 15	–	33,000	140 – 145
Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir	95 – 100	–	–	21,000	115 – 120
Catherine Vaughan Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes	125 – 130	10 – 15	–	49,000	185 – 190
Caroline Anderson Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu	90 – 95	5 – 10	–	36,000	135 – 140
John Abbott Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol	115 – 120	–	–	64,000	180 – 185
Mike Westcott Rudd <sup>4</sup> Gynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd	80 – 85	–	–	11,000	90 – 95

1 Wedi'i archwilio.

2 Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnydd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd real yn y pensiwn wedi'i luosi gan 20) plws (y cynnydd real mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd real yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant mewn unrhyw gynnydd neu ostyngiad i drosglwyddiad o hawliau pensiwn.

3 Daeth penodiad Craig Lester i ben ar 31 Hydref 2016.

4 Penodwyd Mike Westcott Rudd yn Gynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd ar 1 Ebrill 2016.

5 Nid yw un o'r cyfarwyddwyr wedi talu i mewn i bensiwn budd-ddeiliaid.



# Cyflog a thâl perfformiad 2015/16 – cyfarwyddwyr gweithredol<sup>1</sup>

	Cyflog	Tâl perfformiad	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn <sup>2</sup>	Cyfanswm
	£'000	£'000	I'r £100 agosaf	£	£'000
Graham Farrant <sup>3</sup> Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir	160 – 165 (rhan o flwyddyn)	–	–	29,000	185 – 190
Blynyddol cyfatebol	(190 – 195)	–	–	–	(190 – 195)
Craig Lester <sup>4</sup> Prif Weithredwr Cynorthwyol	20 – 25	–	–	27,000	45 – 50
Blynyddol cyfatebol	(100 – 105)	–	–	–	(100 – 105)
John Peaden <sup>5</sup> Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro	15 – 20	–	100	–	15 – 20
Blynyddol cyfatebol	(105 – 110)	–	–	–	(105 – 110)
John Peaden <sup>6</sup> Cyfarwyddwr Gweithrediadau	80 – 85	10 – 15	–	72,000	165 – 170
Blynyddol cyfatebol	(95 – 100)	–	–	–	(95 – 100)
Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir	95 – 100	0 – 5	–	30,000	125 – 130
Catherine Vaughan Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes	120 – 125	–	–	49,000	170 – 175
Blynyddol cyfatebol		–	–	–	
Maggie Telfer <sup>7</sup> Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro	10 – 15	–	–	47,000	60 – 65
Blynyddol cyfatebol	(85 – 90)	–	–	–	(85 – 90)
Caroline Anderson Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu	90 – 95	0 – 5	–	36,000	120 – 125
Rowland Coombs Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth	75 – 80	10 – 15	–	29,000	115 – 120
Paul Dowse <sup>8</sup> Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro	5 – 10	–	–	30,000	35 – 40
Blynyddol cyfatebol	(80 – 85)	–	–	–	(80 – 85)
John Abbott <sup>9</sup> Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol	20 – 25	–	–	–	35 – 40
Blynyddol cyfatebol	(115 – 120)	–	–	–	(115 – 120)
Jon Parry <sup>10</sup> Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro	180 – 185	–	–	–	180 – 185
Blynyddol cyfatebol	(240 – 245)	–	–	–	(240 – 245)

- Wedi'i archwilio.
- Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnydd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd real yn y pensiwn wedi'i luosi gan 20) plws (y cynnydd real mewn unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd real yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant mewn unrhyw gynnydd neu ostyngiad i drosglwyddiad o hawliau pensiwn.
- Penodwyd Graham Farrant yn Brif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir o 1 Mehefin 2015.
- Penodwyd Craig Lester yn Brif Weithredwr Cynorthwyol o 11 Ionawr 2016 am gyfnod o 12 mis.
- Safodd John Peaden i lawr fel Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir Dros Dro ar 31 Mai 2015.
- Dychwelodd John Peaden i'w swydd fel y Cyfarwyddwr Gweithrediadau o 1 Mehefin 2015.
- Safodd Maggie Telfer i lawr fel y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Dros Dro ar 31 Mai 2015.
- Safodd Paul Dowse i lawr fel y Cyfarwyddwr Strategaeth Dros Dro ar 30 Ebrill 2015.
- Penodwyd John Abbott yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol o 25 Ionawr 2016.
- Safodd Jon Parry i lawr fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Dros Dro ar 24 Ionawr 2016.
- Nid yw un o'r cyfarwyddwyr wedi talu i mewn i bensiwn budd-ddeiliaid

## Cyflog – aelodau anweithredol<sup>1</sup>

	2016/17	2015/16
	£'000	£'000
Mark Boyle <sup>2</sup> Cadeirydd Anweithredol	-	60 – 65
Michael Mire <sup>3</sup> Cadeirydd Anweithredol	35 – 40	
Tim Franklin Cadeirydd Anweithredol <sup>4</sup> Aelod Anweithredol <sup>5</sup>	30 – 35	20 – 25
Catrina Holme Aelod Anweithredol	20 – 25	20 – 25
Leo Geddes <sup>6</sup> Aelod Anweithredol	-	-
Claire Wren <sup>7</sup> Aelod Anweithredol	-	-
Gerard Connell Aelod Anweithredol	20 – 25	20 – 25

1 Wedi'i archwilio.

2 Daeth penodiad Mark Boyle fel Cadeirydd Anweithredol i ben ar 31 Mawrth 2016.

3 Penodwyd Michael Mire yn Gadeirydd Anweithredol ar 8 Awst 2016.

4 Gweithredodd Tim Franklin fel Cadeirydd Anweithredol o 1 Ebrill 2016 hyd nes i Michael Mire ddechrau yn ei swydd.

5 Ailgychwynnodd Tim Franklin ei benodiad fel Aelod Anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol ar 8 Awst 2016.

6 Daeth penodiad Leo Geddes i ben ar 30 Medi 2016.

7 Dechreuodd benodiad Claire Wren ar 16 Ionawr 2017. Mae'n weithwr amser llawn UKGI; nid yw'n cael unrhyw dâl ychwanegol gan Gofrestrfa Tir EM mewn perthynas â'i rôl fel Aelod Anweithredol.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros, hawliau a gedwir i bwysiad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n ddarostyngedig dreth y DU. Mae'r tablau ar dudalennau 80 i 81 yn seiliedig ar daliadau cronnu a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM ac felly wedi'u cofnodi yn y cyfrifon hyn. Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan Gofrestrfa Tir EM ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cwmpasu unrhyw fuddion a ddarperir gan Gofrestrfa Tir EM ac sy'n cael eu trin gan Gyllid a Thollau EM fel enillion trethadwy.

## Dyfarniadau perfformiad

Mae dyfarniadau yn seiliedig ar y lefelau perfformiad a gyrhaeddir a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses adolygu perfformiad. Mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn cyfeirio at y perfformiad yn y flwyddyn pan gawsant eu talu i'r unigolyn. Felly mae'r dyfarniadau a adroddwyd yn 2016/17 yn cyfeirio at berfformiad yn 2015/16 ac mae'r dyfarniadau cymharol a adroddwyd ar gyfer 2015/16 yn cyfeirio at berfformiad yn 2014/15.

## Buddion pensiwn<sup>1</sup>

	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad yn 60	Cyfanswm a gronwyd Mawrth 2017	Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth	Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant a newidiadau mewn ffactorau buddsoddi			
	Pensiwn £'000	Cyfandaliad £'000	Pensiwn £'000	Cyfandaliad £'000	2017 £'000	2016 £'000	£'000
Graham Farrant <sup>2</sup> Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir	–	–	–	–	–	–	–
Craig Lester <sup>3</sup> Prif Weithredwr Cynorthwyol	0 – 2.5	2.5 – 5.0	35 – 40	95 – 100	639	606	27
John Peadar Cyfarwyddwr Gweithrediadau	0 – 2.5	5.0 – 7.5	50 – 55	150 – 155	1,161	1,079	33
Alasdair Lewis Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Dirprwy Brif Gofrestrydd Tir	0 – 2.5	2.5 – 5.0	40 – 45	120 – 125	907	847	20
Catherine Vaughan Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes	2.5 – 5.0	–	5 – 10	–	60	33	17
Caroline Anderson Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Datblygiad Sefydliadol a'r Gweithlu	0 – 2.5	–	5 – 10	–	96	66	22
John Abbott Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol	2.5 – 5.0	–	5 – 10	–	82	48	24
Mike Westcott Rudd Cynghorydd Cyfreithiol y Bwrdd	0 – 2.5	0 – 2.5	30 – 35	90 – 95	696	681	11

1. Wedi'i archwilio.
2. Dewisodd Graham Farrant i beidio â chael ei gwmpasu gan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn adrodd.
3. Daeth penodiad Craig Lester fel Prif Weithredwr Cynorthwyol i ben ar 31 Hydref 2016.
4. Nid oedd unrhyw gyfarwyddwr wedi talu i mewn i bensiwn budd-ddeiliaid.



## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu Alpha, sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfartalog gydag oedran pensiwn arferol sy'n hafal i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw roedd pob gwas sifil sydd newydd ei benodi a'r mwyafrif o'r rhai sydd eisoes yn y gwasanaeth wedi ymuno ag Alpha. Cyn hynny, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae pedair adran i'r Cynllun hwnnw: tair adran sy'n darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium a classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi'u cyllido ac mae cost y buddion yn cael ei thalu gan arian a ddyfernir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan gynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Roedd aelodau presennol o Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi parhau yn y Cynllun hwnnw ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd ac 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Bydd buddion Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil pob aelod sy'n newid i alpha yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach mewn un o adrannau cyflog terfynol Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn cael y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth

Sifil neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunedig eu buddion yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 naill ai ddewis y trefniadau budd wedi'i ddiffinio priodol neu bensiwn budd-ddeiliaid 'pwrkasu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth.

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer classic (ac aelodau o alpha oedd yn aelodau o classic yn union cyn ymuno ag alpha) a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o premium, classic plus, nuvos a phob aelod arall o alpha. Bydd buddion yn y cynllun classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy pan fydd yr aelod yn ymddeol. Yn achos y cynllun premium, bydd buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae'r cynllun classic plus yn hybrid i bob pwrpas, gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn yr un ffordd â'r cynllun classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn yr un ffordd â'r cynllun premium. Yn y cynllun nuvos bydd aelod yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn a enillwyd gan yr aelod yn cael ei gredydu gyda 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn ystod y flwyddyn gynllun honno ac mae'r pensiwn cronnus yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion yn y cynllun alpha yn adeiladu mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio bod y gyfradd cronni yn 2.32%.

Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn gynllun pensiwn budd-ddeiliaid. Mae Cofrestrfa Tir EM yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 ac 8% ac 14.75% o 1 Hydref 2015 (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn budd-ddeiliaid cymeradwy a ddewiswyd gan y gweithiwr o banel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond os yw'n cyfrannu bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae Cofrestrfa Tir EM hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 i dalu am gost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y pensiwn cronnus a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan yr aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd ei aelodaeth weithredol o'r cynllun yn dod i ben os yw eisoes yn oedran pensiwn neu'n hŷn nag oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau o classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau o nuvos, a'r uchaf o 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i aelodau o alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos enillion pensiwn ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu alpha – fel y bo'n briodol. Os oes gan y swyddog fuddion ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac alpha y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunedig eu buddion yn y ddau gynllun, ond gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn [www.civilservicepensionscheme.org.uk](http://www.civilservicepensionscheme.org.uk)

## Gwerthoedd trosglwyddo cyfwerth ag arian parod

Gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod (GTCAP) yw gwerth wedi'i gyfalafu a'i asesu'n actiwaraid o fuddion cynllun pensiwn y mae aelod wedi'u cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronnus yr aelod ac unrhyw bensiwn wrth gefn gŵr neu wraig sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTCAP yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion sydd wedi cronni yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion y mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w haelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgeliad yn gymwys iddi.

Mae'r ffigurau GTCAP yn cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i aelodau o ganlyniad iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol o'u poced eu hunain. Cyfrifir GTCAP yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Gydol Oes, a all fod yn daladwy pan fydd buddion pensiwn yn cael eu cymryd.

## Cynnydd gwirioneddol mewn GTCAP

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn GTCAP a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronnus oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Adrodd ar gynlluniau digolledu'r Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill - pecynnau ymadael<sup>1</sup>

Band cost pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd		Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost	
	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16
£0-£10,000	-	-	-	2	-	2
£10,001-£25,000	-	-	-	2	-	2
£25,001-£50,000	-	-	-	1	-	1
£50,001-£100,000	-	-	2	-	2	-
£100,001-£150,000	-	-	-	1	-	1
£150,001-£200,000	-	-	-	-	-	-
>£200,000	-	-	-	-	-	-
<b>Cyfanswm y pecynnau ymadael</b>	-	-	<b>2</b>	<b>6</b>	<b>2</b>	<b>6</b>
<b>Cyfanswm cost</b>	-	-	<b>£154,035</b>	<b>£186,918</b>	<b>£154,035</b>	<b>£186,918</b>

1. Wedi'i archwilio.

Ni wnaethpwyd unrhyw daliadau ex-gratia i gyfarwyddwyr yn 2016/2017 (2015/16: dim).

### Digolledu am golli swydd

Mae costau diswyddo ac ymadael eraill wedi cael eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Mae costau ymadael yn cael eu cyfrif amdanynt yn llawn ym mlwyddyn y cytundeb dan gontract i ymadael. Os yw'n gymwys, mae'r costau ychwanegol o brynu allan budd pensiwn is yn cael eu talu gan Gofrestrfa Tir EM ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae costau ymddeol ar sail afiechyd yn cael eu talu gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

### Cymarebau tâl<sup>1</sup>

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn ei sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad.

Mae'r cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, taliadau cysylltiedig â pherfformiad ar wahân a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

	2016/17	2015/16
Band cyfanswm tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf (£'000)	190 – 195	190 – 195
<b>Cyfanswm canolrif (£)</b>	<b>25,797</b>	<b>29,624</b>
Cymhareb tâl	7.5	6.5

1. Wedi'i archwilio.

Yn 2016/17 ni chafodd unrhyw weithwyr dâl oedd yn fwy na thâl y cyfarwyddwr parhaol sy'n ennill y cyflog uchaf. Roedd tâl yn amrywio o £190,000 – £195,000 i £15,000 – £20,000 (2015/16: £190,000 – £195,000 i £15,000 – £20,000).

Byddai defnyddio tâl aelod o staff dros dro a benodwyd ym Mawrth 2017 am gyfnod byr i ddarparu arbenigedd mewn rôl allweddol yn ystumio'r gymhareb tâl dros y tymor hwy, ac felly nid yw wedi'i ddangos uchod.



## Adroddiad staff

	2016/17	2015/16
<b>Ar 31 Mawrth</b>		
Nifer y gweithwyr (gan gynnwys penodiadau cyfnod penodol)	4,862	4,486
Cyferwerth ag amser llawn parhaol	4,148	4,035
Nifer y prentisiaid	277	119
Nifer y staff dros dro/dan gontract	32	18
Diwrnodau salwch fesul gweithiwr ar gyfartaledd	6.4	6.3
Nifer y diwrnodau hyfforddi fesul gweithiwr ar gyfartaledd	5.9	7.1
Diwrnodau hyfforddi fesul prentis	31.3	30
Gwariant hyfforddiant fel canran o'r bil cyflogau	3.9%	2.8%
Gweithwyr benyw	60%	60%
Gweithwyr rhan-amser	35%	36%
Gweithwyr o leiafrifoedd ethnig	4%	5%
Gweithwyr sy'n nodi bod anabledd ganddynt	9%	9%

## Costau staff ar gyfer 2016/17


	Staff parhaol	Prentisiaid	Erail	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau	130,386	5,433	4,312	140,131
Costau nawdd cymdeithasol	13,401	109	223	13,733
Costau pensiwn eraill	24,285	949	387	25,621
<b>Cyfanswm costau staff</b>	<b>168,072</b>	<b>6,491</b>	<b>4,922</b>	<b>179,485</b>

## Dadansoddiad rhyw ar 31 Mawrth 2017

	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Aelodau anweithredol	3	2	5
Cyfarwyddwr gweithredol	4	2	6
Uwch Wasanaeth Sifil – band 2	4	1	5
Uwch Wasanaeth Sifil – band 1	6	4	10
Gweithwyr parhaol (heb gynnwys Uwch Wasanaeth Sifil)	1,684	2,644	4,328
Prentisiaid	112	165	277

\* Mae rhai gweithwyr Uwch Wasanaeth Sifil hefyd yn gyfarwyddwyr ac wedi'u cynnwys yn y ddau gategori.

## Niferoedd staff Cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd yn y flwyddyn



### Adnoddau

Mae ein gweithdrefnau recriwtio yn cael eu cynnal ar sail teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored yn unol ag Egwyddorion Recriwtio Comisiynwyr y Gwasanaeth Sifil, a chânt eu monitro'n fewnol ac yn allanol. Mae pob un o'n cyfleoedd gwaith yn ddarostyngedig i'r Cynllun Gwarant Cyfweiliad sy'n sicrhau y bydd pobl anabl yn mynd ymlaen i gam nesaf y broses ddethol os yw eu cais yn bodloni'r meini prawf gofynnol. Ein polisi yw sicrhau nad yw unrhyw brofion a ddefnyddir yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr anabl.

Gweler hefyd tudalen 31.

### Recriwtio

Recriwtiwyd cyfanswm o 584 o aelodau staff.

I gefnogi ein safonau gwasanaeth craidd ac ategu ein gweithlu safonol gwnaethpwyd nifer o benodiadau cyfnod penodol tymor byr, gan ganiatáu i'n staff mwy profiadol ganolbwyntio ar weithgareddau cofrestru craidd mwy cymhleth.

Mae contractwyr oddi ar y gyflogres wedi cael eu defnyddio hefyd i fodloni anghenion tymor byr mewn meysydd mwy arbenigol, ac mae gwybodaeth am gydymffurfiaeth a datgeliadau wedi'i chynnwys yn y tabl datgeliad oddi ar y gyflogres ar dudalen 79.

Mae nifer fach iawn o weithwyr a ymadawodd yn wirfoddol wedi cynnig modd i'r sefydliad ryddhau pobl sydd â sgiliau nad oes eu hangen mwyach ac adfywio meysydd arbenigol bach o'r gweithlu.

### Iechyd a lles

Rydym wedi parhau i gyflwyno mentrau i helpu gweithwyr a'r sefydliad. Mae'r uchafbwyntiau ar gyfer 2016/17 yn cynnwys:

- argaeledd Rhaglen Cymorth i Weithwyr i ddarparu cymorth cynhwysfawr ac effeithiol i weithwyr a rheolwyr 24 awr y dydd;
- hyrwyddo a chyfranogiad ar draws Cofrestrfa Tir EM yn y diwrnod iechyd meddwl Amser Newid, Amser Siarad a'r Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl;
- cyflwyno amrywiaeth o fforymau sy'n rhoi canllawiau a chynghor i reolwyr llinell ar sut i helpu staff sy'n delio â phroblemau iechyd meddwl, galar a salwch difrifol.

Mae lles parhaol staff yn cael ei hyrwyddo drwy gyfuniad o'r gweithgareddau allweddol canlynol.

- Sesiynau sgrinio iechyd a rhoi cyfle i staff wirio pwysau gwaed, mynegai màs y corff a cholesterol.
- Hyrwyddo a chymryd rhan yn y cynllun beicio i'r gwaith.

- Darparu gwasanaeth iechyd galwedigaethol, gyda gwefan iechyd a lles gysylltiedig a deunyddiau hyrwyddo misol ar faterion iechyd.
- Hyrwyddo digwyddiadau ymwybyddiaeth lles allweddol trwy ymgyrchoedd iechyd adrannol sy'n hybu dewisiadau ffordd o fyw iach.

## Galluogrwydd

Gweler tudalen 32.

## Cynnwys gweithwyr

Rydym yn parhau i ymgysylltu yn anffurfiol ac yn ffurfiol â staff a'u cynrychiolwyr.

Mae blogiau'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr wedi cael eu cyhoeddi bob wythnos yn ystod y flwyddyn ac mae ein staff wedi cael eu hannog i ymateb iddynt gan geisio sicrhau deialog agored a gonest a chyfnwid barn.

Disgwylir i reolwyr gael trafodaethau misol rheolaidd ag aelodau unigol o'r tîm i drafod mewn modd agored berfformiad gweithwyr, syniadau ar gyfer gwelliannau i arferion gwaith, materion sefydliadol ehangach ac unrhyw bryderon sydd gan weithwyr.

Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â'n hundebau llafur. Mae'r Prif Weithredwr ac aelodau o'i dîm yn cwrdd yn ffurfiol â chynrychiolwyr yng nghyfarfodydd Cyngor Adrannol Whitley ddwywaith y flwyddyn. Mae strwythurau yn eu lle ar gyfer cyfarfodydd lleol Whitley, ac ymgynghorir â'r undebau ar faterion penodol.

Mae deialog chwe wythnosol anffurfiol rhwng y Prif Weithredwr ac arweinwyr yr undebau llafur wedi parhau yn ystod y flwyddyn. Mae gweithrediad cysylltiadau cyflogaeth o ddydd i ddydd yn cael ei reoli trwy ymgysylltu ac ymgynghori wythnosol rhwng uwch reolwyr a chynrychiolwyr adrannol yr undebau llafur.

Gwelsom welliannau cadarnhaol yn ystod y flwyddyn eto yn sgoriau ymgysylltu Cofrestrfa Tir EM yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth

Sifil, ac mae arolygon mewnol rheolaidd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi dangos bod y gwelliannau hyn wedi cael eu cynnal. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau gwelliannau pellach mewn ymgysylltu ac mae arweinydd gweithredol yn gyfrifol am ddangosydd perfformiad allweddol ymgysylltu a chynllun gweithredu i greu amgylchedd lle mae staff a rheolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod wedi'u cysylltu.

Mae cynnal trafodaethau adeiladol â'r undebau ar lefel adrannol a lleol, yn ogystal ag annog staff i gymryd rhan ar bwyllgorau eraill (gan gynnwys iechyd a lles, cymdeithasol a chwaraeon, amrywiaeth ac elusennol), ac ymweliadau cyfarwyddwyr gyda sesiynau holi ac ateb, i gyd yn hanfodol o ran sicrhau bod barn ein gweithwyr yn cael ei chlywed a'i deall.



# Adroddiad atebolrwydd seneddol ac archwilio

## Ffioedd a phridiannau

	2016/17			2015/16		
	Incwm	Cyfanswm costau	Gwarged	Incwm	Cyfanswm costau	Gwarged
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cofrestru teitl	299,591	237,240	62,351	284,196	249,120	35,076
Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol	6,267	1,429	4,838	6,193	1,516	4,677
Masnachol	5,567	3,326	2,241	4,983	3,548	1,435
	<b>311,425</b>	<b>241,995</b>	<b>69,430</b>	<b>295,372</b>	<b>254,184</b>	<b>41,188</b>

Wedi'i archwilio.


Cymhwysodd Cofrestrfa Tir EM y gofynion dyraniad cost a chodi tâl fel yr amlinellir yng nghyfarwyddyd Trysorlys EM.

Fodd bynnag, oherwydd bod y galw am ein gwasanaethau yn fwy na'n disgwyliadau rhagorwyd ar y gyfradd enillion a argymhellir.

## Taliadau arbennig

	2016/17		2015/16	
	Nifer yr achosion	Gwerth y taliad	Nifer yr achosion	Gwerth y taliad
		£'000		£'000
Nifer y taliadau arbennig dros £300,000	-	-	-	-

Wedi'i archwilio.



**Graham Farrant**  
Prif Weithredwr a Phrif  
Gofrestrydd Tir  
11 Gorffennaf 2017



# Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cofrestrfa Tir EM am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad o Lifoedd Arian Parod, Datganiad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn a'r nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi o dan y polisiau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn natgeliadau'r Adroddiad Tâl a Staff ac Atebolrwydd Seneddol hefyd a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth sydd wedi'i harchwilio.

## Cyfrifoldebau priodol y Prif Gofrestrydd Tir a'r archwilydd

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Gofrestrydd Tir fel y Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol a bodloni ei hun eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol ar gyfer Archwilwyr y Bwrdd Ymarferion Archwilio.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys casglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad pwysig, boed wedi'i achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cofrestrfa Tir EM ac wedi cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan Gofrestrfa Tir EM; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon er mwyn nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos ei bod yn sylweddol anghywir neu anghyson â'r wybodaeth a gaf wrth gyflawni'r archwiliad. Os wyf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sylweddol ystyriaif y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif.

Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd sylweddol mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes Cofrestrfa Tir EM ar 31 Mawrth 2017 a'i gwarged a gedwir am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o ddatgeliadau'r Adroddiad Tâl a Staff ac Atebolrwydd Seneddol sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed dan Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraethu 1973; ac
- mae'r wybodaeth a nodir yn yr Adroddiad Perfformiad ac Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn cyfateb â'r datganiadau ariannol.



## Materion rwyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd amdano ynghylch y materion canlynol rwyf yn eu hadrodd ichi os, yn fy marn i:

- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw neu nid yw manylion priodol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau y mae fy staff heb ymweld â nhw; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o ddatgeliadau'r Adroddiad Tâl a Staff ac Atebolrwydd Seneddol sydd i'w harchwilio yn cyfateb â'r cofnodion cyfrifyddu a'r manylion; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes unrhyw sylwadau gennyf i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

### **Sir Amyas C E Morse**

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol  
Y Swyddfa Archwilio Cenedlaethol  
157–197 Buckingham Palace Road  
Victoria  
Llundain  
SW1W 9SP

13 Gorffennaf 2017



# Datganiadau ariannol

Datganiad o incwm cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

		2016/17	2015/16
	Nodiadau	£'000	£'000
Incwm – gweithrediadau parhaus	2	311,425	295,372
Cost gwasanaeth	2	(226,959)	(238,591)
<b>Gwarged gros</b>		<b>84,466</b>	56,781
Costau gweinyddol	2	(15,036)	(15,593)
<b>Gwarged gweithredu</b>		<b>69,430</b>	41,188
Colled ar waredu asedau anghyfredol		(4)	(431)
Incwm buddsoddi – llog i'w dderbyn	5	1,336	1,774
Costau cyllid	6	(682)	(702)
Amorteiddio a dibrisio systemau e-wasanaeth	8.1, 9.1	(3,427)	(3,469)
Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu	3.2	(425)	(1,458)
Costau refeniw Pridiannau Tir Lleol	3.3	(1,592)	(2,265)
<b>Gwarged am y flwyddyn ariannol</b>		<b>64,636</b>	34,637
Difidend i'w dalu	7	(18,896)	(13,584)
<b>Gwarged/(colled) a gedwir am y flwyddyn ariannol</b>		<b>45,740</b>	21,053
Enillion/(Colledion) ar ailbriso eiddo, offer a chyfarpar		2,965	(7,817)
<b>Gwarged/(colled) cynhwysfawr am y flwyddyn ariannol</b>		<b>48,705</b>	13,236

Mae'r nodiadau ar dudalennau 99 i 120 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.



# Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2017

		2016/17		2015/16	
	Nodiadau	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Asedau anghyfredol</b>					
Eiddo, offer a chyfarpar	8	53,593		56,675	
Eiddo buddsoddiad	8.4	4,920		6,800	
Asedau anniriaethol	9	8,607		4,370	
Eraill i'w derbyn	11.2	1,341		1,437	
<b>Cyfanswm asedau anghyfredol</b>			<b>68,461</b>		69,282
<b>Asedau cyfredol</b>					
Stocrestrau	10	4,049		4,745	
Masnach ac eraill i'w derbyn	11.1	9,597		12,791	
Arian parod ac arian parod cyfatebol	12	489,926		443,871	
<b>Cyfanswm asedau cyfredol</b>			<b>503,572</b>		461,407
Asedau cyfredol wedi'u dosbarthu fel asedau a ddelir i'w gwerthu	8.3		6,982		-
<b>Cyfanswm asedau</b>			<b>579,015</b>		530,689
<b>Rhwymedigaethau cyfredol</b>					
Masnach a symiau eraill i'w talu	13.1	56,016		51,580	
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid	13.1, 14.1	194		284	
Darpariaethau byrdymor	16.1	6,393		8,116	
			62,603		59,980
Y Gronfa Indemniad	16.2		85,100		84,800
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol</b>			<b>147,703</b>		144,780
<b>Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net</b>			<b>431,312</b>		385,909
<b>Rhwymedigaethau anghyfredol</b>					
Rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid	13.2, 14.1	4,736		4,931	
Darpariaethau hirdymor	16.1	4,309		7,416	
<b>Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol</b>			<b>9,045</b>		12,347
<b>Asedau net</b>			<b>422,267</b>		373,562
<b>Cyfalaf a chronfeydd</b>					
Cyfalaf Difidend Cyhoeddus			61,545		61,545
Cronfa ailbriso			19,200		16,268
Cyfrif incwm a gwariant			341,522		295,749
			<b>422,267</b>		373,562

Mae'r nodiadau ar dudalennau 99 i 120 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

**Graham Farrant**  
Prif Weithredwr a Phrif  
Gofrestrydd Tir  
11 Gorffennaf 2017

# Datganiad o newidiadau mewn cronfeydd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

	<b>Cyfalaf Difidend Cyhoeddus</b>	<b>Cronfa ailbriso</b>	<b>Cronfa Incwm a Gwariant</b>	<b>Cyfanswm cronfeydd</b>
	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Gweddill ar 31 Mawrth 2015</b>	<b>61,545</b>	<b>31,474</b>	<b>267,307</b>	<b>360,326</b>
<b>Newidiadau mewn cronfeydd 2015/16</b>				
<b>Cronfa ailbriso</b>				
Trosglwyddo i enillion a gedwir	-	(17)	7,389	7,372
Ailbriso asedau anghyfredol	-	(7,372)	-	(7,372)
Colled gynhwysfawr	-	(7,817)	21,053	13,236
<b>Gweddill ar 31 Mawrth 2016</b>	<b>61,545</b>	<b>16,268</b>	<b>295,749</b>	<b>373,562</b>
<b>Newidiadau mewn cronfeydd 2016/17</b>				
<b>Cronfa ailbriso</b>				
Trosglwyddiad i enillion a gedwir	-	(33)	33	-
Gwarged cynhwysfawr	-	2,965	45,740	48,705
<b>Gweddill ar 31 Mawrth 2017</b>	<b>61,545</b>	<b>19,200</b>	<b>341,522</b>	<b>422,267</b>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 99 i 120 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.

# Datganiad llif arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

		2016/17	2015/16
<b>Nodiadau</b>		<b>£'000</b>	<b>£'000</b>
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu	19.1	<b>71,066</b>	55,673
<b>Gweithgareddau buddsoddi</b>			
Prynu asedau diriaethol		<b>(2,595)</b>	(4,091)
Prynu asedau anniriaethol		<b>(8,202)</b>	(355)
Enillion ar waredu asedau diriaethol		-	9,314
Llog a dderbyniwyd		<b>1,729</b>	1,618
<b>Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi</b>		<b>(9,068)</b>	6,486
<b>Gweithgareddau cyllido</b>			
Difidendau a dalwyd		<b>(14,977)</b>	(14,717)
Ad-daliadau o elfen gyfalaf rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid		<b>(284)</b>	(621)
Elfennau llog rhwymedigaethau o dan brydlesi cyllid		<b>(682)</b>	(702)
<b>All-lif arian parod net o weithgareddau cyllido</b>		<b>(15,943)</b>	(16,040)
<b>Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol</b>	19.2	<b>46,055</b>	46,119
<b>Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddechrau'r flwyddyn</b>	19.2	<b>443,871</b>	397,752
<b>Arian parod ac arian parod cyfatebol ar ddiwedd y flwyddyn</b>	12	<b>489,926</b>	443,871

Mae'r nodiadau ar dudalennau 99 i 120 yn rhan annatod o'r cyfrifon hyn.



# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1 Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

### 1.1 Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2016/17 (FReM) ac maent yn cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a roddwyd gan Drysorlys EM yn unol ag adran 4(6) (a) o Ddeddf Cronfeydd Masnachu'r Llywodraeth 1973. Mae'r polisiau cyfrifyddu sydd wedi'u cynnwys yn FReM yn dilyn y Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRS) wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau arbennig y Gofrestrfa Tir EM at ddibenion rhoi darlun gwir a theg. Defnyddiwyd polisiau cyfrifyddu'r Gofrestrfa Tir EM yn gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyrir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi ar sail busnes gweithredol. Mae'r rheolwyr o'r farn bod sail busnes gweithredol yn briodol oherwydd mae rhwymedigaeth gyfreithiol arnom dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 i ddarparu gwasanaethau statudol yn ymwneud â chofrestru tir ac mae digon o gronfeydd i gynnal y busnes yn y dyfodol.

Mae Offerynnau Ariannol IFRS 9 ac IFRS 15 Refeniw o gontractau â chwsmeriaid yn weithredol o 2018/19; ond mae eu cymhwyso yng nghyd-destun y sector cyhoeddus heb ei ddehongli eto gan FReM. Mae IFRS 16 Prydlesi wedi cael ei gyhoeddi ond nid yw'n weithredol tan gyfnodau yn dechrau 1 Ionawr 2019. Ni ddisgwylir i'r safonau cyfrifyddu hyn gael effaith sylweddol ar y Gofrestrfa Tir EM.

### 1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol wedi'i addasu ar gyfer ailbrisiu eiddo, offer

a chyfarpar, eiddo buddsoddi, asedau a ddelir i'w gwerthu, asedau anniriaethol ac, os ydynt yn berthnasol, stocrestrau i werth teg fel y pennwyd gan y safon gyfrifyddu berthnasol.

### 1.3 Technegau amcangyfrif

Mae amcangyfrifon a barnau yn cael eu gwerthuso'n barhaus ac yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Yr amcangyfrifon a'r barnau sydd â risg sylweddol o achosi addasiad sylweddol i'r symiau sy'n cario o asedau a rhwymedigaethau o fewn y flwyddyn ariannol nesaf yw:

- Nodyn 8 – amhariad o asedau anghyfredol;
- Nodyn 9 – amhariad o asedau anniriaethol;
- Nodyn 16.1 – ymddeoliad cynnar, diswyddiad cynnar a darpariaethau eraill; a
- Nodyn 16.2 – darpariaeth wedi'i hamcangyfrif ar gyfer hawliadau indemniad.

### 1.4 Incwm ffioedd

Mae incwm ffioedd a thaliadau yn cael ei gydnabod yn natganiadau ariannol y flwyddyn ariannol pan gafodd y gwasanaeth ei ddarparu. Mae incwm yn cael ei gydnabod yn glir o unrhyw ad-daliadau ar gyfer trafodion sydd heb eu cwblhau neu ar drafodion lle mae gwybodaeth wallus wedi cael ei rhoi gan gwsmeriaid.

Yn achos rhai gwasanaethau rhaid anfon derbynneb tâl gyda'r cais sy'n golygu bod taliadau'n cael eu derbyn am wasanaethau sydd heb eu darparu eto o fewn y flwyddyn ariannol yr adroddir arni. Mae'r symiau hyn yn cael eu nodi fel 'ffioedd a dderbyniwyd ymlaen llaw' a'u datgelu o fewn rhwymedigaethau cyfredol. Mae ffioedd yn cael eu cydnabod pan fydd y gofrestr wedi cael ei diweddaru'n llawn ar ôl derbyn cais.

### 1.5 Segmentau gweithredu

Mae segmentau gweithredu Cofrestrfa Tir EM wedi'u trefnu o gwmpas y gwasanaethau y mae'n eu darparu ac fe'u hadroddir mewn ffordd sy'n gyson â'r adroddiadau mewnol a ddarperir i'r prif benderfynwr gweithredu. Y tri phrif segment busnes yw cofrestru teitl, Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol ac incwm masnachol. Mae hyn yn seiliedig ar drefniadaeth fewnol y grŵp a'r strwythur rheoli, a dyma'r brif ffordd y mae'r prif benderfynwr gweithredu yn cael gwybodaeth ariannol. Prif benderfynwr gweithredu Cofrestrfa Tir EM yw Graham Farrant, Prif Weithredwr a Phrif Gofrestrydd Tir.

### Pridiannau Tir Lleol

Yn dilyn pasio Deddf Seilwaith 2015, mae Cofrestrfa Tir EM wedi cael cyfrifoldeb am gofrestru Pridiannau Tir Lleol. Wrth baratoi ar gyfer darparu'r gwasanaeth, mae gwariant cysylltiedig naill ai'n cael ei fynegi fel gwariant sydd wedi codi neu ei gyfalafu os yw'n bodloni'r meini prawf ar gyfer asedau anniriaethol o dan IAS 38.

### 1.6 Buddion gweithwyr

Cydnabyddir cost darparu buddion gweithwyr yn y cyfnod pan fydd Cofrestrfa Tir EM yn derbyn gwasanaethau gan ei gweithwyr, yn hytrach na phan gaiff ei thalu neu pan fydd yn daladwy. Cydnabyddir buddion gweithwyr byrdymor fel traul yn y cyfnod pan fydd y gweithiwr yn darparu'r gwasanaeth. Cydnabyddir taliadau perfformiad dim ond pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongiadol i'w talu a gellir rhoi amcangyfrifon dibynadwy o'r costau. Cydnabyddir buddion terfynu swydd pan ellir dangos bod cytundeb diwrthdro i derfynu cyflogaeth y gweithiwr(gweithwyr) cyn dyddiad ymddeol y cynlluniau neu o ganlyniad i gynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

### 1.7 Pensiynau

Mae gweithwyr Cofrestrfa Tir EM

yn weision sifil ac mae ganddynt hawl i fod yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) neu Gynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn ‘alpha’. Cynlluniau buddion wedi’u diffinio amlgyflogwr heb eu cyllido yw’r rhain, ond nid yw Cofrestrfa Tir EM yn gallu adnabod ei chyfran o’r asedau a’r rhwymedigaethau sylfaenol ar sail resymol a chyson. Felly mae Cofrestrfa Tir EM wedi cyfrif am gyfraniadau a thaliadau i’r cynlluniau hyn o dan Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 fel pe baent yn gynlluniau cyfraniadau wedi’u diffinio. Mae rhwymedigaeth ar gyfer talu buddion yn y dyfodol yn dâl ar Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil neu gynllun alpha.

### 1.8 Eiddo, offer a chyfarpar

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol a phrydlesol yn cael eu priso’n broffesiynol gan briswyr eiddo allanol, annibynnol sydd â chymwysterau proffesiynol cydnabyddedig priodol a phrofiad diweddar yn yr ardal leol a’r categori eiddo a brisir. Cynhaliwyd prisiad bwrdd gwaith gan Cushman & Wakefield, priswyr cofrestredig RICS yn Chwefror 2017.

Mae FReM yn ei gwneud hi’n ofynnol i Gofrestrfa Tir EM ddatgelu asedau anghyfredol yn y datganiad o sefyllfa ariannol am werth teg. Ar gyfer asedau sy’n cael eu defnyddio mae’r FReM yn ei gwneud hi’n ofynnol i gael prisiad ar ddefnydd presennol fel gwerth teg ased yn hytrach na gwerth y farchnad sy’n ofynnol gan IFRS 13. Mae manylion addasiadau FReM sy’n parhau i fod yn gymwys ar gyfer 2016/17 i’w gweld ar GOV.UK (chwiliwch am ‘Lawlyfr Adroddiadau Ariannol 2016 /7’).

Yn achos asedau heb fod yn eiddo sydd ag oes fer defnyddir cost hanesyddol fel brasamcan o werth teg yr ased. Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliol ac adeiladau pryddlesol wedi’u cynnwys am ailbrisiad llai dibrisiad cronedig a cholledion amhariad. Mae’r holl asedau anghyfredol diriaethol eraill yn cael eu cynnwys am gost hanesyddol llai’r dibrisiad

cronedig a cholledion amhariad.

Ni chaiff asedau sydd wrthi’n cael eu hadeiladu eu dibrisio. Ar gyfer asedau eraill mae’r tâl dibrisio yn cael ei gyfrifo er mwyn dyrannu’r gost neu’r swm wedi’i ailbrisiu, llai brasamcan o werth gweddillol asedau anghyfredol yn systematig dros eu hoes ddefnyddiol sy’n weddill gan ddefnyddio dull llinell syth.

Mae eiddo, offer a chyfarpar arall yn cynnwys TG ac offer swyddfa a pheiriannau. Mae Cofrestrfa Tir EM yn cyfalafu gwariant dros £1,000 ar gyfer ased unigol. Lle y bo’n briodol, mae asedau unigol sy’n is na’r gwerth lleiaf ar gyfer cyfalafu yn cael eu grwpio. Polisi Cofrestrfa Tir EM yw peidio â chyfalafu gwariant ar osodiadau a ffitiadau, dodrefn swyddfa yn bennaf, oherwydd ni ystyrir eu bod yn berthnasol.

Mae oes asedau yn cael ei hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Defnyddir y cyfraddau dibrisio asedau canlynol.

Tir rhydd-ddaliol	dim
Adeiladau rhydd-ddaliol	Oes ddefnyddiol dybiedig
Adeiladau pryddlesol	Cyfnod y brydles neu’r oes ddefnyddiol dybiedig
Offer telegyfathrebu	Pum mlynedd
Offer swyddfa	Pum mlynedd
Cyfrifiaduron: prif ffrâm cyfrifiaduron personol	Pum mlynedd Pum mlynedd*
Ceblo strwythuredig	Deng mlynedd
Offer a pheiriannau trwm	Deng mlynedd

\*Yn dilyn adolygiad o bolisi newid asedau Cofrestrfa Tir EM diweddarwyd oes yr ased ar gyfer cyfrifiaduron personol bwrdd gwaith o dair i bum

mlynedd. Gwneir hyn i adlewyrchu dibynadwyedd cynyddol ac felly oes yr asedau.

Mae asedau anghyfredol wedi’u dosbarthu fel rhai a ddelir i’w gwerthu yn cael eu cario am werth teg llai costau i’w gwerthu ac ni chânt eu dibrisio. Mae Cofrestrfa Tir EM yn dosbarthu ased anghyfredol fel un a ddelir i’w werthu os caiff ei swm cario ei adennill yn bennaf drwy drafodiad gwerthu yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus. Er mwyn bod yn gymwys rhaid i’r ased fod ar gael i’w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol a rhaid i’r gwerthiant fod yn hynod debygol.

### 1.9 Amhariad o asedau anghyfredol

Cynhelir adolygiadau amhariad ar ddiwedd pob blwyddyn ac os oes arwyddion bod yr ased wedi dioddef colled amhariad mae tâl yn cael ei adlewyrchu yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn pan fydd yn digwydd. Os yw’r ased yn cael ei gario am swm wedi’i ailbrisiu, mae’r golled amhariad yn cael ei thrin fel gostyngiad ailbrisiu, yn ôl maint y gronfa ailbrisiu sy’n berthnasol i’r ased, gydag unrhyw dâl dros ben wedi’i nodi yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Os oes unrhyw arwydd o’r fath, mae swm yr ased y gellir ei adennill yn cael ei amcangyfrif er mwyn penderfynu graddfa’r golled amhariad. Y swm y gellir ei adennill yw’r uchaf o werth teg llai costau i werthu a gwerth wrth ddefnyddio.

### 1.10 Asedau anniriaethol Trwyddedau meddalwedd

Mae asedau anniriaethol a gaffaelwyd ar wahân yn cael eu dangos am gost hanesyddol. Mae’r costau sy’n codi i gaffael a defnyddio’r asedau hyn wedi’u cyfalafu. Mae’r rhain yn cynnwys taliadau contractwyr, deunyddiau, llafur i’w briodoli’n uniongyrchol a chostau gorbenion i’w priodoli’n uniongyrchol.

Mae trwyddedau meddalwedd wedi’u cynnwys am gost llai amorteiddio cronedig. Cânt eu hamorteiddio ar sail llinell syth ar gyfradd o

Prif-ffrâm	Pum mlynedd
Cyfrifiaduron personol	Pum mlynedd*

### Costau datblygu meddalwedd

Yn unol ag IAS 38, gall y gwariant sy'n codi ar ddatblygu is-adeiledd TG newydd (yn cwmpasu costau trydydd parti a'r costau uniongyrchol o ymdrechion staff mewnol) gael ei gyfalafu. Mae costau datblygu na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i ddylunio a phrofi cynhyrchion meddalwedd adnabyddadwy ac unigryw wedi'u rheoli gan Gofrestrfa Tir EM yn cael eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fydd y meini prawf canlynol wedi'u bodloni:

- mae'n ymarferol yn dechnegol i gwblhau'r cynnyrch meddalwedd er mwyn iddo fod ar gael i'w ddefnyddio;
- mae'r rheolwyr yn bwriadu cwblhau'r cynnyrch meddalwedd a'i ddefnyddio neu ei werthu;
- gellir defnyddio neu werthu'r cynnyrch meddalwedd;
- gellir dangos sut y bydd y cynnyrch meddalwedd yn creu budd economaidd tebygol yn y dyfodol;
- mae adnoddau technegol, ariannol ac eraill digonol ar gael i gwblhau'r gwaith datblygu neu ddefnyddio neu werthu'r cynnyrch meddalwedd; a
- gall y gwariant i'w briodoli i'r cynnyrch meddalwedd yn ystod ei ddatblygiad gael ei fesur yn ddibynadwy.

Mae'r costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wedi'u cyfalafu fel rhan o'r cynnyrch meddalwedd yn cynnwys costau gweithwyr datblygu meddalwedd a chyfran briodol o'r gorbenion perthnasol. Mae gwariant datblygu arall sydd heb fodloni'r meini prawf hyn yn cael ei gydnabod fel cost sy'n codi. Nid yw costau datblygu a chafodd eu cydnabod yn flaenorol fel treuliau yn cael eu cydnabod fel ased mewn cyfnod dilynol.

Mae'r holl wariant ymchwil yn cael ei ddileu wrth iddo godi.

### Porthol y Gofrestrfa Tir EM, e-ddiogelwch a Business Gateway

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi datblygu tair system i gyflenwi e-wasanaethau. Mae cost datblygu'r systemau TG (porthol Cofrestrfa Tir EM, e-ddiogelwch a Business Gateway) wedi cael eu cyfalafu fel asedau anniriaethol ar y datganiad o sefyllfa ariannol. Mae'r asedau hyn wedi cael eu hamorteiddio dros wyth mlynedd, sef oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y systemau. Pennwyd yr oes trwy gyfeirio at oesau defnyddiol asedau tebyg eraill a ddefnyddir yng Nghofrestrfa Tir EM.

#### Pridiannau Tir Lleol

Mae Cofrestrfa Tir EM wedi dechrau adeiladu a datblygu cofrestr gyfrifiadurol i ddal y data Pridiannau Tir Lleol a ddelir gan 326 o awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Mae dwy gost datblygu wedi cael eu nodi, cronfa ddata i ddal y wybodaeth a'r data ei hun y mae angen ei lanhau, ei ddigideiddio a'i fudo i'r gronfa ddata hon. O dan IAS 38, mae'r costau i'w priodoli i'r ddau weithgaredd hyn yn cael eu trin fel ased anniriaethol, ac ar ddechrau'r gwasanaeth cofrestr caiff y cydrannau hyn eu hamorteiddio dros eu hoes ddefnyddiol.

#### 1.11 Eiddo buddsoddiad

Mae eiddo buddsoddi yn cael ei fesur am werth teg. Mae unrhyw elw neu golled ar waredu (wedi'i gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion net o waredu a swm sy'n cario yr eitem) yn cael ei gydnabod mewn elw neu golled. Pan fydd eiddo buddsoddi a gafodd ei ddisbarthu'n flaenorol fel eiddo, offer a chyfarpar yn cael ei werthu, mae unrhyw swm cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys yn y gronfa ailbrisio yn cael ei drosglwyddo i enillion a gedwir (gweler nodyn 1.8 am fanylion y priswyr).

#### 1.12 Stocrestrau

Mae gwaith ar y gweill wedi'i ddatgan am yr isaf o gost a gwerth realeiddio net. Mae'r gost yn cynnwys costau mewnol staff a gorbenion y gellir eu priodoli'n uniongyrchol wrth baratoi i gwblhau cofrestru ar

gyfer y cwsmer. Mae gwerth realeiddio net yn seiliedig ar y ffi a godir ar y cwsmer llai'r costau pellach y disgwyliar iddynt godi wrth gwblhau'r gwasanaethau. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd ar y gweill yn deillio o amcangyfrifon a rhagdybiaethau yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Adolygir yr amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol hyn yn rheolaidd.

#### 1.13 Masnach i'w dderbyn

Nid yw masnach i'w dderbyn yn cario unrhyw log a chaiff ei ddatgan ar ei werth nominal fel masnach wedi'i leihau gan lwfansau priodol ar gyfer symiau nad oes modd eu hadennill. Mae'r darpariaethau amhariad hyn yn cael eu cofnodi yng nghostau gweinyddol o fewn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Cymerir bod y swm sy'n cario o fasnach i'w dderbyn yn frasmcan o werth teg.

Os disgwyliar casglu symiau i'w derbyn o fewn blwyddyn neu lai cânt eu dosbarthu fel asedau cyfredol.

#### 1.14 Arian parod ac arian parod cyfatebol

Mae arian parod yn cynrychioli arian mewn llaw, arian a ddelir gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth, arian ar adnau gyda'r Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol ac mewn cyfrifon banc masnachol. Mae'r banc masnachol ac adneuron Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn gronfeydd sydd ar gael ar unwaith. Mae adneuron y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol yn fuddsoddiadau byrdymor o dri mis neu lai ac ni ellir eu had-dalu hyd nes bydd y benthyciad yn aeddfedu.

#### 1.15 Masnach i'w dalu

Mae masnach i'w dalu yn rhwymedigaethau i dalu am nwyddau a gwasanaethau sydd wedi cael eu caffael yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr. Mae cyfrifon i'w talu wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os yw'r taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol. Mae masnach



i'w dalu wedi'i ddatgan am ei werth nominal. Ystyrir bod swm sy'n cario masnach i'w dalu yn frasmcan o werth teg.

### **1.16 Darpariaethau**

Mae Cofrestrfa Tir EM yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol a deongliadol sydd ag amseriad neu swm ansicr ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol, ar sail amcangyfrif gorau'r rheolwyr o'r gwariant sydd ei angen i fodloni'r rhwymedigaeth ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol. Os yw effaith disgowntio yn sylweddol, mae darpariaethau yn cael eu disgowntio i'r gwerth presennol disgwylidig o'u llifoedd arian parod yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfradd disgownt rhydd o risg. Os yw'n briodol ategir hyn gan gyngor proffesiynol annibynnol. Codir darpariaethau ar y datganiad o incwm cynhwysfawr a chânt eu cofnodi fel rhwymedigaethau yn y datganiad o sefyllfa ariannol. (Rhoddir rhagor o fanylion, gan gynnwys materion sensitifwydd, yn nodyn 16.)

### **1.17 Y Gronfa Indemniad**

Mae Atodlen 8 i Ddeddf Cofrestru Tir 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EM indemnio trydydd partïon yn erbyn colled a achosir gan gamgymeriadau yn y gofrestr, camgymeriadau mewn canlyniadau chwilio a cholli dogfennau gan Gofrestrfa Tir EM. Mae'r rhan fwyaf o geisiadau indemniad Cofrestrfa Tir EM yn deillio o gamgymeriadau yn y gofrestr, ac mae rhai o'r camgymeriadau hyn yn ganlyniad i dwyllo dogfennau megis pridiannau. Yn wir mae twyll/ffugio fel arfer yn cyfrif am y gyfran fwyaf o'r taliadau indemniad, ac nid yw'r flwyddyn hon yn wahanol. O dan Atodlen 8 i'r Ddeddf, mae hawliau statudol gan Gofrestrfa Tir EM i adennill y taliadau hyn gan drydydd partïon, os yw'r trydydd partïon ar fai, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, am y golled.

Fel ar y dyddiad cyfrifyddu cyfredol, mae taliadau am hawliadau yn y dyfodol yn ansicr o ran amseriad a swm. Mae'r Gronfa Indemniad wedi'i sefydlu ar sail yr

amcangyfrif gorau o wariant sy'n ofynnol i fodloni'r rhwymedigaeth. Mae'r Gronfa Indemniad yn cael ei gosod ar ôl ystyried amcangyfrifon actiwaraidd o gost yr hawliadau a adroddwyd ond heb eu talu, yn ogystal â hawliadau sydd wedi codi ond heb eu hadrodd. Mae'r brasamcan o gost hawliadau yn cynnwys y treuliau sydd wedi codi wrth dalu'r hawliadau hyn.

Mae swm cario'r Gronfa Indemniad yn deillio o farnau critigol, amcangyfrifol y Gofrestrfa, wedi'i gefnogi gan ei actiwariaid annibynnol Lane, Clark & Peacock LLP.

Ar ôl y dyddiad cyfrifyddu, mae adolygiad pellach o'r hawliadau a dderbyniwyd gan Gofrestrfa Tir EM (hyd at y dyddiad y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon) yn cael ei wneud i weld a yw'r gronfa indemniad wedi'i phrisio'n briodol o hyd. Mae'r cyfrifon hyn yn rhoi'r gwerthoedd setliad tebygol ar gyfer hawliadau cyfredol a hawliadau yn y dyfodol yn erbyn y Gronfa Indemniad. Rhoddir manylion pellach am y Gronfa Indemniad yn nodyn 16.2 o'r adroddiad hwn.

### **1.18 Rhwymedigaethau wrth gefn**

Os yw'n briodol, mae rhwymedigaethau y mae posibilrwydd yn unig y byddant yn crisialu ac nid ydynt yn bodloni meini prawf y darpariaethau, wedi'u dosbarthu fel rhwymedigaethau wrth gefn. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i, hawliadau am golledion sy'n deillio o wallau, neu dwyll mewn perthynas â chyfrifoldeb statudol Cofrestrfa Tir EM fel yr yswiriwr teitlau yng Nghymru a Lloegr (gweler nodyn 18.1).

### **1.19 Prydlesi cyllid**

Os yw Cofrestrfa Tir EM yn cadw holl risgiau a gwobrwyon perchennog ased sy'n amodol ar brydles, caiff y brydles ei thrin fel prydles gyllid. Mae rhandaliadau sy'n daladwy yn y dyfodol o dan brydlesi cyllid, yn glir o daliadau cyllid, yn cael eu cynnwys yn rhwymedigaethau

gyda'r gwerthoedd ased cyfatebol wedi'u cofnodi o fewn asedau anghyfredol a'u dibrisio dros y byrrach o'u hoes ddefnyddiol dybiedig neu eu telerau prydles. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng yr elfen gyllid, a godir ar y datganiad o incwm cynhwysfawr fel llog, a'r elfen gyfalaf, sy'n lleihau'r rhwymedigaeth sy'n weddill ar gyfer rhandaliadau yn y dyfodol.

### **1.20 TAW**

Mae Cofrestrfa Tir EM yn rhoi cyfrif am TAW ar ei gweithgareddau statudol o dan Gyfarwyddiadau Trethu a Chontractio Allan Gwasanaethau Trysorlys EM. Ar gyfer gweithgarwch anstatudol, sy'n weithgarwch busnes, codir ac adenillir TAW yn ôl rheolau TAW masnachol. Mae TAW nad oes modd ei hadennill yn cael ei chodi i'r categori gwariant perthnasol neu'n cael ei chynnwys yng nghostau prynu wedi'u cyfalafu asedau anghyfredol. Os yw treth allbwn yn cael ei chodi neu os oes modd adennill treth fewnbwn nodir y symiau yn glir o TAW.

### **1.21 Difidend y Trysorlys**

Mae'n ofynnol i Gofrestrfa Tir EM dalu difidend blynyddol i'r Trysorlys o 3.5% o'r cyfalaf cyfartalog a ddefnyddir yn ystod y flwyddyn ariannol a hefyd yr amcangyfrif chwyddiant diweddaraf am y flwyddyn, a ddarperir gan ONS (gweler nodyn 21). Mae'n ddigonol ym marn Cofrestrfa Tir EM i gyfrifo'r ffigur hwn drwy ddefnyddio cyfartaledd blynyddol. Ni cheir unrhyw effaith sylweddol os yw'r ffigur hwn yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio dull arall, e.e. cyfartaledd misol.

### **1.22 Ailddatganiadau cyfnod blaenorol**

O dan IAS 8 Newidiadau polisïau cyfrifyddu mewn amcangyfrifon a gwallau cyfrifyddu, mae addasiadau i gyfnodau blaenorol yn ofynnol ar gyfer newidiadau i bolisiau cyfrifyddu neu i gywiro gwallau cyfnod blaenorol, sy'n codi o hepgoriadau, neu gamddatganiadau.

Ni chafwyd unrhyw ailddatganiadau cyfnod blaenorol yn 2016/17.

## 2 Segmentau busnes

Mae Safon Adroddiadau Ariannol Ryngwladol 8 (IFRS 8) – Adrodd am segmentau gweithredu, yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddadansoddi incwm a gwariant yn ôl prif weithgareddau busnes.

Mae tri maes ar wahân ar gyfer y gwasanaethau statudol a gyflenwir gan Gofrestrfa Tir EM: cofrestru teitl; cofrestru Pridiannau Tir a chofrestru morgaeisi a wneir o dan y Ddeddf

Credydau Amaethyddol 1928. At ddibenion gweithredol, mae Cofrestrfa Tir EM yn cyfuno cyflawni'r ddau wasanaeth olaf hyn ac adlewyrchir hyn yn y dadansoddiad hwn o segmentau.

Mae Cofrestrfa Tir EM hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau masnachol hefyd a ddangosir ar wahân fel segment busnes.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am yr incwm o ffioedd statudol a thaliadau masnachol, cost gwasanaeth a'r gwarged net ar gyfer pob un o'r segmentau busnes. Mae cost gwasanaeth a chostau gweinyddol yn cael eu dyrannu a'u dosrannu ar sail briodol ar gyfer y gwasanaeth.

	Statudol		Anstatudol		Statudol		Anstatudol	
	Cofrestru teitl	Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol	Incwm masnachol	2016/17 Cyfanswm	Cofrestru teitl	Pridiannau Tir a Chredydau Amaethyddol	Incwm masnachol	2015/16 Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Incwm	299,591	6,267	5,567	311,425	284,196	6,193	4,983	295,372
Cost gwasanaeth	(222,578)	(1,398)	(2,983)	(226,959)	(233,892)	(1,483)	(3,216)	(238,591)
Costau gweinyddol	(14,662)	(31)	(343)	(15,036)	(15,228)	(33)	(332)	(15,593)
<b>Gwarged gweithredu</b>	<b>62,351</b>	<b>4,838</b>	<b>2,241</b>	<b>69,430</b>	<b>35,076</b>	<b>4,677</b>	<b>1,435</b>	<b>41,188</b>

Mae'r gwarged ar gyfer cofrestru teitl wedi cynyddu gan £27.2m o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y rheswm am hyn yw cyfuniad o fwy o incwm oherwydd mwy o waith (yn unol â'r gyllideb wreiddiol) a lefelau llai o incwm gohiriedig.

Mae'r gwarged am y flwyddyn ar incwm masnachol o £2.2m yn uwch na'r disgwyl.

Roedd refeniw yn uwch na'r waelodlin a ragwelwyd (£0.8m) oherwydd ffyniant parhaus y farchnad dai ac incwm sylweddol o brosiectau seilwaith y llywodraeth.

Ar hyn o bryd dangosir costau refeniw Pridiannau Tir Lleol yn Nodyn 3.3. Bydd Pridiannau Tir Lleol yn segment gweithredu pan fydd Cofrestrfa Tir EM yn rhedeg gwasanaeth byw.

## 3 Gwarged gweithredu

### 3.1 Datgenir y gwarged gweithredu ar ôl codi tâl

	2016/17	2015/16
	£'000	£'000
Costau staff (gweler nodyn 4.1)	179,485	168,173
Darpariaeth ar gyfer costau indemniad (gweler nodyn 16.2)	300	11,200
Gwasanaethau TG	14,460	14,901
Hurio peiriannau	4,948	5,302
Tâl yr archwiliwr – ffi archwilio	65	65
Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a berchenogir	4,048	4,682
Dibrisio asedau anghyfredol diriaethol – a brydlesir	299	547
Amorteiddio asedau anniriaethol	349	338
Amhariad mewn gwerth asedau anghyfredol	(584)	6,466
Tâl am brydlesi gweithredu – adeiladau	1,021	1,361
Incwm amrywiol	(2,708)	(2,842)

### 3.2 Costau ailstrwythuro ac ad-drefnu

	2016/17							2015/16
	Ymdeoliad cynnar	Diswyddo cynnar	RhTC <sup>1</sup>	Cyfanswm	Ymdeoliad cynnar	Diswyddo cynnar	RhTC	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Costau a gododd yn y flwyddyn	270	154	1	425	282	–	1,176	1,458
	270	154	1	425	282	–	1,176	1,458

1 Rhaglen Trawsnewid Cyflymedig.

### 3.3 Pridiannau Tir Lleol

	2016/17	2015/16
	£'000	£'000
Costau refeniw a gododd yn y flwyddyn	1,592	2,265
	1,592	2,265

Roedd Deddf Seilwaith 2015 wedi trosglwyddo cyfrifoldeb i Gofrestrfa Tir EM am gynnal cofrestr o Bridiannau Tir Lleol ac rydym wrthi'n datblygu'r gwasanaeth statudol hwn fel segment busnes newydd. Caiff ei ddangos fel segment ar wahân pan fydd Cofrestrfa Tir EM yn rhedeg Pridiannau Tir Lleol fel gwasanaeth byw. Mae'r costau refeniw sy'n gysylltiedig â

datblygu'r gwasanaeth hwn yn cael eu cofnodi ar wahân a'u dangos yn y tabl uchod. Dangosir costau cyfalaf yn Nodyn 9 o dan Asedau sy'n cael eu datblygu.



## 4 Gwybodaeth am weithwyr

### 4.1 Costau staff

	2016/17				2015/16			
	Staff parhaol	Prentisiaid	Eraill	Cyfanswm	Staff parhaol	Prentisiaid	Eraill	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	w000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cyflogau	130,386	5,433	4,312	140,131	124,291	2,118	7,640	134,049
Costau nawdd cymdeithasol	13,401	109	223	13,733	9,337	169	151	9,657
Costau pensiwn eraill	24,285	949	387	25,621	23,669	424	374	24,467
<b>Cyfanswm costau staff</b>	<b>168,072</b>	<b>6,491</b>	<b>4,922</b>	<b>179,485</b>	<b>157,297</b>	<b>2,711</b>	<b>8,165</b>	<b>168,173</b>

### 4.2 Niferoedd staff

Roedd nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd (cyfwerth ag amser llawn) gan Gofrestrfa Tir EM yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn.

	2016/17				2015/16			
	Staff parhaol	Prentisiaid	Eraill	Cyfanswm	Staff parhaol	Prentisiaid	Eraill	Cyfanswm
Uwch reolwyr	7	-	-	7	7	-	1	8
Gweithredol	3,239	256	83	3,578	3,310	99	26	3,435
Gweinyddol	257	6	12	275	222	-	8	230
TG	385	4	31	420	344	-	18	362
	<b>3,888</b>	<b>266</b>	<b>126</b>	<b>4,280</b>	<b>3,883</b>	<b>99</b>	<b>53</b>	<b>4,035</b>

**4.3** Mae cyflog a hawliau pensiwn y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr Cofrestrfa Tir EM wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Tâl a Staff ar dudalennau 78 i 89.

### 4.4 Pensiynau

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a'r Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn 'alpha' yn gynlluniau buddion wedi'u diffinio amlgyflogwr heb eu cyllido ond ni all y Gofrestrfa Tir EM adnabod ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Roedd actiwari'r cynllun wedi priso'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Fe gewch fanylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil.

Ar gyfer 2016/17, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £25.7m yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (2015/16: £24.4m) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 20% i 24.5% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae

actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Gosodir cyfraddau cyfraniadau i dalu am gost y buddion sy'n codi yn ystod 2016/17 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn budd-ddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr.

Talwyd cyfraniadau Cofrestrfa Tir EM o £181,344 i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn budd-ddeiliaid penodedig (2015/16: £146,842). Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio rhwng 3% i 12.5% o enillion pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 ac o 8% i 14.75% o enillion pensiynadwy o 1 Hydref 2015. Mae Cofrestrfa Tir EM hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3% o enillion pensiynadwy.

Yn ogystal, roedd cyfraniadau Cofrestrfa Tir EM o £4,358, sef 0.5% o dâl pensiynadwy yn daladwy i'r PCSPS i gwmpasu cost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol ar farwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeol ar sail afiechyd i'r gweithwyr hynny (2015/16: £3,534).

Nid oedd unrhyw gyfraniadau dyledus i ddarparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y datganiad o sefyllfa ariannol neu gyfraniadau rhagdaledig ar y dyddiad hwnnw yn sylweddol.

Roedd chwe unigolyn wedi ymddeol yn gynnar yn ystod y flwyddyn ar sail afiechyd. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn cronus ychwanegol yn y flwyddyn oedd £13,875 (2015/16: £39,830).

Mae rhagor o wybodaeth am y trefniadau pensiwn i'w gweld yn yr adroddiad Tâl a Staff ar dudalennau 78 i 89 a nodyn 1.7 ar dudalen 100

## 5 Incwm buddsoddi

	<b>2016/17</b>	2015/16
	<b>£'000</b>	£'000
Llog ar adneuron banc	<b>1,336</b>	1,774

## 6 Costau cyllid

	<b>2016/17</b>	2015/16
	<b>£'000</b>	£'000
Llog ar rwymedigaethau o dan brydlesi cyllid	<b>682</b>	702

## 7 Difidend i'w dalu

	<b>2016/17</b>	2015/16
	<b>£'000</b>	£'000
Difidend i'w dalu	<b>18,896</b>	13,584

Ym Mawrth 2017 gwnaethpwyd taliad interim o £11.9m mewn perthynas â'r difidend cyffredin.

Gweler nodyn 1.21 ar dudalen 102 ar gyfer y polisi cyfrifyddu sy'n ymwneud â thaliadau difidend.

## 8 Eiddo, offer a chyfarpar

### 8.1 Cost neu brisiad

	Eiddo	Adeiladau £'000	Prydlesol Adeiladau £'000	Offer a chyfarpar			Cyfanswm £'000
	Rhydd- ddaliol Tir £'000			Asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Asedau cysylltiedig â TG £'000	Offer a chyfarpar arall £'000	
